



Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ionawr 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl a hynny ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfonwch ebost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn victimsconsultation@justice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101828826

Argraffwyd y ddogfen yn y Deyrnas Unedig gan Y Llyfrfa Cyf ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ID 2475304 01/12

Fe'i hargraffwyd ar bapur sydd ag o leiaf 75% o'i ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder	3
Asesiadau Effaith ac Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb	5
Perthnasedd tiriogaethol	6
Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn	7
Rhagarweiniad - y ddadl o blaid newid	8
Rhan 1 - Y Strategaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion	17
Helpu dioddefwyr i ymdopi ac ymadfer	17
Helpu dioddefwyr a thystion drwy'r broses cyfiawnder troseddol	26
Adfer a gwneud iawn	38
Rhan 2 - Digolledu dioddefwyr troseddau treisgar ym Mhrydain Fawr a dioddefwyr terfysgaeth dramor	51
Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor	82
Atodiad A: Symiau'r dyfarniadau ac enghreifftiau o anafiadau ym mhob band tariff yn y cynllun cyfredol ac ar gyfer y cynllun diwygiedig a gynigir	87
Atodiad B: Nifer yr hawliadau ar gyfartaledd a'r gwariant a amcangyfrifir ym mhob band tariff ac effaith y diwygiadau arfaethedig i'r cynllun, gan seilio'r amcangyfrifon ar ddata 2008/09 a 2009/10	97

Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion

Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Mae amddiffyn a chefnogi diodefwyr troseddau'n elfen hanfodol o'm gweledigaeth ar gyfer diwygio'r system cyfiawnder troseddol.

Rhaid i bobl sy'n dioddef yn sgil troseddau allu dibynnu ar gael cyfiawnder sicr yn ddiymdroi, cyfiawnder sy'n cosbi troseddwy'r yn iawn, a hwnnw'n gyfiawnder deallus sy'n mynnu bod troseddwy'r yn wynebu'r hyn sy'n gyfrifol am eu hymddygiad ac sy'n amddiffyn diodefwyr y dyfodol rhag wynebu trawma tebyg.

Ond, yn fwy na hynny, mae angen iddynt allu cael cymorth a chydymdeimlad ar y pryd a fydd yn help iddynt ymadfer ar ôl y profiad, yn ogystal â deall straen anochel yr ymchwiliad a'r treial ac ymdopi â hynny. Dylid ariannu'r cymorth hwn yn iawn, a dylai'r troseddwy'r yn hytrach na'r trethdalwyr dalu'n gynyddol amdano. Dylid canolbwyntio iawndaliadau ariannol ar y bobl ddi-fai hynny sy'n dioddef y troseddau mwyaf difrifol.

Nid yw'r drefn bresennol yn cyflawni'r nodau hyn. Mae cyfraddau aildroseddu'n warthus o uchel, ac felly nid yw'r cyhoedd yn cael ei amddiffyn yn iawn rhag pobl sy'n troseddu dro ar ôl tro. Nid oes cymorth ymarferol o safon ar gael yn gyson i ddiodefwyr. Ychydig y bydd troseddwy'r yn ei dalu tuag at ddiwallu anghenion diodefwyr.

Yn rhy aml, fe all y broses cyfiawnder ei hun ychwanegu at boen y troseddwr. Weithiau, gadewir troseddwy'r yn teimlo eu bod ar gyrion y system, a'u bod yn cael eu cadw yn y niwl ynglŷn â hynt eu hachos, neu'n gorfod eistedd wrth ymyl teuluoedd y troseddwy'r yn y llys. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le yn y system cyfiawnder troseddol, bydd diodefwyr yn gorfod dewis rhwng 13 o wahanol asiantaethau er mwyn penderfynu wrth bwy i gwyno.

Peth arall sydd yn gymaint o destun pryder yw bod cronfa swyddogol y Gyfraith, y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICS) heb gael ei ariannu'n iawn ers y dechrau, ac erbyn hyn, mae'n wynebu anawsterau ariannol difrifol. Bydd hawlwy'r yn disgwyl am fisoedd – blynnydoedd weithiau – cyn i'r broses gyfan gyrraedd ei phen draw a'r taliadau gyrraedd. Yn y cyfamser, gwerir cyfran sylweddol o'r gyllideb ar daliadau i'r rheini sy'n dioddef anafiadau cymharol fach, megis troi ffêr. Mae'n hurt bod degau o filiynau o bunnoedd wedi'u gwario ar ddigolledu pobl sydd eu hunain yn droseddwy'r a gafwyd yn euog.

Mae'r papur hwn yn ymgynghori ynglŷn â set o ddiwygiadau a fydd yn sicrhau gwasanaeth mwy synhwyrllon a chydlynol i ddiodefwyr troseddau. Yr wyf am weld system sydd wedi'i thargedu at y rheini sy'n cael eu hanafu yn y ffordd fwyaf difrifol yn sgil troseddu, boed hynny'n anaf corfforol ynteu'n drawma emosiynol. Yr wyf am i ddiodefwyr allu dibynnu ar CICS yn y tymor hir, sy'n golygu sicrhau bod y cynllun yn ariannol gadarn drwy ganolbwyntio'r adnoddau ar yr achosion mwyaf difrifol. Yr wyf am sicrhau bod cymorth o'r radd flaenaf ar gael, megis cyngor ymarferol a gwasanaethau cwnsela, er mwyn helpu pobl i ymdopi â'u bywyd bob dydd, i bawb y mae angen y cymorth hwnnw arnynt, a hynny ar yr adeg briodol.

Nod fy nghynlluniau yw cynnal lefelau cyffredinol yr arian a werir ar ddiodefwyr, gan gynyddu'r symiau sydd ar gael ar gyfer maes hanfodol cyngor a chymorth ymarferol. Yn y cyfamser, bydd yr iawndaliadau'n cael eu targedu at y rheini sydd wedi cael y niwed mwyaf difrifol yn sgil troseddau difrifol, gan ddwyn i ben yr anghysonderau yn y drefn ariannu bresennol ac arbed arian i'r trethdalwr. Daw'r arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gan y troseddwr eu hunain, gan bwysleisio'r egwyddor mai'r rheini sy'n achosi niwed ddylai wneud iawn amdano. Ni fydd iawndaliadau ar gael rhagor i'r rheini sydd wedi cael anafiadau cymharol fach, nac i neb sydd wedi bod yn torri'r gyfraith ei hun.

Ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn sgil dynladdiad a'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan droseddau treisgar a throseddau rhyw difrifol, byddai'r cynigion hyn yn gwarchod iawndaliadau am boen a dioddef ac ar yr un pryd yn ceisio gwella'r cymorth a'r cyngor ymarferol sydd ar gael. Yn hytrach na chael taliad ymhell ar ôl y digwyddiad, bydd pobl sy'n dioddef mân anafiadau'n gallu manteisio ar gymorth ymarferol a gwell gwasanaeth cwnsela pan fydd angen hynny arnynt.

Dylai'r profiad o ymchwilio i drosedd a'r treial ei hun liniaru dioddef y diodefwyr yn hytrach na'i ddwysáu yn anfwriadol. Bydd hawliau diodefwyr yn cael eu crisialu mewn cod clir, a bydd pob asiantaeth berthnasol yn cefnogi'r cod hwnnw. Bydd gweithdrefn gwyno syml yn disodli'r drefn ddryslyd bresennol.

Effaith gyffredinol y cynigion fydd bod gennym system cymorth fwy hyblyg i helpu diodefwyr troseddau a honno'n system sydd wedi'i theilwra'n well. Bydd y rhan fwyaf helaeth o'r penderfyniadau ynglŷn â pha wasanaethau sydd eu hangen yn cael eu gwneud ar lefel leol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy'n ddemocrataidd atebol.

Yr wyf hefyd am wireddu bwriad y Llywodraeth ddiwethaf i ddigolledu diodefwyr terfysgaeth dramor. Sylweddolaf fod yr oedi wrth gadarnhau manylion y polisi hwn wedi achosi pryder, ond credaf ei bod yn bwysig i ddiodefwyr ymosodiadau terfysgol dramor allu bod yn gymwys i gael iawndal yn y dyfodol ar yr un sail ag y bydd diodefwyr troseddau yn y Deyrnas Unedig. Byddwn hefyd yn gwneud taliadau ex gratia i bobl gymwys sydd wedi dioddef yn sgil digwyddiadau, yn ôl hyd at 2002, ar sail tariff presennol CICS. Nid cynlluniau newydd yw'r rhain, ac felly, nid ymgynghorir yn eu cylch yn y papur hwn. Hoffwn ddiolch i bawb fu'n disgwyl yn amyneddgar am gyhoeddi'r cynlluniau hyn wrth inni weithio ar y manylion.

Yn rhy aml, ni roddir digon o flaenoriaeth i ddiodefwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Ond dyma'r bobl y mae gennym y ddyletswydd fwyaf atynt. Dylid ymdrin â'u hanghenion yn ddi-oed mewn ffordd sensitif a chymesur. Credaf y bydd cynigion y papur hwn yn sicrhau bod gwasanaethau i ddiodefwyr ar sylfaen gynaliadwy a'u bod yn gam mawr at wneud iawn am fethiannau'r gorffennol.



Y Gwir Anrh. Kenneth Clarke CF AS
30 Ionawr 2012

Asesiadau Effaith ac Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn helpu pobl i ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiadau ar wahân ar effeithiau posibl ein cynigion.

- Asesiadau Effaith: eu pwrpas yw rhestru'r prif grwpiau y bydd ein cynigion yn effeithio arnynt a'r costau a buddion tebygol a wynebai'r grwpiau hynny yn sgil y cynlluniau hyn. Rhoddir gwerth ariannol ar y costau a'r buddion lle bo modd. Mae'r asesiadau ar effaith i'w gweld yn <http://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses>
- Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r rhain yn ystyried effeithiau posibl ein cynigion yn unol â'r nodweddion a warchodir sef oedran, anabledd, ailbennu rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r asesiadau effaith ar gydraddoldeb i'w gweld yn <http://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses>.

Rydym yn croesawu sylwadau am gywirdeb ac ehangder yr effeithiau a nodwyd. Rydym yn croesawu'n benodol ymateb gan y rheini sy'n eu hystyried eu hunain yn rhai y mae un o'r nodweddion a warchodir yn berthnasol iddynt neu sy'n perthyn i un o'r grwpiau budd sy'n cynrychioli'r bobl hynny. Ystyrir yr ymatebion a geir wrth i'r Llywodraeth benderfynu sut orau y dylid bwrw ymlaen ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Yr ydym hefyd wedi cyhoeddi, ochr yn ochr â'r dadansoddiadau ar ein cynigion eraill, ddadansoddiadau ar wahân ar effeithiau posibl ein cynlluniau ar ddioddefwyr terfysgaeth dramor, er nad yw'r rheini'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ein bwriad fydd cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r dadansoddiad cydraddoldeb pan fyddwn yn agor y broses ymgeisio ar gyfer y cynllun ex gratia.

Perthnasedd tiriogaethol

Mae a wnelo Rhan 1 o'r ddogfen hon â Chymru a Lloegr yn unig.

Yn Rhan 2:

- mae'r testun sy'n ymwneud â'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban;
- ond mae'r testun sy'n ymwneud â digolledu diodefwyr terfysgaeth dramor yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig yn ei chrynswth. Nid yw'r polisi hwn yn rhan o'r ymgynghoriad.

Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Anfonwch eich ymateb erbyn 22/04/12 i'r cyfeiriad isod:

victimsconsultation@justice.gsi.gov.uk

neu atebwch ar-lein yn:

<http://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses>

Dylid anfon e-bost i'r cyfeiriad uchod os oes gennych ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y cyhoeddiad ar ffurf amgen), **neu cysylltu â:**

Bola Fabunmi
Uned Dioddefwyr a Thystion
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
8.10
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 2584

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol grynhoi safbwyntiau'r bobl a'r cyrff y maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, neu efallai y caiff ei datgelu'n unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am inni drin yr wybodaeth a rowch chi'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, a bod hwnnw'n ymwneud ag ymrwymadau ynglŷn â chyfrinachedd, ymhlith pethau eraill. Felly, byddai'n gymorth inni pe gallech chi esbonio inni pam yr ydych yn ystyried yr wybodaeth a roesoch inni'n wybodaeth gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn ofalus, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y cedwir yr wybodaeth yn gyfrinachol ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried yn ddatganiad sy'n clymu'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partion.

Rhagarweiniad - y ddadl o blaid newid

Cyfrifoldebau'r Llywodraeth

Mae gan y Llywodraeth rôl driphlyg gyda golwg ar ddiodefwyr a thystion:

- Yn gyntaf, dylai'r Llywodraeth sicrhau bod diodefwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddelio â phethau'n syth ar ôl trosedd, ac, os oes angen, eu bod yn cael rhagor o help dros gyfnod. Fe allai hynny gynnwys iawndal, er mwyn iddynt gael eu bywyd yn ôl ar y trywydd iawn. Wrth wneud hyn, dylai'r Llywodraeth sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus.
- Yn ail, gan gydnabod y rôl hollbwysig sydd gan ddiodefwyr a thystion yn y llys, oherwydd na ellid sicrhau cyfiawnder hebddynt ac y byddai llawer mwy o droseddwy'r ar ein strydoedd, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod y rheini sy'n chwarae eu rhan fel hyn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddelio â straen mynd i'r llys a rhoi tystiolaeth.
- Yn drydydd, cyfrifoldeb y Llywodraeth i ddiodefwyr troseddau yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod troseddwy'r yn cael eu dal, eu bod yn cael eu cosbi a bod y gyfraith yn ymdrin â hwy mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o droseddu eto gan greu mwy o ddiodefwyr.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen ymgynghori *Torri'r Cylch*, a oedd yn cynnig diwygiadau helaeth i'r ffordd y caiff troseddwy'r eu dedfrydu gan y llysoedd a'r ffordd yr ymdrinnir â hwy wedyn yn y carchar ac yn y gymuned. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghori fis Gorffennaf diwethaf ac mae'r Senedd ar hyn o bryd yn ystyried pecyn o fesurau a ddisgrifir yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r. Nid oes rhagor i'w ddweud yn y ddogfen hon am yr olaf o'r tri phwynt bwled uchod. Serch hynny, mae'r ddogfen yn adeiladu ar sail y themâu a godwyd gyntaf yn *Torri'r Cylch*, yn enwedig ei bod yn bwysig bod troseddwy'r yn cyfrannu mwy at wneud iawn am niwed y maent wedi'i achosi i ddiodefwyr troseddau.

Safbwynt y diodefwyr

Mae troseddu'n costio'n ddrud i bobl. I rai diodefwyr, yn enwedig y rheini sydd wedi dioddef yn sgil troseddau llai difrifol, efallai mai effaith ymarferol a gafodd y troseddu ac na fydd yr effaith honno'n para'n hir. Bydd llawer yn eu cael eu hunain yn gorfod ymdopi ac effeithiau emosiynol troseddu. I'r rheini sydd wedi dioddef troseddau treisgar a'r troseddau rhyw mwyaf difrifol, fe all effaith hynny amlygu ei hun ar ffurf trallod, caledi, anaf sy'n newid eu bywyd neu brofedigaeth.

Mewn oddeutu 80%¹ o'r holl achosion, bydd diodefwyr yn dweud nad ydynt am gael dim gwybodaeth, cyngor na chymorth gan y wladwriaeth na chan ffynonellau eraill. Ond bydd oddeutu 20% o ddiodefwyr yn dweud bod angen cyngor a chymorth arnynt, ac mae ganddynt yr hawl i ddisgwyl cael help gan y system cyfiawnder a'r Llywodraeth er mwyn dod dros y niwed y maent wedi'i ddiodef.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod asiantaethau cyfiawnder troseddol a chyrrff cymorth yn rhoi gwasanaeth da. Mae'r Arolwg o Brofiadau Tystion a Dioddefwyr (WAVES)² yn awgrymu bod dros 80% o'r diodefwyr a'r tystion a holwyd rhwng 2007/8 a 2009/10, yn fodlon ar y ffordd y cawsant eu trin gan y system cyfiawnder troseddol.³ Mae'r ymchwil yn dangos lefel debyg o fodlonrwydd ar wasanaeth yr heddlu.⁴ Mae diodefwyr a thystion yn dweud mai'r hyn y maent yn awyddus i'w gael yw gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol, gwybodaeth am hynt eu hachos, teimlo'n ddiogel yn y llys a pheidio â theimlo dan fygythiad gan y troseddwr neu deulu a ffrindiau'r troseddwr, nac yn y llys na chyn ac ar ôl y treial.

Serch hynny, nid yw'r arolygon yn cynnwys rhai o'r grwpiau o ddiodefwyr mwyaf agored i niwed na diodefwyr rhai o'r troseddau mwyaf difrifol. Gwyddom fod gan rai diodefwyr anghenion pwysig nad ydynt yn cael eu diwallu. Fel y dywedodd Sara Payne – Pencampwr Dioddefwyr ar y pryd – yn *Redefining Justice*⁵, mae rhai diodefwyr yn teimlo'u bod ar gyrion y system cyfiawnder troseddol ac yn gweld y broses yn un amheronol a rhwystredig. Yn ôl y diodefwyr hynny, dim ond yn achlysurol y byddai'r heddlu'n cysylltu â hwy yn ystod yr ymchwiliadau, byddai gwybodaeth yn cael ei darparu mewn ffordd anghyson, byddai'n rhaid iddynt ddisgwyl yn hir yn y llys, ac ni chaent ddigon o gymorth ar ôl y treial. Fe all y ffactorau hyn olygu bod diodefwyr yn teimlo bod mai'r unig reswm y mae'r system cyfiawnder troseddol yn

¹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, adroddiad ar y gweill. Daw'r ffigur hwn o Arolwg Troseddau Prydain 2008/09 - y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. Arolwg diodeffaint wyneb-yn-wyneb yw'r arolwg hwn lle y gofynnir i bobl sy'n byw ar aelwydydd yng Nghymru a Lloegr am eu profiadau o ystod o droseddau personol a throseddau mewn tai. Nid yw'n cynnwys nifer o fathau o droseddau, megis twyll, troseddau yn erbyn eiddo masnachol a dynladdiad. Nid yw'r data a gyflwynir yma'n cynnwys plant o dan 16 oed; at hynny, nid yw'r amcangyfrif hwn ychwaith yn cynnwys diodefwyr trais rhywiol.

² WAVES, achosion a gaewyd yn 2007/8, 2008/9 a 2009/10. Bydd WAVES yn cyfweld â diodefwyr a thystion yr erlyniad sy'n 18 oed a hŷn yr arweiniodd eu hachosion at gyhuddiad, a hynny ar ôl i'r achos gau. Dyma'r mathau o droseddau y mae'n eu cynnwys: trais yn erbyn y person; lladrad; byrgleriaeth; difrod troseddol; dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn. Ni chynhwysir diodefwyr a thystion mewn achosion sensitif, megis troseddau rhyw neu drais domestig, troseddau sy'n cynnwys marwolaeth, nac unrhyw drosedd lle'r oedd y diffynnydd yn aelod o'r teulu neu'n aelod o aelwyd y diodefwr neu'r tyst. Nid yw WAVES ychwaith yn cynnwys swyddogion yr heddlu na swyddogion asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yr ymosodwyd arnynt wrth iddynt wneud eu dyletswydd, nac ychwaith dystion yr heddlu na thystion arbenigol. Mae wedi dod i ben erbyn hyn.

³ <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/statistics-and-data/mojstats/cjs-stats-bulletin-march2010.pdf>

⁴ Dolen we fel uchod.

⁵ <http://www.justice.gov.uk/about/docs/sara-payne-redefining-justice.pdf>

ymgysylltu â hwy yw er mwyn sicrhau erlyniad llwyddiannus, heb roi sylw o ddifrif i'w hanghenion a'u pryderon.

Mae miloedd o bobl, gan gynnwys dros bum mil o wirfoddolwyr Cymorth i Ddioddefwyr, yn gweithio i helpu dioddefwyr yng Nghymru a Lloegr. Maent yn darparu gwasanaeth hollbwysig, ac yn gwneud hynny gydag agwedd ymroddgar a phroffesiynol. Mae angen inni sicrhau nad yw'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n awtomatig i'r rheini nad oes ei angen arnynt ac i'r rheini nad ydynt yn dymuno'i gael. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y gwaith ymchwil yn dangos bod y dioddefwyr hynny sy'n straffaglu i ddelio ag effaith y troseddau mwyaf difrifol, neu'r rheini sy'n dioddef troseddau lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol bwriadol dro ar ôl tro, yn aml yn cael eu hamddifadu o'r cymorth sydd ei angen arnynt. Rhaid inni dargedu'r cymorth yn well er mwyn iddo gyrraedd y rhai mwyaf anghenus.

Yr egwyddorion sy'n sail i'n diwygiadau

Seilir y diwygiadau a restrir yn y ddogfen ymgynghori hon ar yr egwyddorion a ganlyn:

- **Dylid rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i'r rhai mwyaf anghenus.** Credwn y dylid cyfeirio'r arian i helpu'r sawl sy'n dioddef yn sgil troseddau difrifol, y rheini sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro a'r rheini sydd fwyaf agored i niwed, ac mai dyna ddylai'r flaenoriaeth fod.
- **Dylai dioddefwyr gael help pan fydd ei angen arnynt.** Wrth ariannu a chomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr, byddwn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymorth ymarferol ac emosiynol wrth law yn syth ar ôl i'r trosedd ddigwydd, a bod anghenion dioddefwyr yn newid wrth i amser fynd heibio.
- **Dylai gwasanaethau ddiwallu gwahanol anghenion cymunedau drwy'r wlad.** Bydd gwahanol ardaloedd yn dioddef gwahanol lefelau a gwahanol fathau o droseddau. Er ei bod yn rhaid sicrhau bod gan ddioddefwyr ddisgwyliadau clir ynglŷn â sut y cânt eu trin a pha gymorth a gynigir iddynt, a hynny ar lefel genedlaethol, rhaid i wasanaethau lleol allu bod yn ddigon hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol ac ymateb wrth i'r rheini newid.
- **Dylai troseddwyr wneud iawn am effaith eu troseddau.** Rydym am weld y drefn yn symud oddi wrth sefyllfa lle bydd y trethdalwr yn talu am ddigolledu troseddwyr ac at sefyllfa lle bydd mwy o droseddwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb personol am y niwed y maent wedi'i achosi drwy gynnig ymddiheuriad neu drwy gynnig gwneud iawn yn ariannol neu'n ymarferol.

Mae'r blwch isod yn rhestru'n fwy manwl y diodefwyr hynny y mae'r Llywodraeth yn credu y dylent fod yn flaenoriaeth ar gyfer cael cymorth.

Byddwn yn blaenoriaethu:

- **Dioddefwyr troseddau difrifol.** Llofruddiaeth a dynladdiad, trais rhywiol, ymosodiadau rhyw, terfysgaeth a throseddau treisiol megis clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol, sef y troseddau sydd fel rheol yn cael yr effaith fwyaf difrifol ar ddiodefwyr. Nid yw'r math o drosedd bob tro'n dweud y stori i gyd – a dyna pam yr ydym am rymuso gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'u crebwyll wrth asesu anghenion - ond dylid tybio'n gyffredinol y gall fod angen cryn gymorth ar bobl sydd wedi diodef trosedd difrifol.
- **Y bobl hynny sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro.** Hyd yn oed pan fydd y troseddu i bob golwg yn llai difrifol, fe all gael effaith ddinistriol ar ddiodefwyr pan fydd yn digwydd dro ar ôl tro dros gyfnod, yn enwedig pan fydd rhywun yn cael ei dargedu'n fwriadol. Dylid ystyried hyn wrth asesu anghenion, a darparu cymorth.
- **Y bobl fwyaf agored i niwed.** Dyma'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod yn ddiodefwyr, neu y mae angen cymorth arbennig arnynt i ymdopi â chanlyniadau troseddu neu i ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Fe allent gynnwys pobl sydd wedi'u hynysu, neu rai nad oes ganddynt lawer o help yn y gymdeithas neu gan eu teulu, pobl y mae angen help arnynt i reoli eu materion eu hunain, pobl sy'n fwy tebygol o ddiodef trosedd nag aelodau'r gymuned yn gyffredinol (er enghraifft oherwydd eu hoedran neu eu cyflwr meddygol) neu bobl sy'n llai abl i ymdopi â'r canlyniadau, a'r bobl hynny a fyddai'n gallu elwa o gamau ychwanegol neu gamau arbennig yng nghyswllt achos llys.

Cwestiwn ymgynghori

C1 A oes grwpiau o ddiodefwyr a ddylai fod yn flaenoriaeth ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniadau o ddiodefwyr troseddau difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro, a'r rhai mwyaf agored i niwed? Os felly, a allwch roi tystiolaeth i ddangos pam y dylent fod yn flaenoriaeth a pha fath o gymorth fyddai ei angen arnynt?

Fel y dangosir yn y blwch isod, yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi bod yn symud i'r cyfeiriad iawn:

- Mae'r Llywodraeth wedi gweithredu ar sail ei ymrwymiad, yng Nghytundeb y Glymblaid, i dargedu adnoddau at ddiodefwyr trais rhywiol drwy roi sylfaen gynaliadwy i'r Canolfannau Cymorth Trais Rhywiol.
- Mae'r Llywodraeth wedi rhoi bron £8.5 miliwn o grantiau newydd dros dair blynedd i 65 o Ganolfannau Cymorth Trais Rhywiol drwy'r wlad, can sicrhau – am y tro cyntaf – bod ganddynt lif incwm sydd wedi'i warantu tan 2014.

- Mae'r Llywodraeth wedi cefnogi a gwella'r Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Achosion Dynladdiad sy'n helpu pobl sydd wedi colli rhywun yn sgil llofruddiaeth neu ddynladdiad, gan fuddsoddi £2.75 miliwn yn y Gwasanaeth ac mewn grwpiau arbenigol yn y flwyddyn ariannol bresennol.
- Mae'r Llywodraeth wedi neilltuo £28m tan fis Mawrth 2015 i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i ddiodefwyr o dan ei strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched,⁶ gan gynnwys i greu swyddi Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chydlynwyr Asesu Risg Amlasiantaeth.
- Rhoddodd y Llywodraeth dros £15 miliwn i gefnogi cyrff gwirfoddol sy'n rhoi cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n dioddef yn sgil troseddau.

Diwygio Hawliau Dioddefwyr

Mae'n hollbwysig blaenoriaethu'r cymorth sydd ar gael er mwyn iddo gyrraedd y bobl iawn, ond rhan bwysig o'r diwygiadau sydd eu hangen yw sicrhau mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn sydd i'w ddarparu a sut y caiff ei ddarparu. Elfen ganolog o'r drafodaeth hon yw bod angen Cod newydd i Ddiodefwyr, gan gydnabod bod y ddogfen bresennol yn brin iawn o'i nod – sef rhoi syniad clir i ddiodefwyr am yr hyn y mae ganddynt yr hawl iddo a'r gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Nid set o ddarpariaethau mewn iaith annelwig fydd y cod newydd ond set syml o hawliau a disgwyliadau a fynegir mewn ffordd sy'n ddealladwy i bawb. Dylai alluogi mwy o gyfleoedd i weithwyr proffesiynol benderfynu sut mae darparu cymorth, ac i ba ddiodefwyr, a hynny ar sail eu hanghenion.

Dewisodd y Llywodraeth ymuno yn y trafodaethau am Gyfarwyddeb newydd gan yr Undeb Ewropeaidd y llynedd ynglŷn â hawliau diodefwyr a'r cymorth a'r warchodaeth a roddir iddynt. Mae'n rhy fuan gwybod eto beth y bydd y Gyfarwyddeb newydd yn ei gynnwys. Ond, ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd yn cynnwys nifer o bethau a allai, yn ein golwg ni, ategu'r cod newydd. Wrth gymryd rhan frwd yn y trafodaethau ym Mrwsel, yr ydym yn helpu i sicrhau bod gan rywun o'r Deyrnas Unedig sy'n dioddef trosedd yn rhywle arall yn yr Undeb Ewropeaidd hawliau tebyg i'r rheini a fyddai ganddynt gartref. Pan ddechreuir ar y gwaith i ystyried ymgorffori'r Gyfarwyddeb yng nghyfraith y Deyrnas Unedig, byddwn yn achub ar y cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer Cyfraith Dioddefwyr ehangach, fwy cynhwysfawr. Serch hynny, credwn ei bod yn rhaid dechrau diwygio pethau ar unwaith, ac y dylai hyn ddechrau gyda Chod newydd, llawer mwy effeithiol, i Ddiodefwyr.

O ran darparu gwasanaethau, mae angen eu comisiynu mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion lleol yn well ac yn ymateb yn well iddynt, gyda'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau felly'n cael eu comisiynu ar lefel leol yn hytrach nag

⁶ <http://www.homeoffice.gov.uk/crime/violence-against-women-girls/>

yn Whitehall. Mae'r ddogfen hon yn cynnig y bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar gyfer diodefwyr, o 2014 ymlaen, yn cael eu comisiynu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a fydd yn cael eu hethol gan eu cymunedau lleol o dan ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Llywodraeth hon. Serch hynny, bydd rhai gwasanaethau arbenigol ar gael o hyd (megis cymorth i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn sgil dynladdiad a llinellau cymorth i ddiodefwyr trais domestig a stelcian). Mae'n beth call comisiynu'r rhain yn genedlaethol, ac mae'r ddogfen hon yn ystyried yr opsiynau yn hynny o beth.

O iawndal i wneud iawn

Nid dim ond ar y wladwriaeth y mae dyletswydd tuag at ddiodefwyr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw dyletswydd troseddwr i ddiodefwyr wedi cael digon o sylw o bell ffordd. Mae'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol yn costio dros £200m y flwyddyn ac eto, dim ond £30m a dalwyd gan droseddwr ar ffurf iawndaliadau dan orchymyn y llysoedd yn 2010/11.⁷ Mae'r diffyg cydbwysedd hwnnw a welir ar hyn o bryd yn annerbyniol. Rydym yn benderfynol o weld newid sylfaenol yn y ffordd o fynd ati, lle bydd troseddwr yn chwarae rôl sylweddol fwy wrth wneud iawn ariannol ac unioni'r difrod a wnaethpwyd yn sgil eu troseddau, a, lle bo'n briodol, wrth helpu diodefwyr i ddod i delerau â'r niwed a achoswyd iddynt.

Bydd y Gordal i Ddiodefwyr yn chwarae rhan bwysig yn hyn. Mae'n codi tua £10m bob blwyddyn ar hyn o bryd, ond drwy gynyddu'r gyfradd a orchmynnir drwy ddirwyon a'i hehangu i holl ystod y dedfrydau a orchmynnir yn y llys, a hefyd drwy ddefnyddio refeniw ychwanegol yn sgil Hysbysiadau Cosb am Anhrefn a Hysbysiadau Cosb Benodedig ym maes moduro, ein nod fydd codi hyd at £50m yn ychwanegol bob blwyddyn.

Un ymhlith sawl cosb ariannol yw'r Gordal ac fe all y llysoedd wneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau am y rhain er mwyn tynnu arian o fudd-daliadau troseddwr i orfodi'r taliad. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynyddu'r mwyafswm y gellir ei dynnu o fudd-daliadau er mwyn ad-dalu'r Gordal a chosbau ariannol eraill o £5 yr wythnos i £25 yr wythnos, gan sicrhau bod troseddwr yn talu mwy, ac yn talu'n gyflymach. Mae'r blwch nesaf yn sôn am y tri diwygiad arall y mae'r Llywodraeth eisoes wedi'u rhoi ar waith er mwyn i droseddwr wneud mwy o iawn i ddiodefwyr.

⁷ Talodd troseddwr hefyd £160m mewn dirwyon yn 2010/11.

Yn y flwyddyn ddiwethaf:

- Mae'r Llywodraeth wedi rhoi Deddf Enillion Carcharorion 1996 ar waith. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, bydd hyd at £1m yn cael ei dynnu o incwm y carcharorion hynny sy'n ennill cyflogau uwch. Bydd yr arian yn mynd at Gymorth i Ddioddefwyr.
- Drwy ddarpariaethau'r Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy, bydd y Llywodraeth yn cryfhau'r ddyletswydd sydd ar y llysoedd i ystyried rhoi gorchymyn iawndal.
- Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer tynnu arian o enillion grŵp ehangach o garcharorion nag y mae modd gwneud o dan Ddeddf 1996.

Er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf yn sgil y camau hyn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynyddu'n sylweddol nifer y carcharorion sy'n gweithio ac sydd felly'n cyfrannu at gostau eu hadsefydlu hwy eu hunain a'u gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Byddwn hefyd yn annog comisiynwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr lleol i ddefnyddio'r arian ychwanegol i sicrhau bod cyfiawnder adferol ar gael yn haws o lawer.

Byddwn hefyd yn ystyried rhoi deddfwriaeth ar waith a fyddai'n galluogi swyddogion hawliadau yn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol i adennill arian gan droseddwy sydd wedi achosi anafiadau, gan arwain at ddyfarnu iawndal. Wrth ymgynghori, yr ydym yn gofyn am bell gwestiwn ynglŷn â rhai agweddau ymarferol ar roi hyn ar waith.

Newid mawr o ran cyfiawnder adferol

Nid yw sicrhau bod troseddwy yn gwneud iawn ariannol am eu troseddau'n ddigon. Lle bynnag y bo modd, dylid gorfodi troseddwy i wynebu effaith eu troseddu a'r niwed y maent wedi'i wneud i ddioddefwyr. Dyna pam mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfiawnder adferol yn cael ei ddefnyddio'n amlach – fel rhan o'r model cyfiawnder troseddol traddodiadol ac fel rhywbeth y gellir ei ddefnyddio yn ei le – gan sicrhau mai buddiannau'r dioddefwyr sy'n tywys y broses yn hytrach na buddiannau'r troseddwy.

Mae ein cynigion ar gyfer comisiynu lleol ac ar gyfer cynyddu'r refeniw i wasanaethau cymorth i ddioddefwyr drwy'r Gordal i Ddioddefwyr yn cynnig cyfle i sicrhau newid mawr wrth ddarparu cyfiawnder adferol. Bydd diwygio'r Cod i Ddioddefwyr, fel y'i cynigir, yn golygu y byddwn, am y tro cyntaf, yn gallu rhoi'r hawl i ddioddefwyr ofyn am gyfiawnder adferol yn eu hachos, ac i gael hyn lle bynnag y bydd ar gael, a bod adnoddau'n caniatáu.

Digolledu dioddefwyr - y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICS)

Mae digolledu'n bwysig iawn i'r dioddefwyr hynny yr effeithir arnynt waethaf gan eu hanafiadau a lle bydd y rheini'n cael effaith tymor hir arnynt sy'n newid eu bywydau. Mae'n amlwg yn iawn y dylai iawndaliadau fod yn rhan barhaus o'r ffordd y bydd y Llywodraeth yn rhoi cymorth iddynt ac yn ymateb i'w

hanghenion. Ond, yn unol â'n hegwyddorion diwygio, credwn ei bod yn gallach ac yn fwy buddiol i ddiodefwyr sydd wedi cael anafiadau llai difrifol, inni ganolbwyntio ar sicrhau bod cymorth ymarferol ac emosiynol ar gael iddynt ar unwaith, yn hytrach na chanolbwyntio ar iawndal. Mae'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y bobl hyn bellach ar gael yn fwy hwylus o lawer nag yr oeddent yn yr 1990au pan sefydlwyd y cynllun digolledu statudol.⁸

Yr ydym yn poeni hefyd bod angen sicrhau bod unrhyw gynllun digolledu'n gynaliadwy. Cynllun sy'n cael ei dywys gan y galw yw CICS ac mae'n costio dros £200m y flwyddyn i'r Llywodraeth. Dyma un o'r cynlluniau drutaf o'i fath yn Ewrop o ran digolledu diodefwyr troseddau'n uniongyrchol. Yn y gorffennol, nid oes digon o arian wedi'i ddarparu ar gyfer y Cynllun. Dyrennir yr arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a bydd angen ychwanegu ato'n ddiweddarach yn y flwyddyn. O dan y cynllun tariffiau, mae ceisiadau ar y gweill eisoes sy'n werth cyfanswm o £260m,⁹. Mae hynny'n fwy na gwerth yr hawliadau a ddisgwyllir ym mhob blwyddyn, ac yn fwy na'r gyllideb flynyddol sydd ar gael ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. At hynny, ni ddarparwyd ar gyfer atebolrwydd hanesyddol y cynllun (cyn sefydlu'r tariff), ac mae hynny bron yn £400m,¹⁰. Mae'r weinyddiaeth hon yn mynd i'r afael â hynny yn awr ac mae'n dyrannu arian ar ei gyfer eisoes. Felly, bydd yr arian sy'n ddyledus i ddiodefwyr yn cael ei dalu wrth benderfynu ynglŷn â'u hachos.

Mae'n amlwg ei bod yn hen bryd adolygu'r Cynllun ac mae hynny'n digwydd mewn hinsawdd ariannol anodd. Rhaid i'r Cynllun fod yn gynaliadwy er mwyn iddo barhau i ddigolledu diodefwyr yn brydlon yn y tymor hir a chynnig set o ddisgwyliadau sy'n deg ac yn realistig. Mae ein cynigion ar gyfer diwygio'n canolbwyntio ar warchod yr iawndaliadau a roddir i'r rheini sydd wedi cael yr anafiadau mwyaf difrifol yn sgil troseddau treisgar a throseddau rhyw. Maent yn agor y drws i arbed arian o'r Cynllun a sicrhau bod y ddysgl yn wastad eto rhwng yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael i ddiodefwyr drwy sicrhau bod troseddwr yn gwneud mwy o iawn ac felly bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau i ddiodefwyr.

Drwy archwilio'r cynllun ar sail ein hegwyddorion diwygio ehangach, a thrwy ganolbwyntio adnoddau prin ar y bobl hynny sydd wedi'u hanafu waethaf, amcangyfrifwn y gallai'r cynigion yn Rhan 2 yr ymgynghoriad hwn arbed oddeutu £50m y flwyddyn i'r trethdalwr. Bwriadwn ddod â chynllun drafft newydd gerbron y Senedd i'w gymeradwyo eleni ond ni fwriedir lleihau cyllideb CICS tan 2014/15, fel y gallwn ddatrys ceisiadau a gyflwynwyd o dan y cynllun presennol ar ôl cael penderfyniad yn eu cylch. Yn unol â'n hawydd i weld

⁸ Er enghraifft, yn 1996, rhoddodd y llywodraeth grant o £10.8m i Gymorth i Ddiodefwyr. Eleni (2011/12) mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi rhoi grant £38m i Gymorth i Ddiodefwyr yn ogystal â grantiau gwerth c£10m i gyrrff arbenigol eraill megis canolfannau argyfwng trais rhywiol a chyrrff sy'n rhoi cymorth i bobl a gafodd brofedigaeth yn sgil dynladdiad.

⁹ Amcangyfrifwyd ddiwedd mis Mawrth 2011. At hynny, tybir y bydd £128m yn daladwy ar gyfer achosion sydd heb eu cofnodi eto.

¹⁰ Cyn 1996, cyfrifwyd dyfarniadau CICS yn unol â'n hyn y gallai'r diodefwyr fod wedi'i gael drwy ddwyn achos sifil llwyddiannus yn erbyn y troseddwr. Mae mwyafrif yr achosion sy'n sefyll yn codi yn sgil plant lle nad oedd modd asesu eu hangen parhaus nes iddynt ddod yn oedolyn.

symudiad oddi wrth ddigolledu gan y trethdalwr a thuag at wneud iawn, byddwn yn ceisio sicrhau, drwy godi symiau ychwanegol gan droseddwyr, nad yw'r cyfanswm a werir ar ddioddefwyr yn llai. Bydd y refeniw gan droseddwyr yn cael ei wario ar wasanaethau i ddioddefwyr, nid ar iawndaliadau. Mae'r Llywodraeth yn meddwl ei bod yn ddilys, a ninnau dan bwysau ariannol difrifol, arbed yr arian drwy'r CICS, gan fod yn glir wrth wneud hynny ein bod yn diogelu'r taliadau i'r rhai mwyaf anghenus. Ni fydd dim newid i'r iawndal a delir o dan y tariff i ddioddefwyr trais rhywiol, troseddau rhyw eraill nac i'r rhai sydd wedi dioddef cael eu cam-drin dros gyfnod hir.

Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor

25. Mae rhan olaf y ddogfen hon yn sôn am y cynlluniau a gyflwynir gan y Llywodraeth ac nid yw'n destun ymgynghori.
26. Mae terfysgaeth yn unigryw ym meddwl y cyhoedd. Ni waeth a fydd ymosodiadau terfysgol wedi'u targedu at unigolion ynteu'n ymosodiadau diwahân, gwneud datganiad gwleidyddol yw bwriad terfysgaeth, ac mae'n ymosodiad ar wladwriaeth a'i phobl i gyd. Felly, mae'n effeithio ar bobl y tu hwnt i'r rheini yr effeithir yn uniongyrchol arnynt.
27. Ochr yn ochr â'n Cynllun digolledu diwygiedig ar gyfer achosion ym Mhrydain, bwriadwn gyflwyno gerbron y Senedd gynllun i ddigolledu dioddefwyr terfysgaeth dramor. Rhoddir hwnnw ar waith ar ôl i'r Senedd ei gymeradwyo'n ddiweddarach eleni. Byddwn hefyd yn lansio cronfa ar wahân i wneud taliadau ex gratia i ddioddefwyr cymwys ymosodiadau terfysgol, a ddynodir at ddibenion y cynlluniau hyn. Bydd honno'n berthnasol i ddigwyddiadau terfysgol dramor o fis Ionawr 2002 ymlaen tan ddechrau'r cynllun statudol (a fydd ar agor i geisiadau o fis Ebrill ymlaen).

Rhan 1 - Y Strategaeth ar gyfer diodefwyr a thystion

28. Mae Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori hon yn sôn am agwedd arfaethedig y Llywodraeth at sicrhau bod diodefwyr a thystion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, i ddod dros ganlyniadau trosedd ac i gymryd rhan lawn yn y broses cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn sôn am ein hymrwymiad i sicrhau bod troseddwyd yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am unioni'r niwed a achoswyd ganddynt, drwy gyfuniad o wneud iawn ariannol a chyfiawnder adferol.

Helpu diodefwyr i ymdopi ac ymadfer

Beth sy'n digwydd nesaf?

29. Mae'r naill lywodraeth ar ôl y llall wedi rhoi arian i amrywiaeth eang o sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr a thystion, gan adlewyrchu amrywiol anghenion, ers blynyddoedd lawer. Ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth ganol yn darparu oddeutu £66m bob blwyddyn ar gyfer hyn. Ar sail cyfrifon a gyhoeddir gan elusennau, amcangyfrifwn fod awdurdodau lleol yn 2008/09 wedi gwario o leiaf £85m arall ar wasanaethau cymorth i ddiodefwyr. (Mae'n debygol bod hyn wedi'i danamcangyfrif oherwydd gwallau a data coll yn y cyfrifon a gyhoeddwyd gan elusennau a ddefnyddiwyd i lunio'r amcangyfrif hwn).
30. Hyd yn hyn, fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth ganol wedi arddel agwedd gyson strategol at gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr. Yn aml iawn, mae amrywiaeth o benderfynwyr ynysig wedi penderfynu beth y dylid ei ariannu, ymhle a pha bryd, heb fod consensws ar waith ynglŷn â nodau darparu cymorth.
31. Mae'r trefniadau hyn wedi methu â meithrin gallu yn y gwasanaethau y mae mwyaf eu hangen. At hynny, ac ystyried y nifer fawr o ddarparwyr gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr a thystion (cafwyd cais am arian y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan dros 250 o gyrff yn 2011/12), nid yw'n ymarferol disgwyl i'r Llywodraeth ganol benderfynu pa un o'r rhain sy'n darparu'r gwasanaethau gorau ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.
32. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o arian Llywodraeth ganol yn cael ei rhoi i Gymorth i Ddiodefwyr, elusen annibynnol a'r corff mwyaf sy'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i ddiodefwyr a thystion troseddau yng Nghymru a Lloegr. Mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi cael gwerth oddeutu £38m y flwyddyn o arian craidd ers 2007/8. Mae'r Swyddfa Gartref wedi neilltuo £7m y flwyddyn (rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2015) i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth arbenigol i ddiodefwyr trais domestig, trais rhywiol a stelcian o dan ei strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol i amrywiaeth o gyrff y sector gwirfoddol i gynnal llinellau cymorth cenedlaethol a

phrosiectau cymorth i ddiodefwyr. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ill dwy hefyd yn ariannu cyrff eraill yn y sector gwirfoddol sy'n rhoi cymorth i ddiodefwyr drwy nifer o grantiau llai.

33. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau bod arian Llywodraeth ganol yn cael ei dargedu'n well yn y dyfodol at y diodefwyr hynny y mae angen y cymorth arnynt a bod amrywiaeth eang o ddarparwr gwasanaethau ar gael i roi'r cymorth angenrheidiol i ddiodefwyr. Bwriadwyd i'r model busnes a gadarnhawyd gan y weinyddiaeth flaenorol, ac a arweiniodd at greu Gwasanaeth Cenedlaethol i Ddiodefwyr, gynnig cymorth i bawb a atgyfeiriwyd gan yr heddlu, yn hytrach nag arbenigo ar roi cymorth i'r rhai mwyaf eu hangen. Mae hyn yn anghynaliadwy ac yn wastraffus. Er enghraifft, cyfeiriwyd mwy na miliwn o achosion at Gymorth i Ddiodefwyr yn 2010/11. Gyda'r adnoddau sydd ar gael, ni fu modd cysylltu â 60% o'r rheini ac asesu eu hanghenion. Dim ond un diodefwr o bob tri a aseswyd a oedd mewn gwirionedd am gael cymorth.
34. Mae angen inni sefydlu dull mwy cydlynol ar frys ar gyfer ariannu gwasanaethau gan Lywodraeth ganol, a rhaid seilio hynny ar gyd-ddealltwriaeth o anghenion diodefwyr, blaenoriaethau a chanlyniadau llwyddiannus.

Dull newydd o roi cymorth i ddiodefwyr

35. Seilir ein dull ar yr egwyddorion a ganlyn:
 - Dylid targedu gwasanaethau i ddiodefwyr at y rheini sydd wedi diodef yr effaith fwyaf yn sgil troseddau, gan gynnwys diodefwyr troseddau difrifol, y rheini sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro a'r bobl fwyaf agored i niwed.
 - Dylai'r gwasanaethau cymorth geisio sicrhau dau ganlyniad: helpu diodefwyr yn y lle cyntaf i ymdopi ag effaith uniongyrchol y trosedd, ac wedyn i ddod dros y niwed a gawsant.
 - Dylai gwasanaethau gael arian yn ôl eu gallu i gyflawni'r canlyniadau hyn, ar sail tystiolaeth, a dylai'r canlyniadau gael eu hadlewyrchu mewn fframwaith comisiynu cyson.
 - Y ffordd orau o roi fframwaith o'r fath ar waith yw gan benderfynwyr lleol a hynny drwy asesu'r galw'n fanwl o'i gymharu â'r angen. Eithriadau i'r drefn efallai fyddai gwasanaethau i grwpiau cymharol fach o ddiodefwyr sydd ag anghenion cymhleth (megis diodefwyr troseddau 'masnachu mewn pobl', neu'r rheini sydd wedi cael profedigaeth yn sgil dynladdiad), swyddogaethau rheoli achosion lle bydd angen agwedd gyson a darpariaeth genedlaethol, a gwasanaethau nad oes ond modd eu darparu ar lefel genedlaethol, megis llinellau cymorth cenedlaethol ar gyfer trais domestig a stelcian.
 - Dylai comisiynwyr gael cryn ryddid i benderfynu sut y maent yn darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol o fewn set fechan o hawliau sylfaenol ar gyfer y diodefwyr mwyaf agored i niwed, megis y rheini sydd wedi diodef trais domestig a thrais rhywiol, y byddai'r

Llywodraeth yn disgwyl i gomisiynwyr lleol eu hystyried yn flaenoriaeth wrth ariannu. Byddwn yn ymrwmo cyfran o'r incwm ychwanegol a godir gan droseddwyr drwy'r Gordal i Ddiodefwyr a chosbau ariannol eraill i wasanaethau ar gyfer diodefwyr trais domestig a thrais rhywiol.

- Dylid dal comisiynwyr, a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau, yn atebol am y canlyniadau y byddant yn llwyddo i'w cyflawni - helpu diodefwyr i ymadfer - yn hytrach nag am drafodion, megis nifer y diodefwyr sydd wedi cael gwasanaeth penodol.
- Dylid llunio manyleb gwasanaethau drwy gynnal deialog rhwng comisiynwyr a darparwyr.
- Dylai comisiynwyr weithio'n glos gydag eraill sy'n comisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr yn lleol, megis awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, er mwyn rhannu gwybodaeth, osgoi dyblygu, a sicrhau ymagwedd fwy strategol.
- Dylid defnyddio'r un broses i ariannu darparwyr gwasanaethau ym mhob ardal, ac wedyn byddai llai o angen gwneud cais sawl tro am symiau bychain. Dylid gwario mwy o'r arian yn uniongyrchol i gefnogi diodefwyr yn hytrach nag ar weinyddu.
- Dylid darparu gwasanaethau i ddiodefwyr drwy system cyfeirio effeithiol ac effeithlon a honno wedi'i seilio ar gydweithio â'r heddlu, gan sicrhau eu bod yn cael y cymorth angenrheidiol.

Darparu ac asesu gwasanaethau ar sail canlyniadau

36. Ni fydd pob diodefwyr yn gallu dychwelyd i fyw'r math o fywyd a oedd ganddo cyn i'r trosedd ddigwydd. Ond ni ddylai hyn atal comisiynwyr a darparwyr rhag ymdrechu i helpu unigolyn rhag profi'r un ymdeimlad o les ag a oedd ganddo gynt. Lle bydd trosedd wedi effeithio'n ddifrifol ar ddiodefwyr, mae'n arbennig o bwysig i'r cymorth sicrhau canlyniadau go iawn er mwyn i ddiodefwyr allu ymadfer ac ailafael yn eu hyder a'u hannibyniaeth.
37. Eisoës, fe ddefnyddir dulliau seiliedig ar ganlyniadau wrth gomisiynu gwasanaethau mewn sectorau eraill. Ers cyhoeddi 'Torri'r Cylch', mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cychwyn ar gyfres o brosiectau i brofi model 'talu yn ôl canlyniadau' er mwyn cymell asiantaethau i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol o ran mynd i'r afael ag aildroseddu. Mae enghreifftiau eraill megis y strategaeth Bywydau Iach, Pobl Iach a gynigiwyd gan yr Adran Iechyd er mwyn gwella iechyd cyhoeddus.
38. Yn yr un modd, rhaid i fframwaith comisiynu newydd ar gyfer gwasanaethau i ddiodefwyr fod yn glir ynglŷn â'r canlyniadau i ddiodefwyr, a sicrhau bod mecanwaith ymarferol y cytunir arno er mwyn mesur perfformiad fel y gellir dal comisiynwyr a darparwyr yn atebol. Byddwn yn cyflwyno model comisiynu newydd yn 2014/15, gan adeiladu ar brofiad sectorau eraill ac arbenigedd y rheini sydd eisoes yn cefnogi diodefwyr ac yn comisiynu gwasanaethau.

Fframwaith seiliedig ar ganlyniadau

39. Wrth drafod gydag ymarferwyr a darparwyr, cafwyd awgrym y dylai'r fframwaith comisiynu ddarparu ar gyfer wyth categori angen: iechyd meddyliol a chorfforol; lloches a llety; teulu, ffrindiau a phlant; addysg, sgiliau a chyflogaeth; cyffuriau ac alcohol; cyllid a budd-daliadau; safbwyntiau ac agweddau; a rhyngweithio cymdeithasol.
40. Fe gaiff y fframwaith comisiynu ei gynllunio mewn ffordd sy'n galluogi comisiynwyr i ystyried yn llawn y buddiannau sy'n dod yn sgil ymyrryd, ond nad ydynt o reidrwydd yn perthyn yn dwt o dan un pennawd unigol. Er enghraifft, bydd gwirfoddolwyr Cymorth i Ddiodefwyr yn cynnig cymorth emosiynol ond, lle bo modd, byddant hefyd yn helpu gydag ystyriaethau ymarferol, megis diogelwch y cartref.
41. Yn gefn i roi fframwaith comisiynu newydd ar waith, byddwn yn gwneud hyn:
- Cryfhau'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â'r galw am wasanaethau, ar sail pob categori angen, yn enwedig y rheini yr effeithiwyd arnynt gan y troseddau mwyaf difrifol, y rhai sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro, neu'r rhai sy'n agored i niwed.
 - Gweld pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol o ran diwallu'r anghenion hyn, gan ystyried i ba raddau, fel arall, y byddai gofyn i ddiodefwyr gael cymorth am gyfnod hwy neu gael rhagor o gymorth gan wasanaethau eraill a noddir gan y Llywodraeth.
 - Datblygu canllawiau a hyfforddiant i gomisiynwyr a darparwyr er mwyn iddynt fapio'r galw'n lleol ar sail pob math o angen.

Mesur y canlyniadau

42. Mae'r ffordd yr asesir pa mor effeithiol yw gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr yn amrywio gymaint â'r ffordd y comisiynir gwasanaethau. Bydd angen i fframwaith effeithiol bennu disgwyliadau clir a disgwylir i gomisiynwyr a darparwyr fod yn atebol am wireddu'r rhain.
43. Yr ydym yn awyddus i effaith ymarferol y gwasanaethau a gomisiynwyd fod yn amlwg i ddiodefwyr ac i'r cyhoedd ehangach. At y diben hwnnw, byddwn yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer mesur ansawdd gwasanaethau.

Cwestiynau ymgynghori

C2 i helpu diodefwyr i ymdopi ag effeithiau uniongyrchol troseddu ac ymadfer ar ôl cael niwed yw'r canlyniadau y dylid eu defnyddio i asesu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr?

C3 yw'r wyth categori angen a restrir yn gywir? A oes categorïau angen eraill y dylai gwasanaethau cymorth fynd i'r afael â hwy?

Pwy ddylai gomisiynu gwasanaethau?

44. Cynigiwn y dylai gwasanaethau a ddarperir gan gyrff gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol gael eu hariannu drwy broses comisiynu gystadleuol, ar sail amlfwydd lle bydd hynny'n briodol. Gellid comisiynu gwasanaethau ar sawl lefel:
- **Y lefel leol:** Byddai corff comisiynu lleol yn gweithio gyda grwpiau o ddiodefwyr, asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd a phartneriaid lleol eraill i gomisiynu gwasanaethau priodol i ddiodefwyr.
 - **Y lefel ranbarthol:** Byddai corff comisiynu'n cael ei ddynodi neu'n cael ei benodi ym mhob un o'r deg rhanbarth yng Nghymru a Lloegr i gomisiynu gwasanaethau cymorth ar draws y rhanbarth.
 - **Prif contractwr:** Byddai un contract neu fwy nag un yn cael ei sefydlu ar draws Cymru a Lloegr gyda darparwyr neu gonsortia mawr. Byddai pob un o'r rhain yn is-gontractio i ddarparwyr lleol ond y prif contractwr a fyddai'n atebol o hyd am ddarparu gwasanaethau.
45. Ar sail ein hymwneud â grwpiau diodefwyr a'r rheini sy'n ariannu gwasanaethau, ac yn unol ag agenda lleoliaeth y Llywodraeth, cynigiwn y dylid comisiynu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar y lefel leol gydag un corff yn ariannu gwasanaethau i ddiodefwyr ym mhob ardal. Byddai'r penderfyniadau'n cael eu gwneud gan gomisiynydd a oedd yn deall yn dda beth oedd anghenion diodefwyr lleol. Wrth gomisiynu'n lleol, dylai hynny hefyd sicrhau bod comisiynwyr yn fwy atebol i gymunedau a diodefwyr.
46. Serch hynny, fel y nodwyd uchod eisoes, yr ydym yn glir bod nifer fach o wasanaethau y byddai'n well eu darparu ar lefel genedlaethol. Byddai'n aneffeithlon dibynnu ar bob ardal leol unigol i gomisiynu a chynnal gwasanaethau arbenigol yn lleol ar gyfer troseddau sy'n digwydd yno'n gymharol anaml, ac fe allai hynny olygu nad fyddai'r ddarpariaeth yn ddigonol mewn ambell fan. Mae'n bosibl hefyd y gellid comisiynu rhai swyddogaethau gweinyddol yn genedlaethol, yn enwedig rheoli achosion diodefwyr, lle bydd seilwaith cenedlaethol ac ymagwedd gyson yn cynnig manteision amlwg.
47. Dyna pam mae'r model a gynigir yn gyfuniad o gomisiynu lleol a chenedlaethol. Bydd y rhan fwyaf helaeth o'r gwasanaethau'n cael eu comisiynu'n lleol, ac yn unol ag anghenion lleol.
48. Cynigiwn mai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddylai fod yn gyfrifol am y broses comisiynu ar lefel leol. Etholir y Comisiynwyr ym mis Tachwedd 2012 a byddant yn disodli awdurdodau'r heddlu yn ardal pob un o'r lluoedd yng Nghymru a Lloegr. Yn Llundain, y Maer etholedig fydd yn cyflawni'r rôl a sefydlir Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu. Pan gyfeirir at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o hyn ymlaen yn y ddogfen hon, ac mewn dogfennau cysylltiedig, dylid ystyried bod hynny'n

cynnwys Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu hefyd. Bydd gwahanol drefniadau ar waith yn Ninas Llundain.

49. Bydd Comisiynwyr etholedig yn dal heddluoedd i gyfrif, yn pennu blaenoriaethau ar gyfer plismona ac yn rhoi grantiau i sicrhau bod llai o droseddu ac anhrefn yn yr ardal leol. Byddant yn gofyn i'r cyhoedd am eu barn ynghylch plismona yn eu hardal a bydd gofyn iddynt yn benodol geisio barn diodefwyr troseddau ynglŷn â'u cynlluniau. Byddai ein cynnig yn cryfhau eto'r ddolen hon rhwng y Comisiynwyr a diodefwyr yn yr ardal. Bydd gan y Comisiynwyr eu dyletswyddau dwyochrog i gydweithredu â'r holl bartneriaid cyfiawnder troseddol ac ag aelodau partneriaethau diogelwch cymunedol. Oherwydd y bydd gofyn am gryn gydweithredu, byddant yn gallu manteisio ar arbenigedd partneriaid lleol wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr.
50. Rydym wedi ystyried amrywiaeth o gyrff eraill a allai ysgwyddo'r gwaith gomisiynu. Serch hynny, byddai gan y Comisiynwyr gysylltiadau â'r gyrff eraill hyn a byddai mewn sefyllfa i weithio'n effeithiol gyda phob un ohonynt. Bydd y Comisiynwyr hefyd yn uniongyrchol atebol i'r bobl yn eu hardal. Bydd yr archwiliad diweddar gan Eiriolwyr Gwasanaethau Dioddefwyr a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref ar anghenion diodefwyr lleol a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd yn sail i waith y Comisiynwyr.
51. Gallai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gomisiynu'r gwasanaethau hynny a gomisiynid yn genedlaethol. Fel arall, gallai gyrff gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol gystadlu am gontract gomisiynu cenedlaethol i ddarparu'r gwasanaethau hyn.
52. Un enghraifft o wasanaeth sy'n cael ei gomisiynu'n genedlaethol ar hyn o bryd yw'r Gwasanaeth ar gyfer achosion Dynladdiad. Fe'i sefydlwyd i ddarparu cymorth un-ac-un dwys wedi'i deilwra gan weithiwr achos i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth a hynny gyhyd ag yr oedd ei angen arnynt. Rheolir a darperir y gwasanaeth gan yr elusen genedlaethol Cymorth i Ddiodefwyr ac fe'i hariennir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Dangoswyd llwyddiant y gwasanaeth wrth i Gymorth i Ddiodefwyr allu darparu adnoddau'n ddi-oed i deuluoedd yn Cumbria ar ôl y saethu yno ym mis Mehefin 2010.

Cymorth i Ddioddefwyr Terfysgaeth

Yr ydym wedi dysgu llawer yn y blynyddoedd diwethaf sy'n golygu ein bod yn ymateb yn well i ddioddefwyr gweithredoedd terfysgol ac yn rhoi gwell cymorth iddynt hwy ac i'r teuluoedd sy'n wynebu profedigaeth yn sgil digwyddiadau o'r fath.

Ar ôl y bomio yn Llundain yn 2005, cyflwynodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ffordd newydd o fynd ati i ymdrin â digwyddiadau mawr er mwyn sicrhau bod proses ymgeisio ar gael sydd wedi'i theilwra'n arbennig. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad oes gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth a ddylai fod gan yr Awdurdod eisoes (megis disgrifiad o'r digwyddiad) neu wybodaeth y gellir ei chael o ffynonellau eraill.

Bydd Cymorth i Ddioddefwyr yn bartner allweddol o ran sefydlu Canolfan Cymorth Dyneiddiol yn ar ôl digwyddiad terfysgol er mwyn gwella'r cymorth ymarferol ac emosiynol a ddarperir ar unwaith i ddioddefwyr.

Ers 2010, mae Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr ar gyfer achosion Dynladdiad wedi neilltuo gweithiwr achos penodol sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth. Ymhlith pethau eraill, bydd y gweithiwr achos yn gallu darparu cymorth emosiynol a help ymarferol gydag ailgartrefu, budd-daliadau a threfniadau'r angladd. Gellir hefyd ddarparu gwasanaethau arbenigol megis cwnsela ar gyfer trawma lle bynnag y bydd eu hangen.

Pa wasanaethau a gomisiynir yn lleol?

53. Bydd y fframwaith comisiynu a ddatblygir gyda chomisiynwyr lleol ar ôl yr ymgynghoriad hwn yn sylfaen i'r gwasanaethau comisiynu a fydd yn diwallu holl ystod anghenion dioddefwyr. Gan adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i dargedu adnoddau'n effeithiol a sicrhau gwerth am arian, bydd y fframwaith yn blaenoriaethu dioddefwyr troseddau difrifol, y rhai sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro a'r rhai mwyaf agored i niwed.
54. Gwaith y comisiynwyr lleol fydd rhoi'r fframwaith ar waith a chomisiynu'r gwasanaethau sydd yn eu barn hwy'n diwallu'r angen lleol orau. Fe all fod gan ddioddefwyr amrywiaeth o anghenion ar ôl i drosedd ddigwydd, a'r rheini'n cynnwys gwybodaeth, cyngor, help ymarferol, cynllunio ar gyfer diogelwch, cwnsela ac allgymorth.

Engbreiffiau o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau

Fe all llochesau ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i bobl sy'n dioddef trais domestig. Efallai y bydd gweithwyr lloches wedi'u hyfforddi i gynnig cymorth emosiynol a chyngor ymarferol i drigolion. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol.

Bydd canolfannau cymorth i bobl sydd wedi dioddef trais rhywiol yn gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cwnsela, llinell gymorth a chymorth drwy ebost. Yn ystod y cwnsela, gellir ymdrin ag effeithiau seicolegol trais rhywiol megis ôlfflachiadau, hunllefau ac iselder. Fe all llinell gymorth a chymorth drwy ebost gynnwys cyfeirio dioddefwr at wasanaethau eraill megis clinigau iechyd rhyw.

Efallai y bydd angen cwnsela ar blant a phobl ifanc sy'n dioddef yn sgil trosedd ac yn wynebu argyfwng emosiynol a seicolegol. Fe all gwasanaethau cwnsela sydd wedi'u teilwra ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd gynnwys teulu'r person ifanc, os yw hynny'n briodol. Gellir helpu plant i ddysgu nad oes yn rhaid iddynt ofni eu hatgofion ac, er gwaetha'u profiad, y gallant edrych ymlaen at fywyd hapus a normal.

55. Wrth ddatblygu'r fframwaith gyda chomisiynwyr lleol, bydd y Llywodraeth yn sicrhau ei fod yn rhoi'r arfau a'r wybodaeth angenrheidiol iddynt gomisiynu dau fath o wasanaeth, gan sylweddoli eu bod wedi cael eu hesgeuluso yn y gorffennol.
56. Gallwn wneud cymaint mwy i helpu dioddefwyr troseddau traffig y ffyrdd, yn enwedig lle bydd y dioddefwyr hynny'n cyflawni'r meini prawf ar gyfer blaenoriaethu a restrir ym mharagraff 9. Nid ydym yn disgwyl i gomisiynwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ddod yn gyfrifol am ofal a chymorth i bawb sy'n cael eu hanafu ar y ffyrdd, ond os bydd rhywun yn cael anaf difrifol neu'n cael ei ladd ar y ffordd yn sgil trosedd, dylent hwy (neu eu teulu)) allu disgwyl cymorth gan y gwasanaethau i ddioddefwyr.
57. Mae ein cynigion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth cyfiawnder adferol wedi'u rhestru o baragraff 111 ymlaen. Caiff dioddefwyr gyfle i esbonio i'r troseddwr beth oedd effaith y trosedd ac fe anogir troseddwr i gymodi'n uniongyrchol drwy ddangos ei bod yn edifar ganddynt neu drwy gytuno i wneud iawn. Bydd y fframwaith comisiynu'n arfogi comisiynwyr lleol i fod yn hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfiawnder adferol ac i elwa o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol, megis y gofrestr o ymarferwyr achrededig a lanswyd gan y Cyngor Cyfiawnder Adferol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynharach eleni. Drwy barhau i ddarparu arweiniad cenedlaethol ar gyfiawnder adferol, a thrwy roi'r arfau angenrheidiol i gomisiynwyr lleol ddefnyddio'r drefn yn hyderus, nod y Llywodraeth yw gweld newid mawr yn y cyfiawnder adferol sydd ar gael i ddioddefwyr.

Cwestiynau ymgynghori

- C4 i cyfuniad o gomisiynu dan arweiniad lleol a chomisiynu cenedlaethol yw'r ffordd orau o gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau?
- C5 A ddylai comisiynwyr yr heddlu a throseddu fod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ar lefel leol? Pwy arall a allai gomisiynu gwasanaethau cymorth?
- C6 Pwy yn eich barn chi a ddylai gomisiynu'r gwasanaethau hynny ar lefel genedlaethol?
- C7 Pa wasanaethau, yn eich barn chi, a ddylai gael eu comisiynu ar lefel genedlaethol?
- C8 A ddylid cael set o hawliau sylfaenol i ddioddefwyr troseddau difrifol, y rheini sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro a'r rhai mwyaf agored i niwed?
- C9 A oes angen inni ddarparu rhagor o gymorth ar gyfer dioddefwyr terfysgaeth, ac aelodau eu teuluoedd mewn profedigaeth yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau o'r fath, er mwyn eu helpu i ymdopi ac ymadfer?

Gweithredu

58. Rydym yn cynnig rhoi fframwaith comisiynu newydd ar waith yn llawn erbyn 2014. Er mwyn rheoli'r pontio i'r model newydd, ac er mwyn sicrhau bod cyn lleied o darfu ar ddarparu'r gwasanaeth ag y bo modd, cynigiwn drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r comisiynwyr erbyn 2013. Tra bydd ariannu'r Swyddfa Gartref ar gyfer gwasanaethau arbenigol ym maes trais domestig a thrais rhywiol (h.y. Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chydlynwyr y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth a'r llinellau cymorth cenedlaethol) yn parhau tan fis Mawrth 2015, byddwn yn disgwyl i'r Comisiynwyr ystyried anghenion dioddefwyr trais domestig a thrais rhywiol wrth ddatblygu eu strategaethau ar gyfer dioddefwyr o 2013 ymlaen er mwyn sicrhau eu bod mor gynhwysfawr â phosibl.
59. Rhaid cadw costau gweinyddu unrhyw fodel comisiynu yn y dyfodol cyn ised ag y bo modd, er mwyn sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl yn cyrraedd gwasanaethau'r rheng flaen. Bydd rhagor o waith yn cael ei dywys gan y nod o sicrhau na fydd y costau gweinyddol yn fwy na 10% o gyfanswm yr arian a ddarperir ar gyfer y comisiwn.
60. Byddwn yn dadansoddi'r costau a ysgwyddir gan wasanaethau statudol megis y GIG, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau tai, wrth roi cymorth i ddioddefwyr ac ymateb i'w hanghenion. Byddwn yn pwysu a mesur i ba raddau y gall adnabod anghenion yn fuan, a chyfeirio rhywun i gael cymorth ar unwaith, arbed arian yn ddiweddarach. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad hwn, byddwn yn dadlau y dylid cronni arian o sawl ffynhonnell yn y model comisiynu.

Sicrhau bod cynlluniau yn y gymuned yn cael y cymorth angenrheidiol

61. Yn aml iawn, bydd y bobl hynny sydd wedi dioddef yn sgil y troseddau mwyaf difrifol, a'r rheini sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro, neu'n agored i niwed yn bobl y mae angen cymorth pobl broffesiynol neu wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi arnynt. Ym mhen arall y sbectwm, bydd llawer o rai eraill nad oes ond angen 'cefnogaeth' arnynt a rhywun i fod yn gefn cyfeillgar neu i roi help ymarferol sylfaenol iddynt. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, mae rhai cymunedau wedi trefnu eu rhaglenni eu hunain. Enghreifftiau yw hyn yw cynlluniau megis cynlluniau Gwarchod y Gymdogaeth a dyma'r math o weithgarwch a hyrwyddir yn adroddiad y Farwnes Newlove, *Our Vision of Safe and Active Communities*.
62. Er mai cryfder y math hwn o weithgarwch yw'r ffaith ei fod yn cael ei sbarduno a'i ddarparu gan y gymuned leol, mae angen amser ac arbenigedd ar y cynlluniau hyn er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy. Disgwylir i gomisiynwyr gwasanaethau i ddioddefwyr ddarparu arbenigedd eu staff, ac arbenigedd gwirfoddolwyr cyrff a noddur ganddynt, er mwyn helpu i sefydlu gweithredu'n lleol a chynghori yn ei gylch. Byddwn yn sicrhau bod y cymorth hwn ar gael ac yn cael ei dywys gan y galw. Rhaid peidio â dweud wrth bobl leol pa fath o waith y dylid ei wneud - dylid addasu'r ariannu a'r arbenigedd i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir ganddynt, lle bydd comisiynwyr lleol yn cytuno bod gwir angen.

Helpu dioddefwyr a thystion drwy'r broses cyfiawnder troseddol

63. Mae cyfiawnder yn dibynnu ar ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system; mae'n dibynnu ar sicrhau bod y bobl sydd wedi dioddef yn sgil troseddu neu sydd wedi bod yn dyst i drosedd yn camu ymlaen i rportio digwyddiad, i roi datganiad ac, wrth i achos fynd rhagddo, i roi tystiolaeth yn y llys.
64. I rai, bydd gweithgarwch troseddol yn achosi problemau ymarferol. I eraill - yn enwedig y rhai sydd wedi dioddef y troseddau mwyaf difrifol - bydd yr effeithiau'n drawmatig. Efallai y byddant yn cael eu dychrynu ac yn wynebu bygythiad parhaus i'w diogelwch. Nid yw ond yn iawn i ddioddefwyr a thystion gael cymorth a gwarchodaeth ddigonol wrth iddynt helpu i ddwyn troseddwr gerbron cyfiawnder. Yn fwy cyffredinol, mae'r ffordd yr ymdrinnir â dioddefwyr a thystion yn effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system - ac ar ba mor debygol y bydd pobl o rportio troseddau yn y dyfodol.

Datblygiadau dros y ddau ddegawd diwethaf

65. Yn yr ugain mlynedd diwethaf, cymerwyd ffrwd gyson o gamau gyda'r nod o wella profiad dioddefwyr a thystion sy'n cymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol. Dyma rai ohonynt:

- Yn 1990, cyflwynodd y Llywodraeth Siarter y Dioddefwyr, a oedd yn rhestru am y tro cyntaf lefelau'r gwasanaeth y dylai diodefwyr troseddau eu disgwyl.
 - Yn 1993, cafwyd adroddiad gan y Comisiwn Brenhinol ar Gyfiawnder Troseddol a oedd yn sôn am yr angen i sicrhau ardaloedd aros ar wahân i dystion yn y llys. Erbyn hyn, mae gan bob Canolfan Llys y Goron a 99% o'r Llysoedd Ynadon le aros ar wahân.
 - Yn 1994, drwy'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Drefn Gyhoeddus, daeth bygwth diodefwyr, tystion a rheithwyr yn drosedd a allai arwain at gosb o hyd at bum mlynedd yn y carchar a chrëwyd y Gwasanaeth Tystion gan Gymorth i Ddiodefwyr sydd bellach â chynrychiolwyr ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr.
 - Yn 1996, diwygiwyd Siarter y Dioddefwyr gan y Llywodraeth, a threialwyd Datganiadau Effaith ar Ddiodefwyr, a elwir yn awr yn Ddatganiadau Personol Dioddefwyr.
 - Yn 1999, cyflwynwyd 'mesurau arbennig' yn y llys drwy'r Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol i helpu tystion agored i niwed a'r rhai sy'n teimlo dan fygythiad i roi eu tystiolaeth orau.
 - Yn 2004, pasiwyd Y Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr, gan greu rôl y Comisiynydd ar gyfer Dioddefwyr a Thystion, a gwneud Cod Ymarfer i Ddiodefwyr yn ofyniad statudol.
 - Ers 2004, mae cynllun cyswllt statudol ar gyfer diodefwyr wedi bod ar waith ar gyfer troseddwr a geir yn euog o droseddau rhyw penodol ac a ddedfrydir i garchar am ddeuddeg mis neu ragor. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i ddiodefwyr gael gwybodaeth gan y corff sy'n darparu gwasanaethau prawf yn lleol a chyflwyno sylwadau iddo, ynglŷn ag amodau trwydded a gofynion goruchwyllo wrth i'r troseddwr nesáu at gael ei ryddhau.
 - Yn 2005, arweiniodd cynllun ar y cyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu at sefydlu mwy na 250 o Unedau Gofalu am Dystion i helpu diodefwyr a thystion i ddod i'r llys. Hefyd, cyflwynwyd Addewid yr Erlynwyr gan Wasanaeth Erlyn y Goron - yn rhestru'r lefelau gwasanaeth y gallai diodefwyr ddisgwyl eu cael gan erlynwyr.
 - Yn 2006, lansiwyd y Cod Ymarfer cyntaf i Ddiodefwyr Troseddau. Yn 2007, sefydlodd Siarter y Tystion set glir o ddisgwyliadau i dystion yn y system cyfiawnder.
 - Yn 2008, drwy'r Ddeddf Tystiolaeth Droseddol (Tystion Dienw) rhoddwyd seiliau statudol i'r pŵer sydd gan farnwyr mewn treial i roi'r hawl i dystion sy'n wynebu risg ddifrifol oherwydd eu bod yn rhoi tystiolaeth, aros yn ddienw.
66. Felly, mae llawer iawn o gynnydd wedi bod yn ystod y genhedlaeth ddiwethaf, ac fe gyflawnwyd llawer. Ond, fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon, mae gormod o ddiodefwyr o lawer o hyd nad ydynt yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt. Mae heriau lu yn ein hwynebu o hyd, a bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda grwpiau o ddiodefwyr i

sicrhau bod diodefwyr yn cael yr help iawn drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol.

Profiad Diodefwyr o'r System Cyfiawnder Troseddol

67. Mae lefel boddhad diodefwyr â'r System Cyfiawnder Troseddol fymryn yn is na lefel boddhad tystion. Drwyddi draw, dywedodd 55% o'r diodefwyr, mewn achosion lle y cyhuddwyd rhywun o'r trosedd a gyflawnwyd yn eu herbyn, eu bod yn 'gwbl fodlon' (29%) neu yn 'fodlon iawn', (25%) ar eu cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Roedd 26% arall yn 'weddol fodlon'.¹¹ Serch hynny, sylweddolwn nad yw data'r arolwg ond yn berthnasol i'r diodefwyr hynny y daeth eu hachosion gerbron y llys, ac nid i bob diodefwyr a fu mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.
68. Mae rhai grwpiau o ddiodefwyr yn llai bodlon nag eraill. Mae diodefwyr ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau'n dweud eu bod yn llai bodlon ar eu cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol nag y mae'r rheini sydd ag anabledd nad yw'n cyfyngu ar eu gweithgareddau, neu'r rheini sydd heb anabledd (71% o'i gymharu ag 80% ac 81%). Er bod y rhan fwyaf o'r diodefwyr ar draws pob grŵp ethnig yn fodlon ar eu cysylltiad cyffredinol â'r system cyfiawnder troseddol, dywedodd llai o ddiodefwyr yn y grŵp ethnig du (75%) eu bod yn fodlon ar eu cysylltiad cyffredinol nag a ddywedodd hynny yn y grŵp ethnig gwyn (80%).¹² Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol i weld sut y gallwn ni sicrhau bod y grwpiau hyn yn fwy bodlon ar bethau. Mae rhai o'r diodefwyr hyn wedi diodef yn sgil "troseddau casineb", lle cânt eu targedu oherwydd bod nodwedd benodol yn perthyn iddynt. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb y rhyddid i fyw eu bywydau'n rhydd rhag gorfod ofni gelyniaeth neu aflonyddu sydd wedi'u targedu ar sail nodwedd benodol, ac mae'n cymryd camau i sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol a'u partneriaid ar lefel leol yn cael eu harfogi i atal gelyniaeth sydd wedi'i thargedu fel hyn ac i fynd i'r afael â hi. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu newydd ar Droseddau Casineb yn y gwanwyn eleni, gan egluro sut y bwriedir gwella gwasanaethau i ymateb i droseddau casineb.
69. Nid yw pob diodefwyr am gael cymorth ac nid oes angen cymorth ar bawb. O blith y diodefwyr a riportiodd drosedd wrth yr heddlu, dim ond 39% a ddywedodd eu bod am gael rhyw fath o gymorth. Mae anghenion pobl sydd wedi diodef bwrgeriaeth (49%) a throseddau treisgar (45%) fymryn yn fwy, ac maent fymryn yn llai ymhlith diodefwyr mathau eraill o

¹¹ WAVES, achosion a gaewyd yn 2009/10; Nid yw'r canrannau'n gyson wrth eu hadio oherwydd iddynt gael eu talgrynnu. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Adroddiad ar y gweill.

¹² WAVES, achosion a gaewyd yn 2009/10; Nid yw'r canrannau'n gyson wrth eu hadio oherwydd iddynt gael eu talgrynnu. Dadansoddiad pellach ar Wybodaeth System Cyfiawnder Chwarterol Amodol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Adroddiad ar y gweill.

droseddu, er enghraifft dwyn oddi ar y person (30%).¹³ Ni fydd pob diodefwyr sydd am gael cymorth yn ei gael. Mae arolwg WAVES yn dangos, o blith y diodefwyr hynny y daeth eu hachos gerbron y llys ac a ddywedodd eu bod am gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth, mai dim ond 71% a gafodd rywfaint, neu'r holl help, yr oeddent yn teimlo yr oedd ei angen arnynt.¹⁴

Diwygio Hawliau Dioddefwyr a Thystion

70. Yn y Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau ("Cod i Ddiodefwyr") a Siarter y Tystion, codwyd proffil ac ymwybyddiaeth anghenion diodefwyr a thystion mewn system cyfiawnder troseddol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddwyn troseddwy gerbron cyfiawnder. Maent wedi chwarae rhan hollbwysig wrth wneud hynny, ac mae asiantaethau'r rheng flaen wedi gweithio'n galed i wella'u hymateb i anghenion diodefwyr. Ond mae diodefwyr a thystion o hyd sy'n cael eu siomi gan y system. Yr ydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod diodefwyr troseddau difrifol, y rheini sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro, a'r rhai mwyaf agored i niwed, yn cael cymorth gan amrywiaeth o wasanaethau lleol a chenedlaethol i'w helpu i ymdopi ac ymadfer yn sgil effeithiau troseddu.
71. Ein nod yw sicrhau bod cymorth i ddiodefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol yn ymateb yn well i'w hanghenion ac yn fwy rhagweithiol o ran mynd i'r afael â materion megis bygwth tystion a bod yn agored i niwed. Nid ydym yn credu y dylid gwario adnoddau prin ar y rheini sy'n dweud nad ydynt am gael cymorth. Ar y llaw arall, dylai'r rheini sy'n gofyn am gymorth allu teimlo'n ffyddiog y caiff ei ddarparu. Dylai fod mwy o gyfle i weithwyr proffesiynol benderfynu sut mae darparu cymorth, ac i ba ddiodefwyr, a hynny ar sail eu hanghenion. Dylai'r system hawliau i ddiodefwyr a thystion adlewyrchu'r dull mwy hyblyg a phersonol hwn o fynd o'i chwmpas hi.
72. Ym mis Awst y llynedd, Penderfynodd y Llywodraeth ymuno yn y trafodaethau ynglŷn â Chyfarwyddeb newydd gan yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â hawliau diodefwyr a'r cymorth a'r warchodaeth a roddir iddynt. Mae'r penderfyniad hwnnw, a'r ffordd yr ydym wedi mynd ati yn y trafodaethau (sy'n dal i fynd rhagddynt), yn adlewyrchu'r dull a ddisgrifir yma. Mae'n rhy fuan gwybod eto beth y bydd y Gyfarwyddeb newydd yn ei gynnwys. Ond, ar hyn o bryd, byddai'n cynnwys nifer o bethau yr ydym ni'n ystyried y gallent fod yn ategiad gwerthfawr i'r Cod, ac, yn rhan o'n hymagwedd at sicrhau bod gan ddiodefwyr yr hawl i gydnabyddiaeth briodol, a chymorth a gwarchodaeth. Drwy gymryd rhan yn frwd, nid yn unig y cawn gyfle i wneud hynny'n glir, ond mae'n golygu hefyd ein bod yn helpu i sicrhau bod unrhyw un sy'n diodef yn sgil trosedd mewn

¹³ Arolwg Troseddau Prydain, data cyfun 2007/8 a 2008/9, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, adroddiad ar y gweill.

¹⁴ <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/statistics-and-data/mojstats/cjs-stats-bulletin-march2010.pdf>

unrhyw fan arall yn yr Undeb Ewropeaidd yn cael yr un hawliau â'r rheini y byddant yn elwa ohonynt yma.

73. Mae llawer o'r pethau hynny'n gyfarwydd. Maent yn adlewyrchu, er enghraifft, yr hawl yr ydym yn ei chydabod yn yr ymgynghoriad hwn, i ddiodefwyr gael eu trin gydag urddas a pharch, i gael gwybodaeth, ac i gael help a chymorth – yn enwedig os bydd diodefwyr yn agored i niwed. Mae'n bosibl hefyd yr aiff y Gyfarwyddeb ymhellach na'r Cod, er enghraifft, o ran preifatrwydd a gwarchod aelodau'r teulu. Rydym wedi ymrwmo i ddefnyddio'r Gyfarwyddeb, ac i'w roi ar waith (maes o law), er mwyn adolygu hawliau o'r fath a'r ffordd y cânt eu darparu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.
74. Pan ddechreuir ystyried ymgorffori'r Gyfarwyddeb yng nghyfraith Cymru a Lloegr, byddwn yn achub ar y cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer Cyfraith ehangach, fwy cynhwysfawr i Ddiodefwyr, yn unol â honno a argymhellir gan Louise Casey yn ei hadroddiad ar anghenion teuluoedd sydd mewn profedigaeth ar ôl dynladdiad. Serch hynny, credwn ei bod yn rhaid dechrau diwygio pethau ar unwaith, ac y dylai hyn ddechrau gyda Chod newydd, llawer mwy effeithiol, i Ddiodefwyr.

Diwygio'r Cod i Ddiodefwyr

75. Cynigiwn y dylid adolygu ac ailysgrifennu'r Cod i Ddiodefwyr er mwyn iddo ddweud yn glir yr hyn y gall diodefwyr ei ddisgwyl gan asiantaethau cyfiawnder troseddol, darparu ar gyfer gwasanaeth mwy personol i'r unigolyn, ac agor y drws ar gamau effeithiol i sicrhau iawn pan fydd pethau'n mynd o'u lle. Cynigiwn y dylid strwythuro'r Cod newydd o gwmpas yr egwyddorion a ganlyn:
- Dylid trin diodefwyr gydag urddas a pharch.
 - Mae angen ymateb o ddifrif i ddiodefwyr ac i'w pryderon, wrth iddynt riportio troseddau.
 - Dylid darparu'r cymorth arbenigol angenrheidiol i deuluoedd sydd mewn profedigaeth yn sgil llofruddiaeth neu ddynladdiad.
 - Dylai gwybodaeth am ei hachos fod ar gael yn rhwydd i bob diodefwyr a dylid ei chynnig mewn ffordd ragweithiol.
 - Dylai diodefwyr y mae'n rhaid iddynt fynd i'r llys fel tystion, ac y mae angen cymorth ymarferol arnynt i wneud hynny, gael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt wrth iddynt gyrraedd.
 - Dylid rhoi'r cyfle i ddiodefwyr sydd am gwblhau Datganiad Personol Diodefwyr wneud hynny gan allu disgwyl i'r llys ei ystyried.
 - Rhoddir cymorth i ddiodefwyr agored i niwed a rhai sydd dan fygythiad deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u gwarchod.
 - Bydd gan ddiodefwyr yr hawl i ofyn am gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol a dylid darparu hyn pan fydd ar gael a bod adnoddau ar gael.

- Dylai busnesau sydd wedi dioddef yn sgil trosedd gael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
76. Nid yw'r Cod i Ddiodefwyr presennol wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn. Mae hwnnw wedi'i fframio gyda'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn hytrach na'r diodefwyr mewn golwg ac mae'n feichus o ran proses, gan gynnwys dim llai na 99 o safonau y mae'n rhaid eu cyflawni gan asiantaethau cyfiawnder troseddol wrth iddynt helpu diodefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol. Fe all hyn fygu arloesi, ac, oherwydd bod adnoddau'n brin, fe all olygu nad yw rhai diodefwyr yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, tra bo asiantaethau'n cysylltu'n ddiangen â diodefwyr eraill, am yr unig reswm bod y Cod yn mynnu hynny.
77. Nid yw Siarter y Tystion mor rhagnodol â'r Cod i Ddiodefwyr. Mae'n rhestru'r safonau y dylai tystion eu disgwyl gan y system cyfiawnder troseddol, ond nid yw'n dweud yn rhy fanwl sut y dylid cyflawni'r safonau hynny. Oherwydd ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau – y canlyniadau y gall tystion eu disgwyl, yn hytrach nag ar y broses ar gyfer eu cyflawni – credwn fod Siarter y Tystion yn ddogfen symlach a mwy hygyrch. Er hynny, mae angen ei diweddarau a byddwn yn ymgynghori ag asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol i benderfynu a ddylid gwella pethau.

Cymorth i'r rheini sydd mewn profedigaeth yn sgil dynladdiad

78. Bydd gan rai diodefwyr a thystion anghenion difrifol iawn. Bydd angen mathau a lefelau o gymorth arnynt lle bydd gofyn sicrhau darpariaeth arbennig, hyd yn oed o fewn set o hawliau mwy hyblyg sydd wedi'u teilwra ar gyfer unigolion.
79. Mae'r Llywodraeth eisoes yn ariannu'r Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Achosion Dynladdiad, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2010 ac sy'n darparu cymorth arbenigol i berthnasau mewn profedigaeth. Yr ydym wedi buddsoddi £2.75m yn y gwasanaeth ac mewn cyrff sy'n darparu cymorth arbenigol eleni, er mwyn cynnig gweithiwr achos penodol i deuluoedd mewn profedigaeth sy'n gallu rhoi cymorth ymarferol ac emosïynol iddynt yn ogystal â'u cyfeirio at wasanaethau cwnsela arbenigol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi £500k i roi nifer o argymhellion adroddiad y Comisiynydd Dioddefwyr ar waith ar unwaith, sef adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf ynglŷn ag anghenion teuluoedd sydd mewn profedigaeth yn sgil dynladdiad. Mae'r argymhellion hynny'n cynnwys cynyddu nifer y gweithwyr achos proffesiynol, sicrhau bod mwy o deuluoedd yn gallu cael gafael ar unwaith ar wasanaeth cwnsela ar gyfer trawma a phrofedigaeth, a darparu rhagor o adnoddau ar gyfer y llu o gyrff llai sy'n darparu cymorth gan gymheiriaid i'r rhai mewn profedigaeth yn y tymor hwy. Fis Ebrill diwethaf, cyflwynodd y Swyddfa Gartref ddeddfwriaeth ar Adolygu Dynladdiad Domestig er mwyn dysgu gwersi ar ôl dynladdiad domestig.

80. Wrth adolygu'r Cod i Ddiodeffwyr, byddwn yn ystyried gweddill argymhellion y Comisiynydd ac rydym yn bwriadu cynnwys set o hawliau ychwanegol ar wahân y gall y rheini sydd mewn profedigaeth yn sgil dynladdiad eu disgwyl gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Cwestiynau ymgynghori

- C10 Sut y gellid newid y Cod i Ddiodeffwyr er mwyn creu dull mwy effeithiol a hyblyg o helpu diodeffwyr?
- C11 Beth yw eich barn chi am yr egwyddorion arfaethedig ar gyfer y Cod newydd?
- C12 A oes gan berthnasau mewn profedigaeth anghenion ychwanegol y dylid eu hadlewyrchu mewn Cod newydd i Ddiodeffwyr?
- C13 Sut y gallai gwasanaethau a chymorth i dystion, ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gydweithio'n well?
- C14 Sut y gellid gwella Siarter y Tystion er mwyn sicrhau ei bod yn darparu ar gyfer y mathau o wasanaethau a chymorth y mae eu hangen ar dystion?

Cwynion a Chael iawn

81. Mae'r Cod i Ddiodeffwyr ar ei fwyaf biwrocraidd yng nghyswllt cael iawn. Mae'n rhestru tri ar ddeg o lwybrau y gellir eu dilyn i gwyno wrth asiantaethau, a hynny'n bennaf drwy lythyr, sy'n golygu ei bod yn rhaid i'r diodeffwr benderfynu wrth bwy y mae angen cwyno pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Hefyd, fe allant gyfeirio cwynion at yr Ombwdsmon Seneddol. Dim ond traean (32%) o ddiodeffwyr yr arweiniodd eu hachosion at gyhuddiad a oedd yn cofio iddynt gael gwybod sut i gwyno.¹⁵ A dim ond pum deg a dau o gwynion y mae'r Ombwdsmon Seneddol wedi'u cael ers cyflwyno'r Cod.
82. Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd, asiantaethau cyfiawnder troseddol a grwpiau diodeffwyr er mwyn datblygu dull mwy hygyrch ac ymatebol i ymdrin â chwynion fel rhan o'r Cod newydd. Yn benodol, bydd angen bod yn gliriach ynglŷn ag wrth bwy y dylid cwyno, a dylid mabwysiadu dull cyson o ymdrin â chwynion.
83. Fel rhan o agenda tryloywder y Llywodraeth, byddwn yn annog asiantaethau cyfiawnder troseddol i gyhoeddi mwy o wybodaeth o lawer ynglŷn â sut yr ymdrinnir â chwynion, gan gynnwys y gyfran sy'n cael eu datrys er boddhad y diodeffwr neu'r tyst a'r amser a gymerir i wneud iawn.

¹⁵ WAVES, achosion a gaewyd yn 2009/10. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Adroddiad ar y gweill.

Cwestiwn ymgynghori

C15 Sut y gellir gwella'r prosesau sy'n caniatáu i ddiodefwyr a thystion gwyno wrth asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael iawn?

Gweld beth yw'r angen a'i dargedu

84. Er y bydd pawb sydd wedi dioddef yn sgil trosedd a riportiwyd yn cael budd uniongyrchol ac fel unigolion o'r gwasanaethau y bydd ganddynt yr hawl iddynt o dan y Cod newydd, byddwn yn blaenoriaethu adnoddau ar gyfer diodefwyr troseddau difrifol, y rhai sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro, a'r rhai mwyaf agored i niwed. Yn gefn i'r model mwy hyblyg hwn sydd wedi'i deilwra'n well, rhaid cael dull mwy soffistigedig ar gyfer gweld pa ddiodefwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn. Mae'n hanfodol canfod beth yw anghenion diodefwyr, bod asesiad anghenion ar gael i bob asiantaeth berthnasol, a bod modd diweddarau'r asesiad yn ôl y gofyn drwy gydol ymwneud y diodefwr neu'r tyst â'r broses cyfiawnder troseddol.
85. Mae'r heddlu wedi gweddnwid eu hagwedd at roi cymorth i ddiodefwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig cymorth i ddiodefwyr troseddau difrifol ac mae newid diwylliannol wedi golygu bod yr heddlu'n blaenoriaethu diodefwyr fel rhan graidd o'u gwaith. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu ac yn gefn i ddarparwyr wella'r asesiad anghenion cychwynnol, a ddylai gynnwys safbwyntiau'r diodefwr a natur y trosedd.
86. Ar hyn o bryd, gall diodefwyr gael cymorth emosiynol ac ymarferol gan Gymorth i Ddiodefwyr wrth i'r heddlu gyfeirio diodefwyr yn awtomatig at y gwasanaethau hyn oni bai eu bod yn dewis yn benodol peidio â chael eu cyfeirio. Serch hynny, mae hyn yn golygu bod cynifer yn cael eu cyfeirio at Gymorth i Ddiodefwyr fel na allant asesu anghenion pawb. Cynigiwn y bydd disgwyl yn y dyfodol i ddarparwyr cymorth a gomisiynir weithio gyda'r heddlu i wella prosesau asesu anghenion er mwyn adnabod y rhai mwyaf anghenus fel y gallant gael y cymorth sydd ei angen arnynt.
87. Mae nifer o gyrff yn y sector gwirfoddol - gan gynnwys Cymorth i Ddiodefwyr - eisoes yn gweithio gyda'r heddlu i'w hyfforddi. Er enghraifft, bydd Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, a gyflogir yn aml drwy'r sector gwirfoddol, yn gyfrifol am asesu anghenion, cydlynu cymorth a chysylltu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol a hynny'n elfen ganolog i'w rôl. Paneli amlasiantaeth yw Cynadleddau Amlasiantaeth ar gyfer Asesu Risg ac maent yn dwyn ynghyd yr asiantaethau statudol a gwirfoddol allweddol mewn ardal i gytuno ar gynllunio er mwyn sicrhau diogelwch diodefwyr trais domestig risg-uchel.
88. Yr ydym am weld mwy o ddefnydd ar y mathau hyn o drefniadau cydweithio er mwyn i ddarparwyr cymorth gael rôl ehangach o ran asesu angen cyn gynted ag y bo modd a chynorthwyo'r heddlu i gyfeirio'r

dioddefwyr iawn at y gwasanaethau cymorth iawn cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylai cydweithio cryfach greu budd deublyg: asesiad cliriach o'r angen gan yr heddlu'n fuan wrth iddynt gysylltu â diodefwyr, ac mae cyfeirio'n brydlon yn golygu bod modd i'r heddlu dreulio rhagor o amser yn ymchwilio i droseddau ac yn gwarchod y cyhoedd. Bydd hefyd yn gymorth i gyflawni ein nod o ran sicrhau bod asesiadau anghenion yn dilyn y diodefwyr, a bod darparwyr cymorth yn defnyddio'u harbenigedd i adeiladu ar sail yr asesiad angen cychwynnol gan yr heddlu.

89. Bydd ein fframwaith newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth (gweler Pennod 1) yn rhoi rhagor o bwyslais ar gydweithio rhwng yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Dylai'r heddlu allu manteisio ar unwaith ar wasanaeth sefydliadau cymorth i ddiodefwyr wrth iddynt ymwneud â'r diodefwyr mwyaf anghenus, boed hynny yn eu cartrefi ynteu yng ngorsafoedd yr heddlu. Yr ydym yn cynnig cynnwys cydweithredu effeithiol â'r heddlu'n ystyriaeth yn y broses lle bydd darparwyr gwasanaethau i ddiodefwyr yn bidio.

Rhoi Llais i Ddiodefwyr

90. Fe all sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n effeithiol - gan gynnwys sicrhau bod y diffynnydd yn cael y treial teg y mae ganddo'r hawl iddo - fod yn brofiad anodd i ddiodefwyr ac i dystion. Mae'r llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi gweithio i wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddiodefwyr a thystion er mwyn gwneud y broses yn un llai dirgel, ac maent hefyd wedi cymryd camau cadarn i sicrhau bod diodefwyr a thystion yn fwy cyfforddus - manau ar wahân yn y llys, er enghraifft, a threfniadau arbennig ar gyfer tystion bregus neu rai sy'n teimlo'u bod dan fygythiad.
91. Serch hynny, bydd rhai diodefwyr yn dal i feddwl mai ychydig o lais sydd ganddynt yn y broses cyfiawnder troseddol. Yn benodol, maent weithiau'n teimlo bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried yr effaith y gallai'r rheini ei chael ar eu bywydau. Mae angen i ddiodefwyr a thystion gael gwybod am hynt eu hachos ac mae angen iddynt gael eu paratoi i fynd i'r llys i roi tystiolaeth. O dan y Cod i Ddiodefwyr, mae eisoes yn ddyletswydd ar asiantaethau cyfiawnder troseddol i ymwneud â diodefwyr, a darperir gwasanaethau i sicrhau bod diodefwyr a thystion mor gyfforddus ag y bo modd gyda phroses y llys drwyddi draw. Mae rhai gwasanaethau ychwanegol eisoes ar gael i berthnasau mewn profedigaeth megis cynllun Swyddog Cyswllt Teuluoedd yr heddlu. Ers 2007, mae Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi darparu ei Wasanaeth i Deuluoedd mewn Profedigaeth (y Cynllun Canolbwyntio ar Ddiodefwyr gynt), mewn achosion dynladdiad.
92. O dan gynllun Gwasanaeth Erllyn y Goron, bydd erlynydd y goron sy'n gyfrifol am yr achos yn ysgrifennu at y teulu sydd mewn profedigaeth gan gynnig cyfarfod, naill ai ychydig cyn y cyhuddiad neu ychydig wedi hynny. Yn y cyfarfod cychwynnol hwn, bydd erlynydd y goron yn esbonio rôl Gwasanaeth Erllyn y Goron, sail gyfreithiol y cyhuddiadau a ddefnyddir yn yr erlyniad, pam mae angen defnyddio tystiolaeth benodol, sut y bydd yr

erlyniad, yr amddiffyniad a'r barnwr o bosibl yn ymdrin â'r dystiolaeth honno, a pha fath o groesholi sy'n debygol o fod. Lle bo hynny'n briodol, fe allai'r cyfarfod gynnwys rhoi rhybudd o flaen llaw i dystion os bydd deunydd sy'n berthnasol i'w cymeriad yn cael ei ddatgelu i'r amddiffyniad, er mwyn iddynt fod yn barod ar gyfer unrhyw groesholi posibl. Yn ogystal â'r cyfarfod cyntaf hwn, cynigir cyfarfodydd pellach i'r teuluoedd mewn profedigaeth gydag erlynydd y goron. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ar adegau allweddol yn y broses: er enghraifft, ar ôl penderfyniad i roi'r gorau i gyhuddiad neu i'w newid yn sylweddol; ar ôl euogfarn; cyn ac/neu ar ôl dedfrydu; ac ar ôl rhoi caniatâd i rywun apelio i'r Llys Apêl. Bydd cyfle hefyd i deuluoedd mewn profedigaeth gyfarfod ag adfocad y treial a fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys.

93. Mae'n bwysig hefyd, pan gaiff diffynnydd mewn achos dynladdiad ei ryddhau, fod teuluoedd mewn profedigaeth yn cael y cyfle i gyfarfod ag erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ôl y treial. Mewn 'Cyfarfod Ôl-ryddhau' o'r fath, bydd modd i'r perthnasau holi ynglŷn â phroses y treial a'i ganlyniad. Bydd hyn yn sicrhau bod pob teulu sydd mewn profedigaeth, lle bynnag y bydd eu hachos yn y system cyfiawnder troseddol, yn cael cymorth gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
94. Dylai pawb sy'n dioddef yn sgil trosedd gael cyfle i esbonio sut mae'r trosedd hwnnw wedi effeithio arno. Treialwyd y Datganiad Effaith ar Ddiodefwyr gyntaf yn 1996 ac fe'i gelwir bellach yn Ddatganiad Personol Dioddefwr. Mae'n rhoi'r cyfle i ddiodefwyr esbonio sut mae trosedd wedi effeithio arnynt, a dylid ei gynnal ar ddechrau un y broses cyfiawnder troseddol, pan fydd diodefwyr yn riportio trosedd wrth yr heddlu. Er bod gan bawb sy'n dioddef yn sgil trosedd yr hawl i wneud datganiad personol, mae cyfran y diodefwyr sy'n dweud eu bod yn cofio iddynt gael cynnig y cyfle i wneud hynny'n isel, 43%.¹⁶ I rai grwpiau megis pobl anabl (39%), a'r rheini o gefndir ethnig du (35%), Asiaidd (37%) a chymysg (38%), mae'n is eto.¹⁷ Os yw hyn yn awgrymu bod y ganran y cynigir y gwasanaeth iddynt yn isel, yr ydym am ei gwella i bawb a sicrhau bod y Datganiad, pan fydd rhywun yn ei wneud, yn cael ei ystyried fwy yn y broses asesu anghenion, gan sicrhau bod treialon troseddol yn ystyried safbwynt y diodefwyr.
95. Ar hyn o bryd, caiff unigolion sy'n cynrychioli busnesau bach wneud Datganiad, ond ni chaiff busnesau mawr wneud hynny. Roedd y terfysgoedd diweddar yn enghraifft amlwg iawn o sut y gall troseddu effeithio ar fusnesau o bob maint. Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned fusnes a chydag asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddatblygu ffordd effeithiol i fusnesau allu esbonio'r effaith ar y busnes yn ei grynsyth, ac ar aelodau unigol o'r staff.

¹⁶ <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/statistics-and-data/mojstats/cjs-stats-bulletin-march2010.pdf>

¹⁷ WAVES, achosion a gaewyd yn 2009/10. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Adroddiad ar y gweill.

96. Mae'r ffordd y defnyddir Datganiad Personol Dioddefwr yn y llys yn cael ei lywodraethu gan gyfarwyddyd ymarfer barnwrol sy'n dweud, "Dylid ystyried datganiad personol y dioddefwr ac unrhyw dystiolaeth sy'n gefn iddo a dylai'r llys gadw hynny mewn cof cyn dedfrydu."¹⁸ Datganiad Personol y Dioddefwr yw'r ffordd y gall dioddefwr roi gwybodaeth i'r llys am y niwed sydd wedi'i achosi yn sgil trosedd. Niwed a bai yw'r elfennau y bydd y llysoedd yn eu hasesu i benderfynu pa mor ddifrifol yw trosedd, ac felly pa ddedfryd sy'n briodol.
97. Er bod modd ystyried Datganiad Personol Dioddefwr wrth ddedfrydu, nid yw hynny bob tro'n glir i ddioddefwyr nac i'w teuluoedd. Drwy egluro beth yw'r datganiad, beth mae'n ei wneud, a sut y gall helpu, byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr yn fwy hyderus wrth wneud Datganiad Personol Dioddefwr gan eu sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried. Byddwn hefyd yn sicrhau bod canllawiau i ymarferwyr yn adlewyrchu'n ddigonol yr angen i ystyried Datganiad Personol Dioddefwr, os gwneir datganiad o'r fath, mewn unrhyw adroddiad cyn-dedfrydu a roddir i'r llys.
98. Mae deall – a chael yr wybodaeth iawn er mwyn gallu deall – pam mae penderfyniadau penodol yn cael eu gwneud yn ystod achos yn bwysig iawn i ddioddefwyr. Dyna pam y bydd Gwasanaeth estynedig Gwasanaeth Erllyn y Goron i Deuluoedd mewn Profedigaeth, a chynnig mwy o gyfle i gyfarfod ag erlynwyr, yn helpu mwy o ddioddefwyr. Yr ydym hefyd yn cytuno â'r cyn Gomisiynydd Dioddefwyr ei bod yn arbennig o bwysig rhoi copiâu ysgrifenedig o sylwadau dedfrydu'r barnwr i deuluoedd mewn profedigaeth, er mwyn iddynt gael gwybodaeth gywir am y rhan hollbwysig honno o'r achos. Yr ydym yn cynnig darparu'r wybodaeth hon yn yr achosion hynny, ar yr amod bod y farnwriaeth yn caniatáu hynny.
99. Byddwn yn cryfhau ein prosesau presennol er mwyn sicrhau bod Datganiad Personol Dioddefwr yn dilyn y dioddefwr drwy'r system, a'i fod yn cael ei drosglwyddo o'r naill asiantaeth i'r llall – o'r heddlu hyd at y Bwrdd Parôl. Bydd hyn yn golygu bod Datganiad Personol Dioddefwr yn arf grymus i gofnodi safbwynt y dioddefwr o ran y niwed a achoswyd gan y trosedd ac fe all hynny wedyn fod yn sail wrth asesu pa gymorth sydd ei angen.
100. Bydd y newidiadau hyn yng nghyswllt Datganiad Personol Dioddefwr yn adeiladu ar sail mesurau a gyhoeddwyd haf diwethaf yn ymateb y Llywodraeth i'w ymgynghoriad "Torri'r Cylch" ac sydd bellach wedi'i gynnwys yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr, er mwyn sicrhau bod y fframwaith dedfrydu'n fwy tryloyw, yn haws ei ddeall ac yn cael ei esbonio'n well i ddioddefwyr yn y llys.

¹⁸ Y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol Cyfnerthedig III.28.2(a)
http://www.cps.gov.uk/legal/v_to_z/victim_personal_statements/

Gwarchod Dioddefwyr a Thystion mewn Treial

101. Un o'r elfennau hollbwysig sy'n sicrhau bod y system cyfiawnder yn gweithio yw bod dioddefwyr a thystion yn rhoi tystiolaeth - a'u bod yn ddigon dewr i wneud hynny. Mae angen i ddinasyddion deimlo eu bod yn gallu rhoi tystiolaeth gan wybod y cânt gymorth a'u bod yn cael eu gwarchod wrth wneud hynny. Gellir rhoi mesurau arbennig ar waith ar gyfer tystion bregus a'r rhai sy'n teimlo dan fygythiad i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau. Ond fe all hyd yn oed y tystion mwyaf hyderus deimlo dan fygythiad pan fyddant yn cyrraedd y llys. Mae nifer o fesurau eraill, megis ymweliadau cyn y treial a mathau eraill o gymorth ar gael gan y Gwasanaeth Tystion, sy'n gallu bod o help i liniaru straen a phryder ar y diwrnod.

Gwarchod Tystion

Un cam y gellir ei gymryd yn yr achosion bygwth mwyaf eithafol, lle bydd bygythiad difrifol i fywyd tyst sy'n ymwneud ag ymchwiliad neu achos troseddol yw cynnig "statws gwarchodedig". Mae gan yr heddlu'r pŵer i roi statws gwarchodedig o dan adran 82 o Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005. Mae hyn yn galluogi swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddarparu rhaglenni gofal a chymorth wedi'u teilwra er mwyn rheoli'r risg i unigolion a'u teuluoedd a sicrhau ei bod cyn lleied ag y bo modd.

Mae'r Llywodraeth yn credu bod dadl gref y dylai'r camau diogelu cryfach a ddarperir drwy'r mesurau hyn fod ar gael i unrhyw ddioddefwr sy'n wynebu risg niwed difrifol, ni waeth a ydynt yn ymwneud â'r achos cyfreithiol neu beidio. Felly, mae'n ystyried ymestyn sgôp pwerau'r heddlu o dan y Ddeddf i gynnwys unrhyw unigolyn y mae angen gwarchodaeth o'r fath arno ym marn yr heddlu.

102. Serch hynny, hyd yn oed gyda'r cymorth hwn, mae effaith croesholi – yn enwedig ar dystion bregus a rhai sydd dan fygythiad – wedi codi pryderon. Mae profiadau diweddar wedi dangos hefyd sut y gall adroddiadau yn y wasg ynglŷn â'u tystiolaeth yn ystod treial beri tralod i dystion. Yr ydym yn cynnig nifer o fesurau i helpu i fynd i'r afael â hyn.

Sicrhau bod tystion yn gwybod beth i'w ddisgwyl

103. Rydym wedi ystyried a oes modd inni wneud rhagor i wella'r cyfathrebu rhwng erlynwyr a thystion y gall eu cymeriad ddod o dan chwyddwydr yn ystod y treial. O dan y gyfraith fel y mae, mae gofyn i ddiffynyddion roi datganiad i'r llys a'r erlyniad cyn pob treial yn Llys y Goron, yn nodi beth fydd trywydd eu hamddiffyniad. Pwrpas y datganiadau hyn yw gwella'r ffordd y rheolir achosion a galluogi'r erlyniad i gyflawni ei ddyletswyddau datgelu yntau'n fwy effeithiol. Maent hefyd yn rhoi cyfle i dystion gael rhybudd teg ynglŷn â'r pynciau a godir gan yr amddiffyniad.
104. Lle na fydd diffynnydd yn rhoi datganiad amddiffyn, neu lle bydd yn rhoi datganiad annigonol, fe all y llys neu'r erlynydd roi sylwadau ynglŷn â hynny, ac fe all y llys neu'r rheithgor benderfynu ynglŷn ag euogrwydd y diffynnydd fel sy'n briodol.

105. Nid yw'r datganiadau amddiffyn a ddarperir gan ddiffnyddion yn cyflawni'r gofynion statudol ym mhob achos o hyd, ac mae hynny'n codi'r cwestiwn a yw'r cosbau am fethu â chydymffurfio â'r gofynion hynny'n ddigonol. Felly, rydym yn ystyried sut orau mae cryfhau'r cosbau hyn.

Gwarchod preifatrwydd diodefwyr a thystion

106. Un o egwyddorion pwysig ein system cyfiawnder troseddol yw cyfiawnder agored – yr egwyddor y dylai cyfiawnder nid yn unig gael ei wneud ond y dylai pobl allu gweld ei fod yn cael ei wneud. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, y caiff enwau diffnyddion sy'n oedolion - diodefwyr a thystion - eu datgelu mewn llys agored. Mae'r egwyddor yn golygu hefyd, yn y rhan fwyaf helaeth o achosion, bod y cyfryngau'n gallu rhoi adroddiadau am gynnwys yr achos wrth i'r achos fynd rhagddo.

107. O dan rai amgylchiadau, caniateir cyfyngu ar egwyddor cyfiawnder agored, er enghraifft er mwyn gwarchod pobl agored i niwed, yn enwedig plant.

108. Wrth dreialu oedolion, fe all y llys gyfarwyddo na ddylid adrodd ynglŷn â gwybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw'r plant sydd dan sylw. Bydd gorchymyn 'cadw'n ddienw am oes' yn cael ei roi'n awtomatig yng nghyswllt diodefwyr honedig ystod eang o droseddau rhyw.

109. Byddwn yn ymgynghori ar wahân ynglŷn ag a oes gan lysoedd ddigon o bwerau i warchod manylion bywydau preifat diodefwyr a thystion sy'n rhoi tystiolaeth.

Cwestiynau ymgynghori

C16 Sut y gallem newid ein prosesau presennol er mwyn ystyried Datganiadau Personol Dioddefwyr wrth ddedfrydu ac yn ystod camau eraill achos, fel sy'n briodol?

C17 Pa broses y gellid ei sefydlu er mwyn i fusnesau esbonio effaith trosedd ar aelodau unigol o'r staff ac ar y busnes yn ei grynswth?

C18 Beth y gellid ei wneud i wella profiadau tystion sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys?

Adfer a gwneud iawn

110. Yn *Torri'r Cylch*, eglurodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu gorfodi troseddwr i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am eu troseddau a gwneud rhagor i wneud iawn am y difrod yr oeddent wedi'i achosi. Mae tair egwyddor:

- Dylai troseddwr ysgwyddo cyfran uwch o'r costau a wynebwr gan y wladwriaeth wrth helpu diodefwyr i ymdopi ac ymadfer ar ôl trosedd.

- Y drefn arferol y dylid ei dilyn yw bod troseddwr yn talu iawndal yn uniongyrchol i ddiodefwyr, ac y dylai'r diodefwr gael unrhyw iawndal a ddyfernir yn ei gyfanwydd.
- Dylai fod rhagor o gyfleoedd i ddiodefwyr a throseddwr gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol.

Cyfiawnder Adferol

111. Mae Cyfiawnder Adferol yn rhoi'r cyfle i ddiodefwyr ei gwneud yn glir i droseddwr pa effaith y mae eu troseddau'n eu cael ar bobl. Mae'n rhoi cyfle i droseddwr ymddiheuro a chynnig gwneud iawn. Mae sawl gwahanol enghraifft o'r ffordd y caiff ei ddefnyddio ac mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol i roi dulliau newydd ar brawf.

Enghreifftiau o Gyfiawnder Adferol ar waith

Dulliau Adferol o Ymdrin â Throseddwr Ifanc: Treialwyd y rhain mewn saith ardal, ac maent yn defnyddio technegau cyfiawnder adferol sy'n caniatáu i fân droseddau a gyflawnir gan bobl ifanc gael eu datrys yn syth. Rhoddir cyfle i'r diodefwyr esbonio i'r troseddwr beth oedd effaith y trosedd, a chyfle i'r troseddwr ymddiheuro a gwneud iawn i'r diodefwr, efallai drwy drwsio difrod neu drwy roi eitemau yn ôl iddynt yn lle'r rhai a ddygwyd.

Gorchymyn Atgyfeirio: Dedfryd gymunedol a roddir i rywun ifanc sy'n pledio'n euog i drosedd pan fydd yn ymddangos yn y llys am y tro cyntaf. Seilir y broses atgyfeirio at egwyddorion cyfiawnder adferol. Bydd gofyn i'r person ifanc fynd gerbron panel troseddwr ifanc, sy'n cynnwys dau wirfoddolwr o'r gymuned leol a chynghorydd panel o dîm troseddau ieuentid. Bydd y panel, ynghyd â'r person ifanc, y rhieni/gofalwyr a'r diodefwr (os bydd yn cytuno i fod yn bresennol), yn cytuno ar contract sy'n para rhwng tri mis a 12 mis. Rhaid i'r contract gynnwys elfennau gwneud iawn ac adsefydlu. Nod y contract fydd gwneud iawn am y niwed a achoswyd yn sgil y trosedd a mynd i'r afael ag achosion yr ymddygiad troseddol.

Ar ôl y ddedfryd: Bydd gwasanaeth cyfiawnder adferol Ymddiriedolaeth Prawf Dyffryn Tafwys yn darparu cyfiawnder adferol fel rhan o ddedfryd gymunedol. Cynhelir cynhadledd rhwng y diodefwr a'r troseddwr. Gall aelodau'r teulu a ffrindiau ymuno â'r cyfarfod i drafod yr hyn a ddigwyddodd; ar bwy mae'r ymddygiad troseddol wedi effeithio; pa effaith gafodd hynny a beth y gellid ei wneud i wneud iawn am y niwed. Lle na fydd y diodefwr am gymryd rhan mewn cyfarfod wyneb-yn-wyneb, fe gânt ddewis cael llythyr ymddiheuro gan y troseddwr.

Yn y Carchar: Mae nifer o raglenni cyfiawnder adferol wedi'u datblygu ar gyfer carcharorion. Mae cwrs arloesol y Goeden Sycamor, gan Gymrodoriaeth y Carchardai, a rhaglen SORI, cwrs a ddatblygwyd gan gaplaniaeth y carchardai ar sail gwaith arloesol yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd, yn mynnu bod carcharorion yn wynebu effaith eu troseddau drwy gyfarfod â diodefwyr a'r rheini sy'n cynrychioli'r cymunedau y maent wedi gwneud niwed iddynt.

112. Credwn fod potensial sylweddol i gyfiawnder adferol wella canlyniadau'r system cyfiawnder troseddol. Wrth werthuso cynlluniau peilot cyfiawnder adferol yn ddiweddar¹⁹, gwaith a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn ôl yr amcangyfrifon, gwelwyd bod gostyngiad o 14% o ran amlder aildroseddu.²⁰ Yn bwysicach na hynny, canfu'r gwerthusiad fod 85% o'r diodefwyr a fu'n cymryd rhan yn y cynlluniau'n fodlon ar y profiad.
113. Mae'n hanfodol, serch hynny, bod achosion yn cael eu hasesu'n briodol er mwyn cynnig camau diogelu digonol i ddiodefwyr ac fel nad ydynt yn eu cael eu hunain yn ddiodefwyr eto. Rhaid inni hefyd sicrhau bod safbwyntiau diodefwyr ynglŷn â sut y dylid rhoi cyfiawnder adferol ar waith yn eu hachos penodol hwy yn cael y lle blaenaf.
114. Ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer cyfiawnder adferol. Bydd hyn yn cynnig canllawiau i ymarferwyr lleol ac yn help iddynt ddatblygu a darparu cyfiawnder adferol drwy ddilyn yr arferion gorau ac arferion sy'n addas ar gyfer anghenion lleol.
115. Yr ydym eisoes wedi camu tuag at fframwaith o'r fath drwy ariannu'r Cyngor Cyfiawnder Adferol i gyhoeddi 'Cod Ymarfer i Hyfforddwyr'. Mae hyn yn rhestru'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid i ymarferwyr eu cyflawni er mwyn darparu ymyriadau cyfiawnder adferol yn effeithiol - ymyriadau sydd o fudd i'r diodefwyr yn ogystal ag i'r troseddwr. Ym mis Medi eleni, lansiodd y Cyngor Cyfiawnder Adferol Gofrestr Genedlaethol yr Ymarferwyr Cyfiawnder Adferol, gyda chefnogaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hyn yn golygu bod staff cyfiawnder troseddol a chyrrff y sector gwirfoddol sy'n helpu diodefwyr yn gallu argymhell unigolion achrededig i helpu'r diodefwyr y maent yn gweithio gyda hwy i gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.
116. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Cyfiawnder Adferol a chyda sefydliadau eraill er mwyn gwella'r arferion gorau a sicrhau bod cyfiawnder adferol ar gael ar raddfa ehangach i'r diodefwyr hynny sy'n dymuno'i gael a lle bydd y troseddwr yn barod i gyfrannu'n ddiffuant at y broses.
117. O ran mân droseddu, lle nad oes llawer o niwed wedi'i achosi i'r diodefwyr a lle bydd y troseddwr yn cyfaddef ei fod ar fai, fe all cyfiawnder adferol roi cyfle i'r diodefwyr gau'r drws ar y digwyddiad a chael iawn yn ogystal â rhoi cyfle i'r troseddwr wynebu cost ddynol y trosedd. Mae'r heddlu eisoes wedi hyfforddi rhyw 18,000 o swyddogion ym maes cyfiawnder adferol ac maent yn ei ddefnyddio'n helaeth - naill ai ar ei ben ei hun neu i ategu dulliau eraill - ar gyfer dwyn o siop, ymosod a difrod troseddol.

¹⁹ <http://www.justice.gov.uk/publications/restorative-justice.htm>

²⁰ Cyfrifwyd y ffigur 14% ar ôl i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddadansoddi data mewnol y gwerthusiad gwreiddiol yn fwy manwl

118. Mae'n bwysig bod gan ddiodefwyr yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu penderfynu a ydynt am gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol. Yr ydym eisoes yn diwygio'r llythyr safonol i ddiodefwyr troseddau, a anfonir gan yr heddlu at bob diodefwyr sy'n riportio trosedd, er mwyn cynnig rhagor o wybodaeth iddynt am y broses cyfiawnder troseddol. Wrth inni helpu'r sector i adeiladu'r gofrestr ymarferwyr a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer cyfiawnder adferol, byddwn yn sicrhau bod pob llythyr at ddiodefwyr troseddau'n esbonio manteision posibl cyfiawnder adferol ac yn eu cyfeirio at wasanaethau sydd ar gael yn lleol.
119. Yr ydym eisoes wedi'i gwneud yn glir yn y ddogfen hon ein bod yn bwriadu cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Ddatganiad Personol Dioddefwr a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer asesu anghenion diodefwyr, yn ogystal â sicrhau ei fod yn dylanwadu ar benderfyniadau dedfrydu. Gyda chaniatâd y diodefwyr, byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i helpu i asesu pa mor addas ydyw ar gyfer cyfiawnder adferol, gan ganiatáu i ymarferwyr wneud argymhelliad i'r diodefwyr ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n iawn ar eu cyfer, a'i ddefnyddio'n sail ar gyfer esbonio i'r troseddwr y niwed a achoswyd gan eu trosedd fel rhan o'r broses cyfiawnder adferol.
120. Esboniwyd uchod hefyd y dylid diweddarau Datganiad Personol Dioddefwr wrth i'r achos troseddol fynd rhagddo er mwyn sicrhau ei fod yn dal i adlewyrchu'r niwed a achoswyd i'r diodefwyr. Lle bydd ymyriadau cyfiawnder adferol yn digwydd ochr yn ochr â'r achos, byddwn yn cynnig cyfle i ddiodefwyr sôn am eu profiad - boed dda neu ddrwg - mewn datganiad wedi'i ddiweddarau. Yna, os bydd euogfarn ar ddiwedd yr achos, gallai'r llys ei ystyried wrth ddedfrydu.
121. At hynny, rydym yn gweithio i wella'r cyngor a gaiff dedfrydwyr ynglŷn ag arferion cyfiawnder adferol cyn-dedfrydu a sut mae modd iddynt ystyried cyfiawnder adferol yn y llys, yn ogystal ag i lunio canllawiau i helpu staff prawf a staff carchardai i ddilyn arferion cyfiawnder adferol gwell cyn dedfrydu ac ar ôl dedfrydu.
122. Yr ydym wrthi'n dyrannu grantiau i hyfforddi staff a gwirfoddolwyr ac i ddatblygu canllawiau er mwyn meithrin gallu mewn carchardai ac yn y gymuned a fydd yn golygu bod modd defnyddio mwy o gyfiawnder adferol cyn dedfrydu ac ar ôl dedfrydu. Os paratwir adroddiad cyn-dedfrydu ar droseddwr, a'i fod, drwy dderbyn bod bai arno yn fuan yn y broses cyfiawnder troseddol, eisoes wedi cyfrannu at y broses cyfiawnder adferol cyn cael ei ddedfrydu, dylai barn y diodefwyr am y canlyniad gael ei bwydo i'r adroddiad. Byddwn yn datblygu canllawiau newydd ynglŷn ag adlewyrchu cyfiawnder adferol mewn adroddiadau cyn-dedfrydu er mwyn sicrhau bod y camau a gymerir yn gyson.
123. Byddwn yn cynorthwyo ardaloedd lleol i roi dulliau cyfiawnder adferol ar brawf. Bydd hyn yn helpu inni ddysgu rhagor am sut y gallwn wneud i gyfiawnder adferol weithio'n ymarferol a sut mae modd ei gynnwys yn y broses cyfiawnder troseddol. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno cynigion

ar gyfer rhoi hawl newydd i ddiodefwyr ofyn am gyfiawnder adferol fel rhan o'r Cod newydd i Ddiodefwyr.

124. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad ynglŷn â dedfrydau cymunedol sydd i'w gynnal cyn bo hir i ehangu eto ar y dulliau hyn ac ystyried sut y gallwn gyfuno cyfiawnder adferol yn well gyda dedfrydu a'r broses cyfiawnder troseddol drwyddi draw.

Cwestiwn ymgynghori

C19 Pa gamau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y diodefwr yn ddiogel yn ystod y broses cyfiawnder adferol?

Gwneud iawn anariannol

125. Yn ogystal â chynadleddau achos a mathau eraill o gyfiawnder adferol sy'n cynnwys deialog rhwng y diodefwr a'r troseddwr, credwn fod mwy o lei i droseddwr wneud iawn yn uniongyrchol i ddiodefwyr, drwy ddulliau nad ydynt yn rhai ariannol, yn enwedig yn sgil mân-droseddu lle bydd y gost i'r diodefwr yn un amlwg e.e. mân ddifrod troseddol.

126. Mae eisoes yn bosibl mynnu bod troseddwr yn gwneud iawn, a hynny drwy'r llys a'r tu allan iddo, er enghraifft fel rhan o drefniant y tu allan i'r llys neu orchymyn cymunedol:

- Gellir cytuno'n anffurfiol i wneud iawn i'r diodefwr ochr yn ochr â threfniadau y tu allan i'r llys megis rhybuddiad syml, cerydd a rhybudd terfynol.
- Gellir cytuno i wneud iawn yn ffurfiol hefyd fel rhan o rybuddiadau amodol i bobl ifanc ac oedolion, ac fel rhan o orchymynion gwneud iawn a roddir i droseddwr ifanc. Yn 2008/09 rhoddwyd 4,702 o orchymynion gwneud iawn i droseddwr ifanc.
- Gellir cytuno hefyd yn fwy ffurfiol i drefniadau gwneud iawn anariannol fel rhan o Orchymynion Atgyfeirio Ieuencid a Gorchymynion Adsefydlu Ieuencid yn y system ieuencid. Fe all hyn ffurfio rhan o ddedfryd gymunedol yn y system oedolion, e.e. gallai'r gwneud iawn fod yn rhan o weithgarwch penodol neu o ofyniad goruchwyllo.

127. Yng nghyswllt llawer math o drefniant, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y mae hyn yn digwydd ar lawr gwlad. Serch hynny, yn ôl yr hyn a ddywed ymarferwyr, yr awgrym yw na fydd asiantaethau bob tro'n defnyddio'r fframwaith hwn i'r eithaf i fynnu bod troseddwr yn gwneud iawn i'r diodefwr. Yn sgil hyn, credwn fod rhagor o gyfle inni wneud ein system yn un sy'n rhoi mwy o bwys ar wneud iawn.

Cwestiwn ymgynghori

C20 Sut y gallwn newid agweddau ac ymddygiad tuag at wneud iawn a dangos sut mae sicrhau canlyniadau sy'n gwneud iawn drwy ddulliau arloesol?

Deddf Enillion Carcharorion 1996

128. Mae'r Llywodraeth Glymblaid bellach wedi rhoi Deddf Enillion Carcharorion ar waith. Fe gafodd Gydsyniad Brenhinol yn 1996. Mae'r Ddeddf yn caniatáu tynnu arian o incwm y carcharorion hynny a gedwir dan amodau agored, ac sy'n ennill cyflog drwy weithio y tu allan i'r sefydliad. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r holl arian a dynnir yn y flwyddyn gyntaf i dalu am wasanaethau i ddioddefwyr; amcangyfrifir y bydd hyd at £1m yn mynd at Gymorth i Ddioddefwyr.
129. Ar hyn o bryd, nid yw'r Ddeddf ond yn berthnasol i oddeutu 480 o garcharorion. Mae'r Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r yn cynnwys darpariaethau a fydd yn caniatáu tynnu arian o gyflog grŵp ehangach o lawer o garcharorion, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio yng ngweithdai'r carchar.

Y Gordal i Ddioddefwyr

130. O'r £66m a werir gan lywodraeth ganol bob blwyddyn ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr a thystion, ni fydd troseddwy'r ond yn cyfrannu oddeutu £10m drwy'r Gordal i Ddioddefwyr. Nid yw hyn yn gytbwys.
131. Rhoddwyd y Gordal i Ddioddefwyr ar waith yn 2007. Defnyddir y refeniw a godir drwy'r Gordal i dalu am wasanaethau cymorth anariannol i ddioddefwyr a thystion troseddau megis Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Unedau Gofalu am Dystion a grwpiau cymorth gwirfoddol amrywiol drwy'r Gronfa i Ddioddefwyr.
132. Ar hyn o bryd gorchymynnir talu Gordal o £15 pan ddirwy'r troseddwr. Yn ystod blwyddyn gyntaf ei weithredu, codwyd £3.8m mewn refeniw yn sgil hyn. Ers hynny, mae wedi codi i £10.5m ond, gan mai dim ond ar ddirwyon y codir y Gordal, nid oes llawer o le i gynyddu'r refeniw rhagor. Drwyddi draw, nid yw troseddwy'r yn cyfrannu digon at gostau darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau. Credwn y dylai troseddwy'r wneud mwy o iawn i ddioddefwyr, a hynny'n uniongyrchol drwy iawndaliadau a orchymynnir yn y llys a thrwy gyfrannu at gost gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.
133. Er mwyn sicrhau bod y Gordal yn cael ei godi ar y nifer fwyaf posibl o droseddwy'r, bwriadwn gynyddu lefel y Gordal a orchymynnir gyda dirwy a'i roi ar waith mewn ystod ehangach o ddedfrydau. Cynigiwn hefyd y dylid cynyddu lefel yr Hysbysiadau Cosb am Anhrefn gan ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at yr un dibenion ag y defnyddir refeniw'r Gordal. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau newydd yn gymesur, eu bod yn ystyried difrifoldeb y ddedfryd a orfodwyd, eu bod yn syml i'w gweinyddu a bod gobaiith realistig o gael yr arian gan droseddwy'r. Gellir crynhoi'r cynigion yr ydym yn ceisio'ch barn yn eu cylch fel hyn:

Troseddwy'r 18 oed neu hŷn	Cynnig
Rhyddhad Amodol	Gordal penodedig o £15
Dirwyon	Gordal o 10% o werth y ddirwy ynghyd â lleiafswm o £20 a mwyafswm o £120
Dedfrydau Cymunedol	Gordal penodedig o £60
Hysbysiadau Cosb am Anrhefn	Cynyddu'r haen uchaf a'r haen isaf £10 i £90 a £60 yn y drefn honno.
Dedfrydau Dan Glo, gan gynnwys Dedfrydau Gohiriedig	6 mis a llai - Gordal o £80 Dros 6 mis a hyd at a chan gynnwys 2 flynedd - Gordal o £100 Dros 2 flynedd - Gordal o £120

Troseddwy'r o dan 18 oed	Cynnig
Rhyddhad Amodol	Gordal penodedig o £10
Dedfrydau Cymunedol	Gordal penodedig o £15
Dedfrydau dan glo	Gordal penodedig o £20 (ni waeth beth fydd hyd y ddedfryd)

134. Ym mhob achos, bydd gorfodi iawndal a ddyfarnwyd i ddiodefwyr troseddau drwy orchymyn llys yn fwy o flaenoriaeth na chodi'r Gordal i Ddiodefwyr. Rhagwelwn y gallai'r cynigion a restrir uchod godi hyd at fwyafswm o £20m o referniw ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau i ddiodefwyr, ar ôl eu rhoi ar waith yn llawn. Yn ogystal â hynny, mae'r Llywodraeth wedi clustnodi hyd at £30m y flwyddyn yn sgil yr Hysbysiadau Cosb Benodedig hynny y cynigir eu cynyddu o dan Fframwaith Strategol Diogelwch y Ffyrdd gan yr Adran Trafnidiaeth ar gyfer gwasanaethau i ddiodefwyr. Drwyddi draw felly, gallai ein cynlluniau ddarparu £50m y flwyddyn arall i ariannu'r gwasanaethau hynny.
135. Lle bydd troseddwr wedi'i ddedfrydu i ddedfryd sy'n cynnwys mwy nag un elfen (er enghraifft, dirwy a dedfryd gymunedol), cynigiwn y dylai'r Gordal fod yn daladwy ar yr elfen unigol sy'n sbarduno'r Gordal uchaf.

Ymestyn y Gordal i ryddhad amodol

136. Credwn y dylai troseddwy'r sy'n cael rhyddhad amodol gyfrannu at gostau helpu diodefwyr. Mae'r troseddwr wedi'i gael yn euog a rhoddir euogfarn droseddol iddo, ond fe gaiff ei ryddhau ar yr amod nad yw'n troseddu eto o fewn cyfnod penodol.
137. Er mwyn adlewyrchu difrifoldeb y ddedfryd o'i chymharu â dedfrydau eraill, cynigiwn y dylai'r Gordal gael ei ymestyn i ryddhad amodol ar gyfradd benodedig, sef £15 ar gyfer y rheini sydd dros 18 oed. Mae hyn yn is na'r Gordal lleiaf a gynigir ar gyfer dirwyon.

Cwestiwn ymgynghori

C21 A ddylid pennu'r Gordal ar gyfer rhyddhad amodol ar gyfradd benodedig o £15 i'r rheini sydd dros 18 oed?

Cynyddu'r Gordal a godir ar ddirwyon

138. Mae dau ddewis ar gyfer cynyddu'r Gordal ar ddirwyon: pennu cyfradd benodedig ynteu seilio'r gordal ar gyfran o swm y ddirwy. Mantais yr ail ddewis yw bod gwell cysylltiad rhwng y Gordal a'r ddedfryd a orfodir gan y llys gan y bydd hwnnw wedi ystyried sefyllfa ariannol y troseddwr wrth bennu'r ddirwy.
139. Cynigiwn y dylai'r Gordal fod yn 10% o werth dirwy. Er mwyn sicrhau bod pob troseddwr y gorchmynnir iddo dalu dirwy'n cyfrannu mwy at wasanaethau i ddioddefwyr nag y bydd y troseddwr hynny a ryddheir yn amodol, cynigiwn hefyd y dylid pennu mai £20 fydd y Gordal lleiaf a fydd yn daladwy ar ddirwy. Yn 2010, roedd 72% o'r dirwyon a orchmynnwyd yn £200 neu'n llai. Felly, byddai'r rhan fwyaf o'r dirwyon yn codi lleiafswm y Gordal ar ddirwy, sef £20.
140. Byddem hefyd yn croesawu barn pobl ynglŷn ag a ddylai'r Llywodraeth bennu uchafswm ar gyfer y Gordal ar ddirwyon. Yn 2010, y ddirwy fwyaf a orfodwyd ar unigolyn oedd £40,000. O dan ein cynigion ni, byddai hynny'n golygu Gordal o £4,000. Er mwyn sicrhau bod y Gordal yn dal i fod yn gyfraniad rhesymol at ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr, ni chredwn y byddai'n deg i droseddwr orfod talu Gordal mor fawr.
141. Cynigiwn y dylid codi'r Gordal uchaf ar y dedfrydau mwyaf difrifol. Felly, ni ddylai'r Gordal uchaf ar ddirwy fod yn fwy na'r Gordal ar y ddedfryd fwyaf difrifol o garchar. Mae'r cynigion a ganlyn yn yr ymgynghoriad hwn yn pennu £120 yn uchafswm y Gordal ar gyfer dedfryd o garchar (dros 2 flynedd). Felly cynigiwn mai £120 ddylai uchafswm y Gordal fod pan fydd yn daladwy ar ben dirwy. Yn 2010, roedd llai nag 1% o'r dirwyon am symiau o £1,200 neu ragor, felly byddai llai nag 1% o'r dirwyon wedi arwain at uchafswm y Gordal, sef £120.

Cwestiynau ymgynghori

C22 Wrth godi Gordal i Ddioddefwyr ar ddirwyon, a ddylid ei bennu ar sail canran o swm y ddirwy? Os felly, ai 10% y dylai'r ganran honno fod?

C23 A ddylid pennu lleiafswm ar gyfer y Gordal i Ddioddefwyr a godir ar ddirwyon? Os felly, ai £20 y dylai'r lleiafswm hwnnw fod?

C24 A ddylid pennu uchafswm ar gyfer y Gordal ar ddirwyon sy'n is na'r Gordal i Ddioddefwyr a godir ar ddedfryd o garchar dros 2 flynedd?

Rhoi'r Gordal ar waith mewn Dedfrydau Cymunedol i Oedolion

142. Credwn ei bod yn bwysig hefyd i droseddwr sy'n bwrw dedfryd gymunedol gyfrannu at helpu dioddefwyr. Er mwyn adlewyrchu difrifoldeb

y ddedfryd o'i chymharu â dedfrydau eraill, cynigiwn y dylai lefel y Gordal a roddir ar waith mewn dedfrydau cymunedol, gan amlaf, fod yn fwy na'r Gordal a godir ar ddirwyon.

143. Gall dedfryd gymunedol gynnwys sawl math o weithgarwch neu oruchwyliaeth i gosbi troseddwyd a'u helpu i adsefydlu. Nid yw'n rhwydd cyfrifo canran syml ar gyfer y dedfrydau hyn fel y gellir gwneud gyda dirwyon. Felly, credwn na fyddai cael Gordal amrywiol ar gyfer dedfrydau cymunedol yn ymarferol a chynigiwn y dylid gorfodi cyfradd benodedig.
144. Cynigiwn mai £60 ddylai'r gyfradd benodedig honno fod er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r troseddwyd sy'n bwrw dedfryd gymunedol yn talu Gordal uwch na'r rheini a ddirwywyd. Yn 2010, roedd 98% o'r dirwyon yn £600 ac yn llai. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r rhan fwyaf helaeth o'r Gordaliadau a orchmynnwyd ar ddirwyon yn uwch na'r Gordal a fyddai'n daladwy ar ddedfrydau cymunedol.
145. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y Gordal sy'n daladwy ar ddedfryd gymunedol yn cael ei orfodi'r drwyadl, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael eisoes i'r eithaf i dynnu arian o enillion a budd-daliadau mewn achosion priodol a chan weithio'n glos gyda'r Ymddiriedolaethau Prawf.

Cwestiwn ymgynghori

C25 A ddylid pennu cyfradd benodedig ar gyfer y Gordal i Ddiodefwyr, yng nghyswllt dedfrydau cymunedol? Os felly, ai £60 y dylai'r ganran honno fod?

Hysbysiadau Cosb am Anrhefn

146. Cosbau yn y fan a'r lle yw Hysbysiadau Cosb am Anrhefn a roddir gan yr heddlu pan fydd rheswm dros amau bod rhywun wedi bod yn ymwneud â mân-drosedd, megis bod yn feddw ac yn afreolus. Caiff y sawl y rhoddir yr hysbysiad iddo ddewis talu'r gosb neu ofyn am gael treial mewn llys. Os bydd unigolyn yn gofyn am dreial a bod y llys yn ei gael yn euog o'r trosedd, mae'n debygol o wynebu dirwy sy'n uwch na swm y gosb.
147. Ni chredwn ei bod yn iawn i bobl sy'n cael hysbysiad cosb am anrhefn allu diosg eu cyfrifoldeb am gyfrannu at gost gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr. Felly, byddwn yn cynyddu gwerth yr hysbysiadau cosb am anrhefn ac yn defnyddio'r refeniw ychwanegol at yr un dibenion ag y defnyddir y Gordal i Ddiodefwyr.
148. Y symiau a godir drwy Hysbysiadau Cosb am Anrhefn yw £50 (haen isaf) neu £80 (haen uwch). Cynigiwn y dylid cynyddu'r ddau ohonynt £10 sef hanner y lleiafswm a gynigir ar gyfer y Gordal ar ddirwyon. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw Hysbysiad Cosb am Anrhefn, er ei fod yn gosb, wedi'i orfodi gan lys ar ôl euogfarn.

Cwestiynau ymgynghori

C26 A ddylid cynyddu Hysbysiadau Cosb am Anrhefn £10? A ddylid defnyddio'r refeniw ychwanegol a godir drwy hyn i ariannu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr? C27 A ddylid rhoi'r un cynnydd ar waith ar gyfer haen is a haen uwch yr Hysbysiadau Cosb am Anrhefn?

Ymestyn y Gordal i ddedfrydau o garchar (gan gynnwys dedfrydau gohiriedig)

149. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod troseddwr a ddedfrydir i gyfnod dan glo'n cyfrannu at gostau helpu dioddefwyr. Mae'n iawn bod y rheini sy'n bwrw'r dedfrydau mwyaf difrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu troseddau ac yn cyfrannu at gostau gwneud iawn i ddioddefwyr. Felly, cynigiwn y dylid rhoi'r Gordal i Ddioddefwyr ar waith mewn dedfrydau o garchar, gan gynnwys dedfrydau gohiriedig, gan fandio gwerth y Gordal ar sail hyd y ddedfryd. Er mwyn adlewyrchu difrifoldeb y ddedfryd hon o'i chymharu â dedfrydau eraill, cynigiwn y dylid pennu man cychwyn y bandiau hyn yn uwch na'r Gordal o £60 a gynigiwyd ar gyfer dedfrydau cymunedol i oedolion:

Hyd y ddedfryd	Gwerth y Gordal ar gyfer Dedfryd o Garchar
Dedfrydau o 6 mis a llai	£80
Dedfrydau o dros 6 mis a hyd at a chan gynnwys 2 flynedd	£100
Dedfrydau dros 2 flynedd	£120

150. Credwn y dylai pob troseddwr dalu mwy o iawn i ddioddefwyr. Ni ddylai'r rheini sy'n bwrw'r dedfrydau mwyaf difrifol allu osgoi talu'r Gordal. Felly, cynigiwn ddeddfu i sicrhau nad oes modd i'r troseddwr osgoi talu'r Gordal i Ddioddefwyr a orchmynnir pan roddir dedfryd o garchar drwy dreulio amser ychwanegol yn y carchar.

151. Bydd y Gordal ar ddedfryd yn y carchar yn daladwy o'r adeg y'i gorfodir ac fe'i gorfodir o'r pwynt hwnnw ymlaen. O dan ein cynigion, gallai troseddwr dalu yn ystod 3 cham:

- Pan gyhoeddir y ddedfryd a chyn i'r troseddwr gyrraedd y carchar;
- Yn y carchar tra bo'r troseddwr yn bwrw'i ddedfryd;
- Ar ôl ei ryddhau.

152. Ar y dechrau, byddwn yn canolbwyntio ar gasglu'r Gordal pan ddedfrydir y troseddwr a phan gaiff ei ryddhau, gan ddefnyddio prosesau gorfodi presennol GLITEM, gan gynnwys tynnu arian o enillion a budd-daliadau lle bo hynny'n briodol a chan weithio'n glos gyda'r Ymddiriedolaethau Prawf.

153. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion i alluogi carcharorion i dalu'r Gordal yn ystod eu cyfnod dan glo, gan gynnwys opsiynau ar gyfer tynnu arian o'u henillion.
154. Os bydd troseddwr wedi cyflawni mwy nag un trosedd a'i fod naill ai'n bwrw dedfrydau cyfredol neu ddilynol ar eu cyfer, cynigiwn y dylid codi'r Gordal ar y ddedfryd unigol uchaf, sef y ddedfryd fwyaf difrifol.

Cwestiynau ymgynghori

C28 A ddylai gwerth y Gordal ar ddedfrydau yn y carchar fod yn uwch na'i werth ar gyfer dedfrydau cymunedol i oedolion? Os felly, a ddylid ei bennu yn ôl hyd y ddedfryd?

C29 Os bydd troseddwr wedi cyflawni mwy nag un trosedd ac wedi cael gorchymyn cyfredol neu ddilynol, a ddylid gorchymyn y Gordal ar gyfer y ddedfryd unigol uchaf?

C30 A ddylai fod yn ofynnol i droseddwr dalu'r Gordal i Ddiodefwyr tra'u bod yn y carchar?

Rhoi'r Gordal ar waith i droseddwr o dan 18 oed

155. Y brif egwyddor sy'n sail i'n cynigion i ddiwygio'r Gordal i Ddiodefwyr yw y dylai pob troseddwr gyfrannu at ofal a chymorth i ddiodefwyr. Ar hyn o bryd, codir y Gordal ar bob dirwy, gan gynnwys y rheini a orfodir ar droseddwr o dan 18 oed (troseddwr ifanc). Cynigiwn ymestyn defnyddio'r Gordal yng nghyswllt mwy o'r dedfrydau a roddir i droseddwr ifanc.
156. Gan amlaf, bydd troseddwr ifanc sy'n 16 neu'n hŷn yn gyfrifol am dalu eu gorchymynion iawndal, eu Gordal, eu costau a'u dirwyon eu hunain. Os yw'r troseddwr yn iau na 16 oed, fel rheol y rhiant neu'r gwarcheidwad sy'n gyfrifol am dalu'r Gordal. Byddai hyn yn dal yn wir petaem yn ymestyn defnyddio'r Gordal yng nghyswllt mwy o ddedfrydau ar gyfer troseddwr ifanc. Bwriadwn bennu lefel y Gordal yn is na'r lefel a godir ar oedolion, er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng egwyddorion dedfrydu troseddwr ifanc a throseddwr sy'n oedolion.
157. Cynigiwn dair lefel o Ordal ar gyfer troseddwr ifanc:
- a. Ar gyfer rhyddhad amodol, £10 fyddai'r Gordal.
 - b. Ar gyfer dirwyon a dedfrydau cymunedol, £15 fyddai'r Gordal.
 - c. Ar gyfer dedfryd dan glo o unrhyw hyd, £20 fyddai'r Gordal.
158. Mae hyn yn adlewyrchu ein cynigion yng nghyswllt oedolion - sef, y dylai lefel y Gordal fod yn gymesur â difrifoldeb y ddedfryd. Dewis arall fyddai gorfodi Gordal haws ei weinyddu, ond llai gwahaniaethol, sef £15 ar bob dedfryd a roddid i droseddwr ifanc.

Cwestiynau ymgynghori

C31 A ddylid ymestyn y Gordal i ystod lawn y dedfrydau ar gyfer troseddwr ifanc?

C32 A ddylai'r Gordal i droseddwr ifanc gael ei bennu ar dair lefel: £10 ar gyfer rhyddhad amodol; £15 ar gyfer dirwyon a dedfrydau cymunedol; ac £20 ar gyfer cyfnod dan glo o unrhyw hyd?

Hysbysiadau Cosb Benodedig

159. Fel rhan o'i Fframwaith Strategol newydd ar gyfer Diogelwch y Ffyrdd,²¹ sy'n ceisio gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau ar ein ffyrdd, mae'r Adran Trafnidiaeth yn bwriadu cynyddu rhai Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau traffig er mwyn eu cysoni â chosbau eraill a roddir ar gyfer mân-droseddu.
160. Nid yw'r cosbau ar gyfer llawer o droseddau wedi cynyddu yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf. Mae'r lefelau presennol wedi llusgo ar ôl cosbau penodedig eraill ac felly mae perygl i'r troseddau gael eu hystyried yn ddibwys. Bwriedir cynyddu'r cosbau ar gyfer troseddau moduro megis gyrru'n rhy gyflym, diffyg rheoli cerbyd, defnyddio ffôn symudol, anwybyddu arwyddion a chroesfannau, a methu â gwisgo gwregys diogelwch. Bydd union swm y cynnydd yn dibynnu ar asesiad manwl o'r effaith a gâi'r cynnydd ar gyfraddau talu, ac ar ymgynghoriad cyhoeddus gan yr Adran Trafnidiaeth yn gynnar eleni.
161. Er mwyn sicrhau bod y troseddwr hyn yn cyfrannu at gost rhoi cymorth i ddioddefwyr, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo hyd at £30m y flwyddyn o'r arian a godid drwy gynyddu'r hysbysiadau cosb benodedig i roi cymorth i ddioddefwyr troseddau, gan gynnwys dioddefwyr troseddau traffig y ffyrdd.

Cryfhau'r lawndaliadau a Orchmynnir gan y Llys

162. Mewn achosion lle bydd dioddefwr amlwg sydd wedi dioddef niwed, difrod neu golled, mae gorchmynion iawndal yn un ffordd sydd wedi'i brofi i'r llys fynnu bod y troseddwr yn gwneud iawn ariannol uniongyrchol i'r dioddefwr.
163. Wrth ymgynghori ynglŷn â *Torri'r Cylch*, mynegwyd ein barn yn glir y gall gorchmyn iawndal fod yn ffordd effeithiol o sicrhau bod troseddwr yn gwneud iawn i'w ddioddefwr ac y dylid gweld gorchmynion o'r fath yn rhan hanfodol o ddedfryd gyffredinol. Drwy'r mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr, rydym yn cyflwyno dyletswydd bendant i'r llysoedd ystyried gwneud gorchmyn iawndal ym mhob achos cymwys.

²¹ Fframwaith Strategol ar gyfer Diogelwch y Ffyrdd - Cyhoeddiadau - Adran Trafnidiaeth cyhoeddwyd gan yr Adran Trafnidiaeth, 11 Mai 2011.

164. Lle y gorchmynnir iawndal yn rhan o'r ddedfryd, bydd hynny'n fwy o flaenoriaeth o ran gorfodi nac unrhyw elfen ariannol arall a orfodir. O dan y drefn gorfodi bresennol, bydd arian a delir i'r llys yn cael ei roi ar waith yn gyntaf er mwyn cyflawni gorchymyn iawndal, yna ar gyfer y Gordal i Ddiodefwyr, wedyn ar gyfer costau'r erlynydd, ac yn olaf ar gyfer dirwyon.
165. Bwriadwn geisio barn pobl ynglŷn â diwygiadau i orchmynion iawndal a gofynion ariannol eraill fel rhan o'n hymgynggori cyn bo hir ar ddedfrydau cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys cynigion i gynyddu gwerth gorchmynion iawndal ar gyfartaledd, megis diddymu'r terfyn £5,000 presennol ar orchmynion iawndal yn y llys ynadon.
166. Mae'n bosibl eisoes ei gwneud yn ofynnol i droseddwy'r wneud iawn uniongyrchol i 'w diodefwyr drwy orchymyn iawndal. Yn 2010/11, casglodd y llysoedd £30m o'r iawndal a dalwyd gan droseddwy'r i'w diodefwyr. Lle bo hynny'n briodol, gellir gorfodi gorchmynion iawndal sy'n daladwy i ddiodefwyr drwy godi gwarant atafaelu i gymryd asedau troseddwy'r. Fe all hyn helpu diodefwyr i gael yr iawndal y mae ganddynt yr hawl iddo. Bydd ein hymgynggoriad ar ddiwygio dedfrydau cymunedol yn cynnwys cynigion ar gyfer defnyddio atafaelu asedau'n amlach yn y fframwaith dedfrydu.

Rhan 2 - Digolledu diodefwyr troseddau treisgar ym Mhrydain Fawr a diodefwyr terfysgaeth dramor

Cyflwyniad

167. Ers 1964, mae cynllun wedi bod ar waith gan y wladwriaeth i dalu iawndal i ddiodefwyr troseddau treisgar. Tan 1996, gweinyddid cyfres o gynlluniau anstatudol gan y Bwrdd Digolledu am Anafiadau Troseddol. Roedd hwnnw'n dyfarnu iawndaliadau ar yr un sail ag y mae'r llysoedd, sef iawndaliadau'r gyfraith gyffredin, ar ôl cynnal asesiad unigol manwl. Daeth y Cynllun statudol cyntaf i rym yn 1996 ar ôl i Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 fynd drwy'r Senedd. Cafwyd Cynlluniau dilynol o dan yr un ddeddfwriaeth yn 2001 ac yn 2008.²²
168. Mae'r Cynlluniau statudol hyn wedi cael eu gweinyddu gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yng nghyswllt digwyddiadau ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Gwneir penderfyniadau gan swyddogion hawliadau, a hynny'n annibynnol ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae trefniadau ar wahân ar waith yng Ngoogledd Iwerddon.
169. Telir iawndal i ddiodefwyr troseddau treisgar er mwyn cydnabod cydymdeimlad y cyhoedd â'r diodefwyr yn ei boen a'i ddiodef. Telir y rhan fwyaf o'r taliadau hyn o dan **dariff anafiadau**. Mae'r tariff presennol yn cynnwys 25 o fandiau gyda'r anafiadau lleiaf difrifol ym mand un (e.e. torri un o fysedd y traed neu bryder dros dro) yn cael £1,000, a'r rhai mwyaf difrifol ym mand 25 (e.e. cwadriplegia a difrod i'r ymennydd) yn cael £250,000.
170. Gall diodefwyr wneud cais am daliadau ar gyfer colli enillion hefyd ac ar gyfer costau arbennig sy'n codi yn sgil gorfod addasu'r cartref, er enghraifft, neu gostau gofalu. Y mwyafswm y gall unrhyw un ei gael gan y Cynllun drwyddo draw (h.y. yn sgil cyfuno un neu fwy o'i dair elfen) yw £500,000. Mae'r Cynllun hefyd yn dyfarnu arian i ddibynnyddion ac i bobl sydd mewn profedigaeth mewn achosion lle bydd rhywun wedi'i ladd.
171. Gall swyddogion hawliadau leihau'r taliadau, ac mewn ambell achos, ddal taliad yn ôl os bydd gan yr ymgeisydd euogfarn droseddol sydd heb ddarvoud, a hynny ar sail graddfa lithr o ostyngiadau sy'n dibynnu ar hyd y ddeddfryd a'i math a pha bryd y'i cyhoeddwyd. Gellir gostwng y swm hefyd (hyd at werth llawn y dyfarniad) os bydd ymddygiad yr ymgeisydd wedi cyfrannu at y trosedd neu'r anaf a lle na fydd wedi cydweithredu â'r system cyfiawnder troseddol neu â'r Bwrdd Iawndaliadau.

²² Mae cyfeiriadau at "y Cynllun" yn cyfeirio at Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2008 <http://www.justice.gov.uk/guidance/compensation-schemes/cica> . Mae canllawiau I'r Cynllun ar gael hefyd drwy ddilyn y ddolen hon.

Diwygio'r Cynllun

172. Eisoës yn y ddogfen ymgynghori hon, cyflwynwyd y dadleuon ynglŷn â diwygio'r CICS a'r cyd-destun ariannol. Wrth lunio ein cynigion, yr ydym wedi ystyried nifer o egwyddorion. Sef:

- **Bod angen gwarchod y taliadau i'r rhieni yr effeithiwyd arnynt waethaf gan eu hanafiadau**, a mesurir hynny yn ôl difrifoldeb cychwynnol yr anaf, effeithiau parhaus neu barhaol yr anafiadau hynny, ac am ba hyd.
- **Sylweddoli bod y cyhoedd yn poeni am grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed a'r rheini sydd wedi dioddef troseddau arbennig o drallodus**, er nad yw'r anaf o reidrwydd yn amlwg, neu fod yr effeithiau'n arbennig o anodd eu mesur, er enghraifft ymosodiadau rhyw a cham-drin oedolion a phlant yn gorfforol.
- **Ystyried mathau eraill o ddarpariaeth**. Mae ein cynigion yn ystyried y gwasanaethau a'r adnoddau eraill sydd ar gael (e.e. budd-daliadau'r wladwriaeth) o bosibl i ddioddefwr er mwyn diwallu'r anghenion sy'n codi yn sgil yr anaf.
- **Gwneud y cynllun yn symlach ac yn haws i ddioddefwyr ei ddeall**. Mae ein cynigion yn egluro'r meini prawf cymhwysedd a'r dystiolaeth sydd ei hangen ar ddioddefwyr er mwyn gwneud cais i'r cynllun
- **Sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol, rhai domestig ac Ewropeaidd**, a'n bod wedi rhoi sylw dyledus, drwy ddadansoddi ac ymgynghori, i effeithiau'r rheini a warchodir o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, er enghraifft, pobl anabl, menywod a'r rheini sy'n perthyn i gymunedau lleiafrifoedd ethnig.²³

173. Wrth benderfynu ynglŷn â'r cynigion i ddiwygio'r Cynllun, mae Gweinidogion wedi ystyried pwysigrwydd cymharol yr egwyddorion hyn a sut y dylid eu tafoli. Byddant yn ystyried hyn rhagor yng ngoleuni'r ymateb a gânt i'r ymgynghori hwn.

174. Eglurir cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio yn y tudalennau a ganlyn. Dyma grynodedb lefel-uchel o'r cynigion hynny, sydd, yn ein barn ni'n gyson â'r egwyddorion a restrir uchod a'n hamcanion ariannol:

Cymhwysedd

Cynigiwn y dylai'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer hawlio arian dan y Cynllun fod yn rhai llym, fel bod yr arian a ddyfernir yn cael ei gyfyngu i'r bobl ddi-fai hynny sydd wedi dioddef yn sgil trosedd ac sy'n cydweithredu'n llawn â'r broses cyfiawnder troseddol, ac i berthnasau

²³ Y fframwaith cyfreithiol craidd yw Deddf Diogolledu am Anafiadau Troseddol 1995, Cyfarwydddeb 2004/80/CE sy'n ymwneud â digellu dioddefwyr troseddau; Confensiwn Ewrop ar Ddiogellu Dioddefwyr Troseddau Treisgar (COE Rhif 116 (1983)0; ac Erthygl 6 o'r Confensiwn ar Hawliau Dynol I'r graddau y mae'n berthnasol i geisiadau o dan y Cynllun.

agos dioddefwyr sy'n marw yn sgil eu hanafiadau. Dylai'r cysylltiad sydd gan ymgeiswyr â'r Deyrnas Unedig fod yn fwy na chysylltiad dros dro.

Y Tariff

Cynigiwn y dylid talu o dan y tariff i'r rheini yr effeithiwyd arnynt waethaf gan eu hanafiadau a'r rheini sydd wedi dioddef y troseddau mwyaf trallodus.

Colli Enillion

Cynigiwn y dylid gwneud taliadau am golli enillion ar sail sy'n llai gweinyddol gymhleth i'r rheini na allant weithio rhagor ac i'r rheini y cyfyngwyd yn sylweddol ar eu gallu i weithio.

Costau Arbennig

Cynigiwn y dylid parhau i dalu taliadau am gostau arbennig (er enghraifft, am gostau gofalu os nad oes arian ar gael o ffynonellau eraill i dalu am hyn) ac eithrio am ofal iechyd nad yw ar gael o dan y GIG.

Achosion Marwol

Cynigiwn y dylid gwarchod y dyfarniad ar gyfer profedigaeth, talu am angladd a thalu am wasanaeth rhiant. Cynigiwn y dylid gwneud taliadau i ddibynyddion pan fydd rhywun wedi marw yn unol â'n cynigion ar gyfer colli enillion.

Y Broses

Yr ydym am wneud y cynllun yn haws ei ddeall ac yn symlach i'w weinyddu. Mae'r cynigion ar gyfer gwella'r broses ymgeisio a chael dyfarniad yn cynnwys ei gwneud yn fwy clir pa dystiolaeth y bydd gofyn i'r ymgeisydd ei darparu fan leiaf er mwyn cyflwyno'i achos, a thynhau'r amgylchiadau lle bydd CICA yn talu'r costau sydd ynghlwm wrth gael tystiolaeth feddygol.

175. Byddwn yn awr yn manylu ar ein cynigion ar gyfer pob un o'r elfennau hyn yn y Cynllun:

Cymhwysedd

Cwmpas y Cynllun

176. Telir y rhan fwyaf o'r Taliadau o dan y Cynllun i ddioddefwyr "troseddau trais".²⁴ Mae'r term hwn wedi codi mewn un Cynllun ar ôl y llall, ac er nad oes iddo ystyr cyfreithiol pendant, mae'n gyffredinol ddealladwy. Gan amlaf, mae'n amlwg a yw ymgeisydd wedi dioddef trosedd trais neu beidio, ond mewn ambell achos anodd, efallai y bydd y sefyllfa'n llai clir.

177. Mae cwmpas y Cynllun yn fater o bolisi yn hytrach nag yn rhywbeth sy'n cael ei bennu'n uniongyrchol dan gyfraith droseddol a hwnna'n gymhleth ac yn agored i'w newid. Mae gwahaniaethau hefyd rhwng y gyfraith yng Nghymru a Lloegr a'r gyfraith yn yr Alban.

²⁴ Paragraff 8 (a) o'r Cynllun.

178. Prif bwrpas y Cynllun yw darparu taliadau ar gyfer y rheini sy'n dioddef anaf corfforol neu feddyliol difrifol o ganlyniad uniongyrchol i drosedd treisgar bwriadol, gan gynnwys troseddau rhyw, a hwythau'n ddiodefwyr diniwed. Y pwrpas hwn sy'n sail i'n holl gynigion, ac mae'n adlewyrchu'r Cynllun presennol.
179. Rhaid ystyried y Cynllun a'r holl amgylchiadau perthnasol ym mhob achos. Mae ein polisi yng nghyswllt cwmpas y Cynllun hefyd yn cynnwys yr egwyddorion hyn:
- Bydd trosedd trais gan amlaf yn cynnwys ymosodiad uniongyrchol, corfforol, gelyniaethus, yn erbyn person yn hytrach nag yn erbyn eiddo, a hwnnw'n achosi anaf meddyliol neu gorfforol yn y fan a'r lle.
 - Nid yw'r ffaith y gall gweithred fod yn drosedd yn dechnegol – hyd yn oed os yw'n drosedd sy'n arwain mewn rhyw fodd at anaf – yn golygu y bydd y trosedd yn bendant yn cael ei ystyried yn drosedd trais. Rhaid ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.
 - Mwyaf fydd y siawns bod gweithred rhywun yn arwain at anaf difrifol iawn, a mwyaf amlwg y dylasai hyn fod i'r troseddwr, mwyaf tebygol fydd hi y bydd rhywbeth sy'n dechnegol alluog o fod yn drosedd sy'n cael ei ystyried yn drosedd trais at ddiben y Cynllun. Ond ni fydd y ffaith syml bod rhywfaint o bosibilrwydd o rywfaint o niwed ynddo'i hun yn golygu bod trosedd o reidrwydd yn un drosedd trais.
 - Fe all bygwith ymosodiad fod yn drosedd trais petai'n golygu bod person rhesymol yn ofni ymosodiad corfforol yn y fan a'r lle a bod y diodefwyr mewn gwirionedd yn ofni hynny. Ni fyddai trosedd a gyflawnid o bell (e.e. harasio dros y ffôn neu'n electronig) fel rheol yn cael ei ystyried yn drosedd trais, oni bai fod bygythiadau uniongyrchol yn golygu bod y sawl a fygythir yn ofni niwed corfforol yn y fan a'r lle.

Fel rheol, rhaid bod trosedd wedi'i gyflawni

180. Mae'n bosibl gwneud taliadau o dan y Cynllun diwygiedig, ni waeth a oes rhywun wedi'i ddyfarnu'n euog o'r trosedd pan achoswyd yr anaf ai peidio. Mae hyn yn adlewyrchu'r Cynllun presennol lle bydd swyddog hawliadau'n asesu a yw'r ffeithiau wedi'u sefydlu wrth dafoli'r tebygolrwydd. Ond achos prin iawn fydd hwnnw lle y gwneir taliad ar gyfer amgylchiad nad oedd y digwyddiad yn drosedd troseddol am resymau cyfreithiol technegol.
181. Rhai enghreifftiau eithriadol fyddai lle byddai anaf yn digwydd yn sgil gweithred droseddol gan blentyn hyd yn oed lle na allai'r plentyn fod yn droseddol gyfrifol amdano. Fel rheol er hynny, ni thelir arian lle bydd anafiadau'n codi yn sgil risgiau y byddai rhywun yn disgwyl i'r rheini sy'n gyfrifol am blant eu gwarchod rhagddynt, er enghraifft, lle bydd anafiadau'n digwydd mewn sefyllfaoedd rheoledig (mewn ysgolion neu glybiau, neu lle y dylai fod goruchwyliaeth) neu yn sgil damweiniau a achosir gan blant. Ni thelir arian fel rheol i neb sy'n dioddef anaf sy'n digwydd wrth iddo gymryd rhan o'i wirfodd mewn gêm beryglus.

182. Ail eithriad fyddai lle byddai trosedd trais yn cael ei gyflawni gan droseddwr nad yw'n droseddol gyfrifol oherwydd abnormaledd meddyliol. Ni ddylid gwrthod taliadau i ddioddefwyr diniwed dim ond oherwydd y tybir nad yw'r ymosodwr yn gallu llunio'r bwriad o gyflawni trosedd. Yn yr un modd, efallai y telid arian lle na fyddai modd erlyn y sawl sy'n gyfrifol am yr anaf oherwydd bod ganddo imiwnedd diplomatig.

Digwyddiadau sy'n cael eu cynnwys yn benodol

183. Mae rhai troseddau eraill, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, y credwn y dylent bob tro gael eu hystyried yn droseddau trais. Y rheswm dros hyn yw na fyddent fel arall efallai'n cael eu hystyried yn dreisgar (yn yr ystyr bod grym corfforol uniongyrchol yn cael ei roi ar waith), ond eu bod ym mhob achos bron, serch hynny, yn debygol iawn o achosi, neu o greu risg ddifrifol iawn, o anaf corfforol difrifol. Y troseddau hynny – fel sy'n wir o dan y Cynllun presennol – yw cynnau tân bwriadol a gwenwyno.

184. Credwn ei bod yn bwysig cefnogi gwaith yr heddlu a'r dinasyddion unigol hynny sy'n cymryd camau i atal troseddu. Felly, cynigiwn y dylid parhau i ddyfarnu arian i'r rheini sydd wedi'u hanafu'n ddamweiniol wrth gymryd risg eithriadol yr oedd modd ei chyfiawnhau o dan yr amgylchiadau, naill ai wrth geisio dal troseddwr neu wrth helpu'r heddlu i wneud hynny.²⁵

Digwyddiadau sy'n cael eu heithrio'n benodol

185. Mae nifer o amgylchiadau na ddylent, er eu bod yn dechnegol yn cynnwys comisiynu trosedd troseddol, ym marn y Llywodraeth, fod yn drosedd trais at ddibenion y Cynllun. O dan y Cynllun presennol a'r Cynlluniau blaenorol, nid yw bob tro'n glir a yw'r sefyllfaoedd hyn yn 'droseddau trais'. Bwriadwn ei gwneud yn glir bod yr achosion hyn y tu allan i gwmpas y Cynllun diwygiedig, oherwydd fel mater o bolisi cyhoeddus, ni chredwn ei fod yn gyson â phrif bwrpas y Cynllun fel y'i nodir ym mharagraff 178 inni ddefnyddio arian trethdalwyr i dalu iawndal o dan y CICS yn yr achosion hyn.

186. Dyma'r mathau o amgylchiadau y bwriadwn eu heithrio:

- Troseddau sy'n gysylltiedig â thresmasu ar y rheilffordd, gan gynnwys hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad²⁶, y bwriadwn eu heithrio o'r Cynllun.
- Troseddau a gyflawnir gan yrrwr yng nghyswllt traffig y ffyrdd, ac eithrio lle y defnyddir cerbyd yn arf bwriadol i achosi anaf.²⁷ Ni fydd gyrru peryglus neu ddi-hid sy'n achosi anaf mewn amgylchiadau eraill yn arwain at daliad o dan y Cynllun. Mae hyn yn unol â'r polisi presennol.

²⁵ Paragraff 8(b) a 12 o'r Cynllun.

²⁶ Paragraff 8(b) a 9(d) o'r Cynllun.

²⁷ Paragraff 11 o'r Cynllun.

- Anafiadau a gaiff plant yn y groth wrth i'w mam yfed alcohol. Dyna'r polisi presennol.
- Lle bydd rhywun yn cael ei anafu'n ddamweiniol yn sgil digwyddiad ymyrrol (e.e. beiciwr sy'n mynd heibio'n cael ei daro oddi ar ei feic wrth i rywun gael ei daflu allan o dafarn). Dyma'r polisi presennol.
- Lle bydd ymosodiad llafar yn arwain yn ddiweddarach at rywun yn gwneud niwed corfforol i'w hun. Dyma'r polisi presennol.
- Lle bydd anifail wedi ymosod ar rywun, ac eithrio bod yr anifail ei hun wedi cael ei ddefnyddio'n fwriadol i anafu'r person hwnnw. Bydd hyn yn tynhau'r polisi presennol lle'r ystyriwyd hawliadau gan ymgeiswyr yr ymosodwyd arnynt gan gŵn peryglus nad oeddent yn cael eu rheoli'n iawn.
- Trydydd partion sy'n cael eu hanafu'n ddamweiniol yn sgil gweithred lle mai'r unig ddiben yw cyflawni hunanladdiad (e.e. os bydd rhywun yn neidio oddi ar adeilad a rhywun oddi isod yn gwrthdaro â rhywun arall ac yn ei frifo wrth geisio osgoi'r sawl sy'n cyflawni hunanladdiad). Dymunwn wneud safbwynt y Llywodraeth yn glir na ddylai amgylchiadau o'r fath gael eu hystyried yn "droseddau trais".
- Troseddau troseddol penodol, neu unrhyw weithgarwch rhywiol, y mae'r hawlydd wedi cydsynio iddynt, ond y tybir nad yw wedi cydsynio o dan y gyfraith droseddol.²⁸ Eglurir yr arfer presennol gyda golwg ar droseddau rhyw.²⁹ Bwriadwn barhau â'r arfer hwn yng nghyswllt gweithred gydsyniol gan ymestyn yr egwyddor i sefyllfa lle y bydd dioddefwr wedi cydsynio mewn gwirionedd i drosedd trais.

Cwestiynau ymgynghori

C33 Sut y dylem ddiffinio beth yw ystyr "trosedd trais" at ddibenion y Cynllun? Beth yw eich barn am yr amgylchiadau y bwriadwn eu cynnwys yn y diffiniad a'u heithrio ohono?

C34 Pa amgylchiadau eraill a ddylai, yn eich barn chi, fod yn "drosedd trais" neu na ddylent fod yn "drosedd trais" at ddibenion y Cynllun?

²⁸ Paragraff 9(c) o'r Cynllun.

²⁹ Dan y drefn fel y mae, tybir y bydd plentyn dan 13 sydd wedi dioddef ymosodiad rhyw yn gymwys i gael iawndal os riportir trosedd i'r heddlu a bod y plentyn yn cydweithredu cyn belled ag sy'n ymarferol rhesymol â'r System Cyfiawnder Troseddol. Rhwng 13 ac 15 oed, rhaid gwneud asesiad mwy anodd ym mhob achos. Ni ddylid talu iawndal am anafiadau troseddol yn sgil gweithgarwch rhywiol cydsyniol rhwng pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn sydd o oedran debyg a bod eu hamgylchaidau'n debyg. Serch hynny, mwyaf anghytbwys bydd perthynas rywiol sy'n cynnwys person ifanc, mwyaf tebygol yw hi y bydd ef neu hi'n dioddef niwed ac y dylai gael iawndal (ni waeth a yw wedi cydsynio neu beidio). Ffactorau y bydd swyddogion hawliadau'n eu hystyried wrth asesu hyn fydd oedran ac aeddfedrwydd emosynol (a'r gwahaniaeth yn y naill a'r llall), pa mor agored i niwed ydynt, realiti'r cydsynio ym mhob amgylchiad, a natur y berthynas rhwng y partion.

Cysylltiad â'r Deyrnas Unedig

187. Ar hyn o bryd, mae gan unrhyw un sy'n cael ei anafu gan drosedd trais tra'i fod ym Mhrydain Fawr³⁰ yr hawl i hawlio, oni fydd swyddogion hawliadau'n dal dyfarniad yn ôl neu'n lleihau'r dyfarniad ar sail ymddygiad, cymeriad neu am resymau penodol eraill.
188. Credwn y dylai fod gan bobl sy'n gwneud cais dan y Cynllun gysylltiad penodol â'r Deyrnas Unedig. Cynigiwn na ddylid ond rhoi iawndal i'r rheini sydd wedi bod yn byw'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig am chwe mis o leiaf adeg y digwyddiad. Credwn fod preswyllo am 6 mis fan leiaf yn dangos cysylltiad digonol â chymdeithas y Deyrnas Unedig, i'r graddau ei bod yn dal yn iawn iddynt fod yn gymwys i hawlio o dan y Cynllun. Cynigiwn y cyfnod hwn - sy'n fyrrach na'r cyfnod a bennir ar gyfer dioddefwyr terfysgaeth dramor - er mwyn cydnabod y ffaith bod yr anaf wedi digwydd ym Mhrydain Fawr. Y bwriad yw na fydd y rheini sydd yn y Deyrnas Unedig am gyfnod byr (h.y. llai na 6 mis) am ba reswm bynnag, yn gymwys bellach.
189. Er ein bod yn credu mai prawf preswyllo yw'r ffordd orau o benderfynu beth yw cysylltiad rhywun â'r Deyrnas Unedig, mae gennym nifer o ddyletswyddau rhyngwladol ac o dan yr UE sy'n golygu na fydd rhai pobl yn gorfod cydymffurfio â'r prawf newydd.
- Gwladolion yr UE ac Aelod Wladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop ac aelodau eu teuluoedd (sydd yn y Deyrnas Unedig yn unol â'u hawliau o dan gyfraith yr UE); a
 - Gwladolion (nad ydynt yn dod o fewn (a)) Gwladwriaethau sydd wedi llofnodi'r Confensiwn Ewropeaidd ar Ddigolledu Dioddefwyr Troseddau Treisgar;
 - Dioddefwyr troseddau 'masnachu mewn pobl' yn unol â Chyfarwyddyd yr UE 2011/36/UE ar atal masnachu mewn pobl, brwydro yn ei erbyn, a gwarchod dioddefwyr.
190. Gan fod y fframwaith cyfreithiol rhyngwladol presennol a fframwaith cyfreithiol yr UE eisoes yn mynnu ein bod yn talu arian i wladolion llawer o wledydd, cynigiwn hefyd na fydd yn rhaid i'r un dinesydd Prydeinig fodloni'r prawf preswyllo. Y rheswm dros hyn yw nad ydym yn credu y dylai dinasyddion Prydain wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cymhwyso ac y dylent fod ar yr un sail â gwladolion yr UE, Ardal Economaidd Ewrop a gwladolion penodol Cyngor Ewrop a fydd yn dal yn gymwys.
191. Yn olaf, cynigiwn y dylai aelodau'r lluoedd arfog sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, na fyddent fel arall yn gymwys ac na allant fodloni'r prawf preswyllo oherwydd eu bod yn gwasanaethu, fod yn gymwys hefyd. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn meddwl bod ganddynt gysylltiad â'r DU

³⁰ Paragraff 8(a) o'r Cynllun.

yn rhinwedd eu gwasanaeth a'i bod yn iawn, petaent yn cael eu hanafu yma, eu bod yn dal yn gymwys i hawlio.

192. Er mwyn cadw pethau'n syml o ran gweinyddu, dyddiad y digwyddiad fydd y dyddiad perthnasol ar gyfer penderfynu a fodlonir yr amod preswyllo ai peidio. Os bydd rhywun, ar ddyddiad y digwyddiad, wedi bod yn preswyllo yma am chwe mis ac wedi gadael y DU wedi hynny, ni fydd hynny'n effeithio ar ei gymhwysedd i hawlio.
193. Serch hynny, bydd ceiswyr lloches sydd wedi hawlio ar ddyddiad y digwyddiad ac y rhoddir statws ffoadur iddynt wedyn neu hawl amodol i aros, yn cael gwneud cais am ohirio'r penderfyniad ynghylch eu cais am iawndal nes bod mater eu statws fel ffoadur wedi'i setlo, ar yr amod eu bod yn cyflwyno'u cais i CICS o fewn dwy flynedd i'r digwyddiad yn unol â'r terfynau amser arferol ar gyfer hawlio. Gwrthodir hawliad ceiswyr lloches na roddir hawl iddynt aros yn y DU maes o law.
194. Pan fydd rhywun wedi marw, bydd angen i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth ac sy'n gwneud cais i'r Cynllun fodloni'r gofynion preswyllo yn yr un modd ag ymgeiswyr eraill. Serch hynny, nid ydym yn bwriadu rhoi'r amod preswyllo ar waith yng nghyswllt yr ymadawedig, cyn belled â bod y digwyddiad sy'n arwain at yr hawliad, fel sy'n wir ar hyn o bryd, wedi digwydd ym Mhrydain Fawr.
195. Yr ydym hefyd yn ystyried cynnig gwahanol, sef y dylai ymgeiswyr fod wedi bod yn gyfreithlon bresennol yn y DU o leiaf, adeg y digwyddiad. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r rheini a oedd yma'n anghyfreithlon yn cael iawndal, ond y byddai pawb arall, gan gynnwys ymwelwyr tymor byr, yn dal yn gymwys.

Cwestiynau ymgynghori

C35 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer iawndal, a ddylai ymgeiswyr orfod dangos cysylltiad â'r DU drwy fod wedi preswyllo yn y DU am gyfnod o chwe mis o leiaf adeg y digwyddiad?

C36 Beth yw eich barn am ein cynnig arall sef eithrio dim ond y rheini nad oeddent yn gyfreithlon bresennol yn y DU adeg y digwyddiad?

Adroddiadau a chydweithredu

196. Ar hyn o bryd, caiff swyddog hawliadau ddal dyfarniad yn ôl neu leihau dyfarniad o dan y Cynllun ³¹ lle bydd:

- Yr ymgeisydd heb gymryd camau rhesymol yn ddi-oed i riportio'r trosedd i'r heddlu neu i ryw gorff priodol arall.
- Yr ymgeisydd heb gydweithredu â'r broses cyfiawnder troseddol.

³¹ Paragraff 13 o'r Cynllun.

- Yr ymgeisydd heb gynorthwyo CICA neu ryw gorff arall gyda'i hawliad.

197. Bwriadwn wneud hyn:

- Egluro a chryfhau'r darpariaethau riportio, gan fynnu ei bod yn rhaid riportio'r trosedd wrth yr heddlu (yn hytrach nag wrth unrhyw gorff arall) cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad, oni fydd y swyddog hawliadau'n fodlon na ddylai'r rheolau arferol ynghylch amseru fod yn berthnasol oherwydd oedran neu allu meddyliol yr ymgeisydd neu oherwydd amgylchiadau penodol sy'n berthnasol i'r digwyddiad. Byddai hyn yn cynnwys achosion lle bydd trawma yn sgil trosedd rhyw wedi bod yn gyfrifol am oedi cyn riportio'r trosedd wrth yr heddlu.
- Mynnu bod yr ymgeisydd yn cydweithredu cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol o ran dod ag ymosodwr gerbron cyfiawnder (er enghraifft, drwy gytuno i fod yn dyst mewn treial) er mwyn bod yn gymwys am unrhyw ddyfarniad. Rhai o'r pethau y gellid eu hystyried wrth benderfynu pa gydweithrediad sy'n rhesymol ymarferol i'r dioddefwr fyddai ei oedran a'i gallu meddyliol neu gorfforol.
- Cadw at y darpariaethau sy'n caniatáu i swyddogion hawliadau ddal dyfarniad yn ôl neu ei leihau lle na fydd ymgeisydd wedi cydweithredu wrth benderfynu ynglŷn â'r hawliad. Bydd hyn yn cynnwys (fel y mae ar hyn o bryd) peidio ag ymateb i ohebiaeth gan CICA a anfonir i'r cyfeiriad diweddaraf a ddarparwyd gan yr ymgeisydd.

198. Os na chaiff y digwyddiad ei riportio wrth yr heddlu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad (ac eithrio fel y disgrifir uchod) neu os na fydd yr ymgeisydd yn cydweithredu, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol iddo wneud, o ran dwyn yr ymosodwr gerbron cyfiawnder, cynigiwn na ddylid rhoi dyfarniad.

Cwestiynau ymgynghori

C37 Beth yw eich barn am ein cynnig i beidio â rhoi dyfarniad:

- Os na chaiff trosedd ei riportio wrth yr heddlu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol?
- Os na fydd yr ymgeisydd yn cydweithredu cyn belled ag sy'n ymarferol o ran dod â'r ymosodwr gerbron cyfiawnder?

C38 Pa bethau y dylid eu hystyried wrth benderfynu beth sy'n rhesymol ymarferol i'r ymgeisydd gyda golwg ar riportio'r digwyddiad a chydweithredu â'r system cyfiawnder troseddol?

C39 A ydych chi'n cytuno y dylai fod eithriad i'r rheol y dylai'r digwyddiad gael ei riportio cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol mewn achosion penodol? Pa achosion ddylai'r rhain fod?

Lle y gallai'r ymosodwr fod ar ei ennill neu lle bydd yr ymgeisydd o dan 18 oed

199. Ar hyn o bryd, fe gaiff swyddog hawliadau ddal dyfarniad yn ôl os bydd yn credu y gallai hynny fod er budd gorau'r plentyn.³² O safbwynt ymarferol, defnyddir hyn yn bennaf mewn achosion lle'r achoswyd anaf rhywiol neu gorfforol i blentyn ifanc iawn a lle nad oes effaith tymor hir.
200. Cynigiwn newid y rheol hon er mwyn peidio ag amddifadu plant sydd wedi dioddef y trosedd rhag cael dyfarniad a allai eu helpu'n ddiweddarach yn eu bywyd. Gellir rhoi dyfarniad mewn ymddiriedaeth, ac fe all y teulu neu ofalwyr y plentyn esbonio tarddiad y dyfarniad, fel y gwelont yn dda, pan fydd yr amser yn iawn.

Cwestiwn ymgynghori

C40 Beth yw eich barn am ein cynnig i roi dyfarniad lle y tybid gynt y byddai yn groes i fuddiannau'r ymgeisydd (e.e. mewn achosion lle y cafodd plentyn ifanc iawn anaf rhywiol neu gorfforol)?

Ymddygiad

201. Cynigiwn y dylid cadw at yr hawl i ddal dyfarniad yn ôl neu ei leihau oherwydd bod ymddygiad yr ymgeisydd cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad neu ar ôl y digwyddiad yn golygu nad yw'n briodol rhoi dyfarniad.³³
202. Cynigiwn hefyd mai'r unig adeg y bydd defnyddio alcohol neu gyffuriau'n cael ei ystyried yn sail ar gyfer lleihau dyfarniad neu ar gyfer ei ddal yn ôl fydd pan fydd hynny wedi cyfrannu at yr anaf neu at ei effeithiau, ac na ddylid dal y taliad hwnnw yn ôl na'i leihau dim ond oherwydd bod alcohol neu gyffuriau wedi golygu bod ymgeisydd yn fwy agored i ymosodiad. Credwn fod hyn yn arbennig o berthnasol yn achos dioddefwyr trais rhywiol, ac, wrth egluro ein polisi fel hyn, rydym yn ystyried argymhellion adolygiad annibynnol y Farwnes Stern ynglŷn â sut y caiff cwynion ynglŷn â thrais eu trin gan awdurdodau cyhoeddus.³⁴

Euogfarnau blaenorol

203. Bwriad y cynllun erioed oedd iddo fod er budd dioddefwyr troseddau trais O dan y Cynllun presennol, fe all swyddog hawliadau ddal dyfarniad yn ôl neu ei leihau ar sail cymeriad yr ymgeisydd – gwneir yr asesiad hwn ar sail tystiolaeth cofnod troseddol ymgeisydd neu dystiolaeth arall sydd ar gael i'r swyddog hawliadau. Nid yw euogfarnau sydd wedi darfod o dan

³² Paragraff 16(b) o'r Cynllun.

³³ Paragraff 13(1)(d) a (14)(2) o'r Cynllun.

³⁴ Adolygiad Stern (2010): Adroddiad gan y Farwnes Vivien Stern CBE ar adolygiad annibynnol o sut y bydd awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn ymdrin â chwynion ynglŷn â thrais rhywiol.

Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ar ddyddiad y cais neu'r farwolaeth yn cyfrif at ddibenion y rheol hon.³⁵

204. O safbwynt ymarferol, bydd swyddogion hawliadau'n defnyddio system pwyntiau sy'n seiliedig ar y ddeddfyd ac ar yr amser sydd wedi mynd heibio ers ei gorfodi er mwyn penderfynu a yw'n briodol lleihau dyfarniad neu ei wrthod, ac, os felly, pa effaith y dylai ei chael ar y dyfarniad. O dan amgylchiadau eithriadol, gall swyddogion hawliadau benderfynu ddal i roi dyfarniad neu roi dyfarniad is y tu allan i'r system pwyntiau.

205. Cynigiwn y dylid tynhau'r darpariaethau presennol ynglŷn ag euogfarnau troseddol ymgeisydd sydd heb ddarfod. Dyma'r opsiynau yr ydym wedi'u hystyried:

- **Opsiwn A:** dylai pawb sydd ag euogfarn droseddol nad yw wedi darfod gael ei eithrio rhag hawlio o dan y Cynllun, a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y ceid gwyro oddi wrth y rheol hon. Bydd y rheini y mae ganddynt euogfarnau sydd wedi darfod o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ar ddyddiad y cais neu'r farwolaeth yn dal yn gymwys i hawlio.
- **Opsiwn B:** Eithrio o'r Cynllun y rheini sydd ag euogfarn nad yw wedi darfod am droseddau a allai arwain at ddyfarniad o dan y Cynllun (sef, troseddau treisgar neu droseddau rhyw). Byddai modd o hyd i swyddog hawliadau leihau dyfarniad neu ddal yn ôl ddyfarniad y rheini ag euogfarn sydd heb ddarfod ar gyfer troseddau eraill oni bai fod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau rhoi'r dyfarniad llawn neu ddyfarniad rhannol.

Byddai'r gostyngiadau ar gyfer euogfarnau eraill sydd heb ddarfod yn cael eu seilio ar y ffactorau a ganlyn, fel y gwneir ar hyn o bryd:

- natur y trosedd;
- y ddeddfyd a basiwyd ar gyfer y trosedd;
- faint o amser sydd wedi mynd heibio ers pasio'r ddeddfyd;
- yr amgylchiadau a arweiniodd at yr honiad.

206. Yr ydym yn ffafrio Opsiwn A. O dan yr opsiwn hwn, yr ydym hefyd yn cynnig cynnwys hawl i wyro oddi wrth y rheol hon o dan amgylchiadau eithriadol. Byddai hyn yn golygu y gallai'r swyddog hawliadau roi dyfarniad llawn neu ddyfarniad is i ymgeisydd lle byddai natur eithriadol yr achos yn golygu y byddai'n anghyfiawn peidio â gwneud hynny. Mater i swyddogion hawliadau fydd penderfynu ynghylch hyn ond rhagwelwn y gellid defnyddio'r hawl honno i benderfynu, er enghraifft, lle yr ymosodwyd ar y dioddefwr wrth iddo geisio atal trosedd neu lle'r oedd y dioddefwr wedi troseddu'n ddifrifol yn ystod ei ieuenctid (gan arwain at gyfnod o fwy na 30 mis yn y carchar, sy'n golygu nad oes byth modd i'w

³⁵ Paragraff 13(1)(e) a 14(3) o'r Cynllun. Nid yw'n fwriad gennym newid y rheol y gellir ystyried tystiolaeth arall ynglŷn â chymeriad.

heuogfarn ddarfod) ond iddo ddangos ei fod wedi diwygio'n llwyr wrth fynd yn hŷn.

207. Sylweddolwn y gallai ein cynigion ar gyfer rheolau'r Cynllun ynglŷn ag euogfarnau sydd heb ddarfod, er eu bod yn datblygu'r ddarpariaeth bresennol, effeithio'n benodol ar y rheini sydd ag euogfarnau cymharol fach ar eu record a'r rheini heb ddarfod. Serch hynny, credwn fod angen rheolau llymach. Cyfleu cydymdeimlad y cyhoedd y mae'r Cynllun ac fe delir amdano gan drethdalwyr. Mae'n rhesymol felly y dylid cael meini prawf llym i benderfynu pwy a ystyrir yn "ddi-fai" at ddiben penderfynu pwy a ddylai gael cyfran o'r gronfa brin. Mewn egwyddor, credwn mai dim ond i'r rheini sydd eu hunain wedi cadw'r gyfraith ac heb gostio arian i'r gymdeithas drwy eu hymddygiad troseddol a ddylai gael dyfarniad. Bydd mân euogfarnau, o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn darfod (ac felly ni fyddant yn cyfrif rhagor at ddibenion y Cynllun) ar yr amod na fydd y troseddwr yn aildroseddu.
208. Gwahoddwn yr ymgylgoreion i fynd i'r afael ag effeithiau posibl pob opsiwn yn y cwestiynau isod. Byddem yn disgwyl i Opsiwn A (eithrio pob un o'r rheini ag euogfarn sydd heb ddarfod rhag hawlio o dan y cynllun) arbed rhwng £4 miliwn a £5 y flwyddyn. Byddai Opsiwn B yn arbed llai, er nad oes modd mesur yr union swm.

Darpariaethau ynglŷn â Chymeriad mewn Achosion Marwol

209. Cynigiwn newid yr arfer presennol o ystyried euogfarnau blaenorol yr ymgeisydd a'r ymadawedig pan fydd anaf marwol wedi digwydd.³⁶ Cynigiwn, yn gyffredinol, na ddylai cymeriad yr ymadawedig fod yn berthnasol. Ac ystyried y cynigion i dynhau'r darpariaethau presennol ynglŷn ag euogfarnau sydd heb ddarfod, credwn y byddai parhau i ystyried cymeriad yr ymadawedig ym mhob achos yn annheg ar ymgeiswyr di-fai a oedd yn dibynnu ar yr ymadawedig. Serch hynny, byddem yn dal i ystyried cymeriad ymgeiswyr mewn achosion marwol o dan naill ai Opsiwn A neu B.
210. Serch hynny, bwriadwn roi'r hawl i wyro oddi wrth y rheol hon o dan amgylchiadau eithriadol lle'r oedd euogfarnau'r ymadawedig mor ddifrifol nes y byddai talu am eu hangladd, neu wneud taliadau eraill mewn achosion marwol, yn cael ei ystyried yn amhriodol (er enghraifft petasent yn bwrw dedfryd oes eu hunain neu fod ganddynt euogfarnau sydd heb ddarfod am droseddau rhyw difrifol yn erbyn plant).

³⁶ Paragraff 37 o'r Cynllun.

Cwestiynau ymgynghori

- C41 Beth yw eich barn am yr opsiynau gyda golwg ar gyfyngu'r cymhwysedd ar gyfer y cynllun i'r rheini sydd ag euogfarnau heb ddarfod:
- Opsiwn A, ein hoff opsiwn, eithrio o'r Cynllun bawb ag euogfarn droseddol sydd heb ddarfod? Neu
 - Opsiwn B, eithrio pawb ag euogfarn droseddol sydd heb ddarfod am droseddau a allai arwain at ddyfarniad o dan y Cynllun (h.y. troseddau treisgar a throseddau rhyw), gyda'r hawl i ddal dyfarniad yn ôl neu ei leihau ar gyfer euogfarnau eraill sydd heb ddarfod?
- C42 O dan opsiwn A, pa amgylchiadau sy'n eithriadol yn eich barn chi a fyddai'n golygu y gallai fod yn briodol i swyddogion hawliadau ddefnyddio'u hawl i wyro oddi wrth y rheol gyffredinol ynglŷn ag euogfarnau sydd heb ddarfod?
- C43 A oes unrhyw effaith arall y credwch y dylem ei hystyried wrth lunio ein polisi ar euogfarnau sydd heb ddarfod, ac unrhyw hawl i wyro oddi wrth y rheol gyffredinol?
- C44 Beth yw eich barn am ein cynnig i anwybyddu euogfarnau'r ymadawedig mewn hawliadau profedigaeth?
- A ddylid rhoi'r hawl i swyddogion hawliadau wyro oddi wrth y rheol hon a dal taliadau yn ôl os oedd gan yr ymadawedig euogfarnau difrifol iawn?
 - Os felly, pa euogfarnau y dylem eu hystyried yn ddifrifol iawn at y diben hwn?


Tariff anafiadau a throseddau

211. Mae'r tariff yn rhestru taliadau i gydnabod poen a dioddef y dioddefwr.³⁷ Seilir y tariff presennol ar fandiau o anafiadau neu droseddau a'r rheini wedi'u grwpio'n unol â difrifoldeb cymharol yr anaf a gafwyd. Mae'r difrifoldeb yn cynyddu'n raddol o'r naill fand i'r nesaf, gyda'r anafiadau lleiaf difrifol ym Mand 1 a'r mwyaf difrifol ym Mand 25. Cyflwynwyd y tariff yn 1996, ar ôl rhoi Deddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 ar waith. Seiliwyd y gwerth a roddir ar wahanol fathau o anafiadau ar sail dadansoddi oddeutu 20,000 o benderfyniadau a setlwyd gan y Bwrdd Digolledu am Anafiadau Troseddol ar sail iawndaliadau cyfraith gyffredin. Roedd y tariff anafiadau a luniwyd yn sgil hynny'n adlewyrchu arferion y gorffennol i raddau helaeth mewn asesiadau cyfraith gyffredin. Y gwahaniaeth mawr iawn oedd bod dyfarniadau o dan y tariff yn rhai penodedig. Ni chânt eu cynyddu neu eu lleihau i gydnabod amgylchiadau penodol achosion unigol. Newidiwyd y tariff yn 2001 ac yn 2008.³⁸

³⁷ Paragraff 26–29 o'r Cynllun.

³⁸ Roedd y newidiadau yn 2001 yn cynnwys cynyddu'r dyfarniadau ar gyfer troseddau rhyw, newid y fformiwla a ddefnyddid i gyfrifo dyfarniadau i bobl a gafodd fwy nag un anaf a newid

212. Nod ein cynigion yw sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod y rhai sydd wedi'u hanafu waethaf a gostwng cost gyffredinol y Cynllun.
213. Cynigiwn y dylid gwarchod dyfarniadau'r tariff ar eu lefelau presennol yng nghyswllt achosion marwol, troseddau rhyw a phatrymau cam-drin corfforol, a cholli ffetws.
214. Cynigiwn ddiwygio'r tariff yng nghyswllt anafiadau corfforol a meddyliol drwy ddileu bandiau 1- 5, lleihau maint y dyfarniadau ym mand 6- 12 a gwarchod y dyfarniadau ar gyfer y 13 band uchaf - dros hanner bandiau'r tariff presennol - yn eu cyfanrwydd.
215. O dan ein cynigion, dyma sut olwg fyddai ar fandiau'r tariffiau diwygiedig a'r dyfarniadau sy'n cyfateb iddynt:



y meini prawf cymhwyso ar gyfer achosion marwol i gynnwys partneriaid cyfunrywiol a lesbiaidd. Roedd y newidiadau yn 2008 yn cynnwys cysoni'r disgrifiadau o'r dyfarniadau ar gyfer troseddau rhyw â'r derminoleg yn Neddf Troseddau Rhyw 2003, y dyfarniadau uwch am anafiadau i ddannedd ac ailwampio'n sylweddol yr adran sy'n ymdrin â difrod i'r ymennydd er mwyn cydnabod ystod eang anafiadau i'r ymennydd.

Bandiau	Hen dariff	Tariff newydd	Y ganran y cynigir ei gwarchod
1	£1,000	£0	0%
2	£1,250	£0	0%
3	£1,500	£0	0%
4	£1,750	£0	0%
5	£2,000	£0	0%
6	£2,500	£1,000	40%
7	£3,300	£1,500	45%
8	£3,800	£1,800	47%
9	£4,400	£2,400	55%
10	£5,500	£3,500	64%
11	£6,600	£4,600	70%
12	£8,200	£6,200	76%
13	£11,000	£11,000	100%
14	£13,500	£13,500	100%
15	£16,500	£16,500	100%
16	£19,000	£19,000	100%
17	£22,000	£22,000	100%
18	£27,000	£27,000	100%
19	£33,000	£33,000	100%
20	£44,000	£44,000	100%
21	£55,000	£55,000	100%
22	£82,000	£82,000	100%
23	£110,000	£110,000	100%
24	£175,000	£175,000	100%
25	£250,000	£250,000	100%

216. Esbonnir y rhesymau dros ein cynigion yn fwy manwl isod.

Anafiadau llai difrifol (bandiau 1 i 5)

217. Ni chredwn mai iawndaliadau bychain ar ôl digwyddiad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o helpu diodefwyr i ymdopi ag effeithiau trosedd. Bydd y GIG yn darparu ar gyfer anafiadau llai difrifol a byddwn yn buddsoddi rhagor o arian mewn gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr, a'r rheini ar gael yn y man lle mae eu hangen. Credwn, fel y nodwyd yn Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori hon, ei bod yn well gwario adnoddau ar wasanaethau uniongyrchol i ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, y rhai a dargedir dro ar ôl tro a'r rhai agored i niwed. Fel y trafodwyd gynt yn Rhan 1, ein nod fydd codi hyd at £50m gan droseddwr i dalu am wasanaethau newydd. Cynigiwn ostwng y gyllideb digolledu ddomestig oddeutu'r un faint er mwyn ysgafnhau'r baich ar drethdalwyr gan wario'r un faint drwyddi draw ar ddiodefwyr.

218. Cynigiwn ddileu'r bandiau tariff 1- 5 yn gyfan gwbl (ac eithrio yng nghyswllt troseddau rhyw a phatrymau cam-drin corfforol). Mae'r bandiau hyn yn cynnwys yr anafiadau llai difrifol yn y Cynllun a dyfarniadau am fwy nag un mân anaf. Ar fand 6 mae'r anafiadau'n mynd yn fwy difrifol ac fe gânt eu disgrifio felly: er enghraifft disgrifir ysigo ffêr ym mand 5 fel anaf sy'n anablu rhywun am 6 - 13 wythnos, tra bo ysigo ffêr ym mand 6 yn anablu rhywun am fwy na 13 wythnos. At hynny, ni fydd yr anafiadau ym mandiau 1 - 5 yn gyffredinol yn cael effaith gorfforol am gyfnod hir ond petaent yn arwain at effeithiau seicolegol sy'n para'n hir, fe allai dioddefwyr ddal i hawlio am eu hanaf meddyliol. Credwn fod yr anafiadau ym mand 6 ac uwch yn fwy tebygol o fod yn ddifrifol na'r rheini yn y bandiau is neu o gael effaith sy'n para'n hwy. Cynigiwn y dylid cadw'r anafiadau sydd yn y tariff ond talu cyfradd is nag a delir ar hyn o bryd i'r rheini sy'n dod o fewn bandiau 6-12.

Anafiadau'r tariff canol (bandiau 6 - 12)

219. Cynigiwn y dylid lleihau maint y dyfarniadau ar gyfer anafiadau ym mandiau presennol 6 - 12 y tariff mewn cyfrannedd i'w difrifoldeb cymharol (gweler y tabl uchod). Fel yr awgryma'r tabl, byddai anaf ym Mand 6, y dyfernir £2,500 ar ei gyfer ar hyn o bryd, yn cael £1,000, tra bo anaf ym mand 12, sydd ar hyn o bryd yn cael dyfarniad o £8,200, yn cael dyfarniad o £6,200.

Yr anafiadau mwyaf difrifol (bandiau 13 - 25)

220. Cynigiwn y dylid gwarchod taliadau'r tariff ar gyfer pob anaf sydd ar hyn o bryd ym mand 13 ac uwch. Pwrpas tynnu'r llinell yn y fan hon yw ein galluogi i warchod taliadau, yn eu crynswth, mewn mwy na hanner bandiau'r tariff presennol, gan ganolbwyntio'r gostyngiad ariannol yn y tariff ar y bandiau is a chanolig, lle, o safbwynt cymharol, y mae'r anafiadau'n llai difrifol. Bydd y rhan fwyaf helaeth o'r anafiadau ym mandiau 13 ac uchod yn wynebu effeithiau difrifol sydd naill ai'n rhai tymor hir neu'n barhaol. Er enghraifft, bydd dyfarniadau ar gyfer niwed i'r ymennydd, ac eithrio niwed bychan a niwed cyfnod byr, yn dod o fewn bandiau 15 ac uwch; am fyddardod llwyr (mewn un glust) ym mand 15; am golli golwg (mewn un llygad) ym mand 17; a bydd parlys difrifol yn dod o fewn bandiau 21 i 25. Ymdrinnir yn llawn â'n cynigion ar gyfer troseddau rhyw isod, ond mae trais rhywiol ar hyn o bryd hefyd yn dod o fewn band 13, gan ddangos difrifoldeb cymharol anafiadau a throseddau ar y lefel honno yn y tariff.

Gwarchod dyfarniadau i ddioddefwyr cam-drin rhywiol a chorfforol³⁹

221. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall dioddefwyr troseddau rhyw ddioddef ystod eang o effeithiau sy'n mynd y tu hwnt i'r corfforol a'r seicolegol, gan

³⁹ Paragraff 9 ac 17 o'r Cynllun.

gynnwys bod ansawdd eu bywyd yn gwaethygu, problemau o ran eu perthynas â phobl a thralod emosiynol sy'n para'n hir.⁴⁰ Credwn fod y cyhoedd yn ystyried y troseddau hyn yn rhai arbennig o ddifrifol ac mae gwaith ymchwil yn ategu hyn⁴¹ gan awgrymu bod pobl yn fwy awyddus i osgoi trais rhywiol na thrais corfforol. Credwn fod yr effaith ehangach hon ar ddioddefwyr a lefel pryder y cyhoedd yn golygu bod y troseddau hyn yn rhai arbennig o bwysig. Felly, credwn y dylid gwarchod dyfarniadau yng nghyswllt troseddau rhyw'n benodol, ym mha le bynnag y maent yn ymddangos yn y tariff ar hyn o bryd.

222. Credwn hefyd fod anafiadau sy'n codi yn sgil patrymau cam-drin corfforol, megis trais domestig, cam-drin plant, neu gam-drin oedolion mewn cartrefi gofal, yn ddifrifol yn yr un modd ac y gallant gael effaith sylweddol a helaeth ar ddioddefwyr. Yn sgil ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o drais domestig, ynghyd ag achosion diweddar o gam-drin plant yn gorfforol a cham-drin sefydliadol, wedi awgrymu bod y cyhoedd yn poeni'n arw am y tor-ymddiriedaeth arbennig sy'n digwydd lle bydd oedolion agored i niwed a phlant yn dioddef yn sgil troseddu a hynny mewn man lle y dylent fod yn ddiogel - yn eu cartrefi hwy eu hunain. Ac ystyried natur yr hawliadau ar gyfer y dyfarniad hwn, cynigiwn y dylid ei gwneud yn glir yn y pennawd yn y tariff ar gyfer cam-drin oedolion yn gorfforol, y caiff dioddefwyr trais domestig sy'n dioddef cyfres o ymosodiadau wneud cais am iawndal o dan y categorïau hyn o ddyfarniadau.

223. Felly, cynigiwn y dylid cadw at lefel bresennol y dyfarniadau, ym mha fand bynnag, ar gyfer anafiadau yn sgil troseddau rhyw a cham-drin corfforol (mae'r rhain yn amrywio o fân weithredodd rhywiol corfforol sydd ar hyn o bryd ym mand 1 i batrymau cam-drin ailadroddus a difrifol sydd ym mand 12). Mae'r troseddau rhyw mwyaf difrifol, gan gynnwys trais rhywiol, ar hyn o bryd ym mandiau 13 ac uwch, lle'r ydym eisoes yn bwriadu gwarchod yr holl ddyfarniadau yn eu crynswth.⁴²

Gwarchod dyfarniadau'r tariff mewn achosion marwol

224. Yr ydym wedi ystyried sefyllfa benodol iawn y rheini sy'n colli anwylyd yn sgil trosedd trais. Credwn ei bod yn iawn, gan fynegi cydymdeimlad y cyhoedd, inni warchod y taliadau hyn ar eu lefel bresennol. (Gweler paragraffau 242 i 244). Yr ydym yn cynnig hefyd y dylid estyn yr

⁴⁰ Romans et al (1997) Childhood sexual abuse and later psychological problems: neither necessary, sufficient nor acting alone. *Criminal Behaviour and Mental Health*; Resick (1993) The psychological impact of rape. *Journal of Interpersonal Violence* 8(2).

⁴¹ Wolfgang et al. (1985) *The National Survey of Crime Severity*; Miller et al. (1993) *Victim Costs of Violent Crime and Resulting Injuries*; Dolan et al. (2005) *Estimating the Intangible Victim Costs of Violent Crime*.

⁴² Bydd dyfarniadau ar gyfer anafiadau meddyliol, a all godi yn sgil trosedd treisgar neu drosedd rhyw, yn dod o dan y cynnig diwygio a ddisgrifir ym mharagraffau 211 i 200 (dileu bandiau 1-5; gostwng bandiau 6-12 a gwarchod band 13 ac uwch).

egwyddor hon i warchod lefel y dyfarniad ar gyfer colli ffetws, boed hynny yn sgil trosedd rhyw ynteu drosedd treisgar.

Newidiadau eraill a gynnigir i'r tariff

225. Telir iawndal i rywun sydd wedi cael sawl anaf o dan y fformiwla a ganlyn: Telir am yr anaf uchaf ei 'radd' yn llawn, telir 30% o werth y tariff am yr ail anaf, a thelir 15% o werth y tariff am y trydydd anaf.⁴³ Serch hynny, os bydd rhywun yn cael anaf corfforol ac anaf meddyliol a bod y swm a delir am yr anaf corfforol yn uwch, ni thelir dyfarniad am yr anaf meddyliol hefyd. Bwriadwn ddiwygio'r rheol hon a rhoi'r fformiwla ar gyfer mwy nag un anaf ar waith mewn achosion lle bydd yr anaf corfforol a'r anaf meddyliol yn ddigon difrifol i'w rhestru yn y tariff.
226. Lle bydd ymgeisydd yn hawlio am anaf nad yw wedi'i restru yn y tariff ond sydd yr un mor ddifrifol â'r rheini sy'n dal yn y tariff, byddwn yn galluogi swyddogion hawliadau i dalu hyd at swm llawn dyfarniad y tariff i ymgeisydd sydd fwyaf priodol, i bob golwg, ar gyfer yr anaf dan sylw, tra bo diwygiadau i'r Cynllun i gynnwys yr anaf yn cael eu hystyried (yn hytrach na hanner y tariff a gynnigir yn y Cynllun presennol).⁴⁴

Effaith y newidiadau arfaethedig

227. Amcangyfrifwn y bydd ein newidiadau arfaethedig i'r tariff yn arbed rhwng £35m a £45m bob blwyddyn os byddwn yn gwarchod taliadau sy'n berthnasol i droseddau rhyw a phatrymau cam-drin corfforol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y symiau a delir ar hyn o bryd a'r nifer sy'n cael y symiau hynny ym mhob band yn **Atodiad B**.

Cwestiynau ymgynghori

C45 Beth yw eich barn am ein diwygiadau arfaethedig i'r tariff:

- Dileu dyfarniadau am anafiadau ym mand 1 i 5 o'r tariff ac eithrio yng nghyswllt troseddau rhyw a phatrymau cam-drin corfforol?
- Gostwng y dyfarniadau ym mandiau 6 i 12 o'r tariff ac eithrio yng nghyswllt troseddau rhyw, patrymau cam-drin corfforol, achosion marwol a cholli ffetws?
- Gwarchod pob dyfarniad ym mand 13 ac uwch?

C46 A ydych chi'n credu y dylem warchod dyfarniadau'r tariff ar gyfer troseddau rhyw, patrymau cam-drin corfforol, profedigaeth a cholli ffetws ac ail-gategoreiddio'r dyfarniad ar gyfer patrymau cam-drin corfforol er mwyn ei gwneud yn glir y caiff diodefwyr trais domestig hawlio?

⁴³ Paragraff 27 o'r Cynllun.

⁴⁴ Paragraff 29 o'r Cynllun.

Colli Enillion

228. O dan y Cynllun, gellir rhoi taliad i ymgeiswyr sydd wedi colli enillion neu wedi colli eu gallu i ennill am fwy nag 28 wythnos.⁴⁵ Fe all cyfrifo'r swm fod yn gymhleth oherwydd seilir y taliadau ar y golled go iawn (net o drethi, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn) ac fe'u seilir hefyd ar enillion cyn y digwyddiad gan dynnu unrhyw incwm a gafwyd ar ôl y digwyddiad (fel rheol, bydd y didyniadau hyn yn cynnwys budd-daliadau'r wladwriaeth ac unrhyw bensiwn sy'n gysylltiedig â chyflogaeth).
229. Mae hawliadau colli enillion yn cynnwys dau fath o daliad. Telir am 'Enillion a gollwyd yn y gorffennol' ar ôl y 28 wythnos gyntaf o golli enillion (ac fe seilir hyn ar y pwynt lle bydd tâl salwch statudol yn dod i ben) hyd at y dyddiad pan benderfynir ynglŷn â'r hawliad. Telir am 'Golli enillion yn y dyfodol' ar sail nifer y blynyddoedd y gallai'r ymgeisydd hwnnw ddisgwyl gweithio, nes iddo ymddeol, neu nes iddo farw, petai hynny'n digwydd yn gynharach. Er mwyn bod yn gymwys i gael taliad unswm, disgwylir i ymgeiswyr ddangos faint y byddent yn debygol o fod wedi'i ennill yn y dyfodol a'u gallu i ennill, oni bai am yr anaf.
230. Bydd ymgeisydd yn cael swm am bob blwyddyn o golled, ond ni fu'n fwiad gan y Llywodraeth erioed i'r Cynllun dalu'r *gwir* enillion a gollwyd. Yn y drefn a ddefnyddir i gyfrifo ar hyn o bryd, rhoddir cap ar y cyflog net cyn-yr-anaf, sef 1.5 gwaith canolrif yr enillion wythnosol gros, sef ar hyn o bryd £751.50 yr wythnos⁴⁶ (oddeutu £39,000 y flwyddyn).
231. Addesir taliadau ar gyfer colli enillion gyda golwg ar ffynonellau incwm eraill yr ymgeisydd (enillion, pensiynau a noddir gan y cyflwr a budd-daliadau). Ni addesir taliadau ar gyfer colli enillion yng nghyswllt taliadau yswiriant personol nac incwm preifat arall megis pensiwn a delir yn llwyr gan y person ei hun.
232. Gan fod y taliadau ar gyfer colli enillion yn cael eu talu ar ffurf taliad unswm, ac y gellir yn rhesymol ddisgwyl y byddai hawlwyd yn buddsoddi'r swm hwnnw, gostyngir y taliadau'n unol â thablau lluosogydd a ffactorau disgownt a restrir yn nodiadau'r Cynllun (gweler paragraffau 255 i 257 isod).
233. Yn 2009/10, talodd CICA daliadau ar gyfer colli enillion i oddeutu 1,100 o bobl o blith cyfanswm o oddeutu 65,000 a wnaeth gais i'r Cynllun a 37,000 o ddyfarniadau a dalwyd. Cyfanswm y taliadau ar gyfer colli enillion oedd £45 miliwn, a chyfanswm y taliad y pen ar gyfartaledd oedd oddeutu £40,000. Mae data sampl⁴⁷ o ymgeiswyr yn awgrymu bod enillion cyfartalog net y grŵp hwn cyn y digwyddiad yn gymharol isel –

⁴⁵ Paragraff 30–34 o'r Cynllun.

⁴⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2011. Wedi'i seilio ar ganolrif yr enillion wythnosol gros i weithwyr amser llawn

⁴⁷ Sampl o oddeutu 10 y cant o hawlwyd Colli Enillion yn 2009, wedi'i haenu yn ôl oedran a rhyw.

oddeutu £14,000 y flwyddyn a bod y taliadau blynyddol cyfartalog ar gyfer colli enillion oddeutu £8,500 am bob blwyddyn o golli enillion (ar ôl tynnu oddeutu £5,500 y flwyddyn am incwm a gafwyd ar ôl y digwyddiad). Yn 2009/10, cafwyd oddeutu 90 o hawliadau llwyddiannus yn sgil hawliadau ym mandiau 1–5 y tariff. O dan ein cynigion ni, ni fyddai'r rhain yn gymwys rhagor.

Egwyddorion diwygio'r trefniadau ar gyfer colli enillion

234. Seilir ein cynigion ar gyfer colli enillion⁴⁸ ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Gwneir taliad ar gyfer pob blwyddyn (neu ran o flwyddyn) lle y collwyd enillion yn y gorffennol a lle y'u collir yn y dyfodol, ar ôl y 28 wythnos gyntaf o golli enillion;
- Dylid cyfyngu taliadau ar gyfer colli enillion i'r rheini sy'n wynebu'r effeithiau mwyaf difrifol yn sgil eu hanafiadau, yn enwedig y rheini na allant weithio rhagor.
- Cyfyngir taliadau am golli enillion i'r rheini sy'n gallu dangos bod ganddynt hanes o weithio adeg y digwyddiad (neu reswm da dros fethu â gweithio, megis eu hoedran neu gyfrifoldebau gofalu);
- Mae'n rhesymol ystyried budd-daliadau ychwanegol y wladwriaeth y bydd gan rywun yr hawl iddynt pan fydd wedi cael anaf difrifol ac na all weithio;
- Dylai'r dull a ddefnyddir i gyfrifo colli enillion fod yn fwy syml o ran ei weinyddu a hynny i ddioddefwyr ac i swyddogion hawliadau; a,
- Gan lynu wrth yr egwyddorion hyn, dymunwn leihau'r taliadau am golli enillion er mwyn cyfrannu at arbed arian yn y Cynllun drwyddo draw.

235. Yr ydym wedi datblygu dau opsiwn posibl:

- **Opsiwn A:** Byddai'r taliadau'n cael eu cyfrifo mewn ffordd weddol debyg i'r ffordd y maent yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd, ond rhoddid cap ar yr enillion net a gollir neu'r gallu i ennill, sef 60% o ganolrif yr enillion wythnosol gros adeg yr asesiad.⁴⁹ Er enghraifft, pe cyfrifid fel hyn ar sail canolrif yr enillion presennol, byddai'n golygu mai cyfanswm y taliad am golli enillion blynyddol fyddai oddeutu £12,600 (ar sail £242 yr wythnos 52 wythnos). Mae hyn yn cyfateb yn fras i gyflog blynyddol rhywun petai'n gweithio amser llawn (38 awr yr wythnos) ac yn ennill y lleiafswm cyflog.⁵⁰ Byddai'r taliadau'n dal i gael eu gostwng i adlewyrchu budd-daliadau eraill y gallai fod gan ymgeisydd yr hawl iddynt, a byddent yn cael eu haddasu hefyd petai'r ymgeisydd yn cael iawndal neu iawndaliadau sifil eraill gan y

⁴⁸ Paragraff 30–34 o'r Cynllun.

⁴⁹ Wedi'i seilio ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer yr holl weithwyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ashe/annual-survey-of-hours-and-earnings/ashe-results-2011/ashe-statistical-bulletin-2011.html>

⁵⁰ £6.08 x 38 awr x 52 wythnos = £12,014.

troseddwr ar gyfer yr un anaf. Ni fyddai'r taliadau'n cael eu haddasu ar gyfer unrhyw daliadau yswiriant yr oedd y diodefwyr wedi talu'n llwyr amdanynt ei hun.

- **Opsiwn B** Talu taliad penodol sy'n weinyddol syml ac sydd wedi'i seilio ar gyfradd y Tâl Salwch Statudol. Telir y Tâl Salwch Statudol i weithwyr yn ôl cyfradd wythnosol safonol, sef £81.60 am hyd at 28 wythnos. Petai'r cyfrifiad yn cael ei seilio ar y ffigur hwnnw, y taliad safonol fyddai oddeutu £4,200 ar gyfer pob blwyddyn o golli ennillion (pro rata am ran o flwyddyn).⁵¹
- Mae gennym ddau gynnig ar gyfer ystyried ffynonellau incwm eraill gyda golwg ar opsiwn B, naill ai:
 - B.1, peidio â gostwng y taliadau (ac eithrio lle bydd yr ymgeisydd yn cael iawndal neu iawndaliadau sifil eraill gan y troseddwr ar gyfer yr un anaf); neu,
 - B.2, os bydd gan yr ymgeisydd incwm a noddir gan y cyflogwr (e.e. pensiwn afiechyd) sydd yn fwy na £12,600 mewn unrhyw flwyddyn (y cap a gynigir gennym yn Opsiwn A) ac yr hawlir tâl am golli enillion ar ei chyfer, ni fyddem yn talu'r gyfradd safonol ar gyfer y flwyddyn honno. Byddem yn dal i anwybyddu budd-daliadau'r wladwriaeth.

236. Yng nghyswllt Opsiwn A ac Opsiwn B1 a B2:

- Byddem yn cadw at yr egwyddor o leihau'r taliadau am golli enillion yn unol â thablau lluosogydd y Cynllun.
- Cynigiwn y dylai colli enillion yn y cynllun diwygiedig fod yn berthnasol i ymgeiswyr na allant ennill a'r rheini nad oes ganddynt fawr o allu i ennill cyflog. Ni fydd y rheini sydd â llai o allu i ennill cyflog yn sgil eu hanaf ond nad yw eu gallu wedi'i gyfyngu rhyw lawer yn cael taliad rhagor. Mae hyn yn gyson â'n hegwyddor o warchod y taliadau ar gyfer y rheini sydd wedi cael yr anafiadau mwyaf difrifol. Bydd swyddogion hawliadau'n defnyddio'u crebwyll i benderfynu beth yw ystyr 'gallu cyfyngedig iawn i ennill cyflog' at y diben hwn, yng ngoleuni holl amgylchiadau'r achos. Rhai o'r ffactorau a ystyrid fyddai natur yr anaf, nifer yr oriau y mae rhywun yn gallu gweithio (os mai gallu cyfyngedig iawn i ennill sydd gan rywun, credwn na fyddai ond yn gallu gweithio ychydig oriau yr wythnos) a'r cyflog y gallai rhywun ddisgwyl ei ennill petai ganddo unrhyw allu ar ôl i ennill. Byddem yn disgwyl i'r cyflog hwnnw fod yn fychan iawn er mwyn i rywun fod yn gymwys i gael taliadau ar gyfer colli incwm ar sail eu gallu cyfyngedig iawn i ennill.

237. Mae amgylchiadau ariannol pobl sy'n gwneud cais am dâl ar gyfer colli enillion yn amrywio'n fawr a bydd effaith ein cynigion yn amrywio o'r naill achos i'r llall. Bydd yr effaith fwyaf, mae'n debyg, ar y rheini sy'n ennill

⁵¹ Tâl Salwch Statudol Wythnosol £81.60 x 52 wythnos.

cyflog canolig i uchel, ac sydd heb ffynonellau incwm eraill. Mae'n anodd amcangyfrif faint a arbedir, ond drwyddi draw, disgwylw'n arbed symiau cymharol hyd at oddeutu £10m y flwyddyn ar bob opsiwn.

238. Byddai Opsiwn A yn golygu y byddai taliadau'n dal i gael eu gwneud ar gyfer enillion a gollwyd ac y byddem yn dal i warchod incwm yr enillwyr is (roedd gan ychydig o dan hanner ein sampl enillion blynyddol net a oedd yn is na £12,600). Serch hynny, mae'n bosibl y byddai rhai ymgeiswyr a chanddynt anabledd tymor hir yn cael prin ddim neu ddim arian am gollu enillion oherwydd y byddai cyfanswm y budd-daliadau a gaent yn fwy na £12,600 y flwyddyn. Mae Opsiwn B yn symlach o ran ei weinyddu. Bydd ymgeiswyr cymwys, ni waeth faint y maent wedi'i ennill o'r blaen, yn cael swm clir, hawdd ei ragweld a fydd yn ategu'r symiau a gânt o bosibl o ffynonellau eraill, megis budd-daliadau'r wladwriaeth.⁵² Fe allai hynny hefyd olygu bod diodefwyr yn cael eu taliadau am gollu enillion yn gyflymach.

Cwestiynau ymgynghori

C47 Beth yw eich barn chi am yr opsiynau ar gyfer newidiadau i daliadau ar gyfer colli enillion:

- Opsiwn A, rhoi cap o £12,600 ar yr enillion net blynyddol a gollir a pharhau i ostwng y taliadau er mwyn adlewyrchu ffynonellau incwm eraill yr ymgeisydd?
- Opsiwn B.1, talu cyfradd safonol i bob ymgeisydd a'r tâl hwnnw'n cyfateb i'r Tâl Salwch Statudol a pheidio â lleihau'r taliadau i adlewyrchu ffynonellau incwm eraill ymgeisydd?
- Opsiwn B.2, yr un fath ag opsiwn B.1 ond ni fyddem yn talu arian mewn unrhyw flwyddyn lle byddai'r ymgeisydd yn cael incwm a noddid gan ei gyflogwr a oedd yn fwy na £12,600?

C48 Beth yw eich barn chi am ein cynnig y byddai'n rhaid i ymgeiswyr ddangos nad oes ganddynt ddim gallu i ennill neu fod eu gallu i ennill yn gyfyngedig iawn, er mwyn bod yn gymwys i gael taliad ar gyfer colli enillion? Beth y dylid ei ystyried wrth benderfynu a yw gallu ymgeisydd i ennill yn gyfyngedig iawn?

Costau arbennig

239. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun yn talu costau arbennig er mwyn gwneud iawn i'r diodefwyr hynny sydd wedi ysgwyddo costau penodol yn sgil eu hanaf.⁵³ Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r ymgeisydd fod wedi colli enillion neu ei allu i ennill am fwy nag 28 wythnos oherwydd ei anaf. Gwneir oddeutu 350 o ddyfarniadau ar gyfer costau arbennig bob blwyddyn, cyfanswm o oddeutu £15m.

⁵² Gellir sefydlu Ymddiriedolaeth Anafiadau Personol ar gyfer dyfarnu iawndaliadau. Anwybyddir gwerth yr ymddiriedolaeth hon wrth asesu cymhwysedd ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau prawf modd a/neu gymorth awdurdodau lleol.

⁵³ Paragraff 35 o'r Cynllun.

240. Telir costau arbennig ar hyn o bryd ar gyfer:

- Colli eiddo ac offer neu ddifrod i eiddo ac offer y dibynnir arnynt fel cymhorthion corfforol ac a ddifrodwyd yn uniongyrchol yn sgil y digwyddiad (megis sbectol neu gymorth clyw).
- Costau sy'n gysylltiedig â thriniaeth y GIG (er enghraifft, parcio ceir, costau presgripsiwn ac ati).
- Offer arbennig, addasu cartref neu gostau gofalu nad ydynt ar gael o ffynonellau eraill (er enghraifft cadair olwyn, addasu tŷ ar gyfer defnyddio cadair olwyn, cymorth i wisgo, ymolchi, a pharatoi bwyd lle nad yw'r rhain ar gael am ddim gan y GIG, gan awdurdod lleol neu gan asiantaeth arall).
- Ffioedd a chostau angenrheidiol a rhesymol sy'n gysylltiedig â gweinyddu dyfarniadau (e.e. ffioedd sy'n daladwy i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu'r Llys Gwarchodaeth, costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweinyddu ymddiriedolaeth, a'r rheini sy'n gysylltiedig â gweinyddu materion ymgeiswyr oherwydd anallu).
- Gofal meddygol preifat rhesymol nad yw ar gael o dan y GIG.

241. Telir costau arbennig i'r rheini sydd wedi cael yr anafiadau mwyaf difrifol, ac yn hynny o beth, bwriadwn barhau i dalu'r holl gategoriâu costau arbennig ac eithrio gofal meddygol preifat. Mae'r GIG yn darparu safon dda o ofal. Os bydd ymgeiswyr yn dewis prynu gofal iechyd y tu hwnt i'r gofal a ddarperir gan y GIG, cânt ddefnyddio rhywfaint o'u dyfarniad o dan y tariff at y diben hwn.⁵⁴

Cwestiwn ymgynghori

C49 A ddylem gadw'r holl gategoriâu costau arbennig ac eithrio'r rheini ar gyfer gofal meddygol preifat?

Achosion Marwol

242. Wrth adolygu'r cynllun yr ydym wedi ystyried sefyllfa benodol iawn y rheini sy'n colli anwylyd yn sgil trosedd trais.

Taliad o dan y Tariff am Anaf Marwol ('Dyfarniadau profedigaeth')

243. O dan y Cynllun hwn, y taliad presennol o dan y tariff am anaf marwol yw £11,000 (Band 13 o'r tariff) ar gyfer un ymgeisydd cymwys⁵⁵ a £5,500 yr un (Band 10) os bydd mwy nag un ymgeisydd cymwys. Gelwir taliadau o dan y categori hwn yn 'ddyfarniadau profedigaeth', ac fe'u telir ar hyn o bryd i oddeutu 1,000 o ymgeiswyr y flwyddyn gan gostio tua £8m.⁵⁶

⁵⁴ Paragraff 39 o'r Cynllun.

⁵⁵ Paragraff 38 o'r Cynllun.

⁵⁶ Paragraff 39 o'r Cynllun.

244. Yr ydym yn cynnig gwarchod lefel bresennol y dyfarniad gan barhau i dalu i'r un ymgeiswyr cymwys.

Cwestiwn ymgynghori

C50 A ddylem gadw'r dyfarniad profedigaeth ar ei lefel bresennol a chadw'r categorïau ymgeiswyr cymwys presennol ar gyfer y dyfarniad profedigaeth a thaliadau eraill ar gyfer achosion marwol?

Colli gwasanaeth rhiant

245. Cynigiwn y dylid parhau i dalu iawndal am golli gwasanaeth rhiant i ymgeiswyr cymwys a oedd o dan 18 oed ac yn dibynnu ar y dioddefwr pan fu'r dioddefwr farw.⁵⁷ Telir cyfradd flynyddol o £2,000 am bob blwyddyn o golled hyd at 18 oed. Ar hyn o bryd, mae hyn yn costio oddeutu £3m y flwyddyn.

246. Yr ydym yn cynnig hefyd y dylid cadw'r ddarpariaeth yn y Cynllun presennol sy'n darparu ar gyfer taliadau ychwanegol sydd ym marn y swyddog hawliadau'n rhesymol ar gyfer colledion eraill y gall y plentyn eu dioddef.

Cwestiwn ymgynghori

C51 Beth yw eich barn am ein cynigion ynglŷn â gwasanaethau rhiant:

- Parhau i dalu am golli gwasanaethau rhiant ar y lefel bresennol (£2,000 y flwyddyn hyd at 18 oed)?
- Parhau i ystyried unrhyw daliadau rhesymol eraill ar gyfer colledion penodol eraill y gall y plentyn eu dioddef?

Taliadau i Ddibynyddion

247. Ar hyn o bryd, fe all ymgeiswyr cymwys gael taliadau ychwanegol os oeddent yn ariannol neu'n gorfforol ddibynnol ar ddiodefwyr a fu farw o ganlyniad uniongyrchol i'w hanafiadau. Telir y rhain ar yr un sail ag y telir taliadau colli enillion ond fe'u rhennir gyda nifer yr hawlwyd gan dynnu swm ar gyfer costau byw'r ymadawedig.⁵⁸ Ceir oddeutu 100 o achosion bob blwyddyn sy'n costio oddeutu £4 miliwn.

248. Cynigiwn barhau i dalu taliadau i ddibynyddion yn unol â'n cynigion ar gyfer diwygio'r drefn colli enillion (paragraffau 234 i 238). Petaem yn talu taliadau i ddibynyddion yn unol ag opsiwn colli enillion A (capiu yn £12,600) yr ydym yn cynnig parhau i ostwng y swm (hyd at draean) er mwyn cyfrif unrhyw gostau personol a chostau byw y byddai'r diodefwyr

⁵⁷ Paragraff 42 o'r Cynllun (colli gwasanaethau rhiant)

⁵⁸ Paragraff 40 o'r Cynllun.

wedi'u hysgwyddo⁵⁹ ac er mwyn addasu'r swm ar gyfer unrhyw fudd-daliadau a dalwyd yn sgil y farwolaeth. Ni fyddai unrhyw bolisiâu yswiriant personol a chynlluniau pensiwn y talwyd amdanynt yn llwyr gan yr ymadawedig neu gan un o ddibynyddion yr ymadawedig yn cael eu cyfrif.

249. Petaem yn talu'r gyfradd safonol, sef oddeutu £4,200 (sy'n cyfateb i'r tâl salwch statudol - opsiwn B1) ni fyddem yn bwriadu gostwng y swm er mwyn cyfrif costau personol a chostau byw'r diodefwyr a byddem yn anwybyddu unrhyw fudd-daliadau a delid yn sgil y farwolaeth.
250. Fel sy'n wir yn awr, bydd y dyfarniad ar gyfer dibynyddion yn dal i gael ei rannu gan nifer yr ymgeiswyr cymwys ym mhob blwyddyn o'r golled (felly, petai dau'n gymwys i gael taliadau i ddibynyddion, byddent yn cael hanner yr un). Byddai'r plant yn gymwys tan y byddent yn 18 oed.
251. Cynigiwn dalu taliadau i ddibynyddion fel a ganlyn:
- yng nghyswllt plentyn dibynnol, nes bod yr ymgeisydd yn 18 oed
252. Ym mhob achos arall, tan ba un bynnag o'r canlynol sy'n digwydd gyntaf:
- oedran pensiwn y wladwriaeth yr ymadawedig
 - oedran marw tebygol yr ymadawedig, cyn i'r digwyddiad ddigwydd;
 - oedran marw tebygol y dibynnydd;
 - 50^{fed} pen-blwydd marwolaeth yr ymadawedig.
253. Weithiau, telir taliadau i ddibynyddion am ddibyniaeth gorfforol yn unig (er enghraifft, lle'r oedd yr ymadawedig yn gofalu am ymgeisydd ond nad oedd yn cyfrannu'n ariannol at ei gadw).⁶⁰ Cynigiwn y dylid parhau i dalu o dan yr amgylchiadau hyn.

Cwestiwn ymgynghori

C52 A ddylem gadw'r taliadau i ddibynyddion a'u talu'n unol â'r cynigion ar gyfer colli enillion?

Costau Angladd

254. Bwriadwn barhau i dalu am gostau rhesymol angladd⁶¹ ac yr ydym yn cynnig y gellir talu'r arian i'r sawl sy'n talu'r bil yn ogystal ag i ystâd yr ymadawedig. Yn unol â'n cynigion ym mharagraffau 209 i 210, ni fyddem yn ceisio didynnu dim os oedd gan yr ymadawedig euogfarnau blaenorol, oni bai fod y rheini'n ddifrifol iawn. Serch hynny, byddem yn dal i ystyried

⁵⁹ Ar hyn o bryd pennir y didyniadau gan y swyddog hawliadau, ond gan amlaf, bydd y rhain yn 33% o incwm net yr ymadawedig lle bydd priod neu bartner sifil yn ei oroesi ac yn 25% lle bydd plant dibynnol hefyd yn ei oroesi.

⁶⁰ Paragraff 35(2) a 40 o'r Cynllun.

⁶¹ Paragraff 37 o'r Cynllun.

cymeriad yr ymgeisydd (ymgeiswyr) wrth benderfynu a ddylid rhoi'r taliad neu beidio.

Cwestiwn ymgynghori

C53 A ddylem barhau i dalu am gostau rhesymol angladd?

Tablau Gostwng

255. Telir am golli enillion, costau arbennig, dibyniaeth a cholli gwasanaeth rhiant ar ffurf taliad unswm. Gostyngir y symiau hyn oherwydd bod ymgeiswyr yn cael eu talu am golledion a ddaw i'w rhan yn y dyfodol a bod modd iddynt fuddsoddi'r arian ac ennill llog. Rhoddir cyfraddau disgownt tebyg ar waith o dan lawer o amgylchiadau eraill lle y dyfernir taliad unswm ar gyfer colledion ariannol yn y dyfodol.
256. Ar hyn o bryd, gostyngir y symiau hyn ar sail tri thabl⁶² a'r rheini wedi'u seilio'n fras ar Dablau Actiwaraid i'w Defnyddio mewn Achosion Anafiadau Personol a Damweiniau Marwol (a elwir yn gyffredin yn "dablau Ogden"). Cynhyrchir y rhain gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Nid oes dim newid wedi bod i dri thabl y Cynllun ers i'r Cynllun tariffiau cyntaf gael ei roi ar waith yn 1996.
257. Yr ydym yn cynnig y dylid parhau i ddefnyddio lluosyddion⁶³ i adlewyrchu'r potensial ar gyfer buddsoddi a'r blynyddoedd o golled a byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau o ran amcangyfrif marwoldeb. Sylwedolwn fod y lluosyddion presennol yn hen a bwriadwn adolygu tablau lluosyddion CICS ar y cyd ag Adran Actiwari'r Llywodraeth. Gwahoddir ymgynghoreion i ystyried effaith y cynigion ar daliadau am golli enillion, costau arbennig a thaliadau i ddibynyddion ar y sail y bydd y lluosyddion yn parhau i gael eu defnyddio wrth bennu dyfarniadau unswm.

Y Broses

Gwneud Cais i'r Cynllun

258. Bydd gan bobl sy'n gwneud cais i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol ddwy flynedd i ymgeisio ar ôl y digwyddiad.⁶⁴ Lle na fyddai'n rhesymol i'r ymgeisydd allu gwneud cais o fewn dwy flynedd (er enghraifft mewn achosion cam-drin rhywiol hanesyddol); a'i bod yn dal yn ymarferol ystyried y cais, gellir ymestyn y terfyn amser.
259. Mae'r Cynllun presennol yn dweud mai gwaith yr ymgeisydd fydd cyflwyno'i ddadl, a bydd hyn yn dal yn wir. Serch hynny, ychydig iawn o

⁶² Nodyn 3 o'r Cynllun

⁶³ Paragraff 32 a Nodyn 3 o'r Cynllun.

⁶⁴ Paragraff 18 (b) ac 19 o'r Cynllun.

fanylion sydd ynglŷn â pha wybodaeth y disgwylir i'r ymgeisydd ei darparu.

260. Byddwn yn ei gwneud yn fwy clir pa dystiolaeth y bydd gofyn i'r ymgeisydd ei chyflwyno yn gefn i'w gais. Bydd hyn yn cynnwys:
- Tystiolaeth am hunaniaeth a statws preswyllo'r ymgeisydd, ynghyd â datganiad am unrhyw gofnod troseddol a all fod gan yr ymgeisydd hwnnw.
 - Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi dioddef trosedd trais. Dylai'r ymgeisydd ddatgan ei fod wedi cyflwyno adroddiad i'r heddlu. Yna, bydd CICA yn gofyn i'r heddlu am gopi o'r adroddiad.
 - Tystiolaeth feddygol neu arbenigol cychwynnol arall i ddangos bod anaf wedi bod (e.e. nodiadau meddyg teulu neu nodyn rhyddhau o'r adran Damweiniau ac Achosion Brys). Eglurir ein cynigion ar gyfer unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth y dystiolaeth yn llawn isod. Lle bydd cost ynghlwm wrth hyn, a lle na all ymgeisydd dalu'r gost honno, bydd CICA yn dal i dalu am gostau'r dystiolaeth feddygol.
 - Os bydd yr ymgeisydd yn hawlio iddo golli enillion, tystiolaeth ynglŷn â hanes cyflogaeth yr ymgeisydd ac unrhyw enillion a gollwyd yn sgil yr anaf.
 - Manylion unrhyw ffynonellau iawndal neu yswiriant arall y gall yr ymgeisydd fod yn gymwys i'w cael, ac sy'n berthnasol i gyfrifo dyfarniad o dan CICS. Os, er enghraifft, y cafwyd anaf yn sgil cyflogaeth yr ymgeisydd, fe allai hyn gynnwys cadarnhad gan y cyflogwr nad oedd yn gyfrifol am yr anaf neu nad oedd Cynlluniau ar waith yn y gweithle ar gyfer anafiadau.

Cwestiwn ymgynghori

C54 Beth yw eich barn am ein cynigion i fynnu bod ymgeiswyr yn darparu'r wybodaeth a restrir uchod?

261. Ar hyn o bryd, mae casglu tystiolaeth feddygol yn costio oddeutu £3.5m y flwyddyn i CICA gydag oddeutu £2.8m o hyn ar gyfer adroddiadau cyffredin. Cynigiwn y dylid tynhau'r amgylchiadau lle bydd CICA yn talu costau cael gafael ar dystiolaeth arbenigol. Yn benodol, yr ydym am osgoi gwario arian (oddeutu £270,000 y flwyddyn ar hyn o bryd, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n codi o dan y cynigion ymgynghori hyn) i dalu am adroddiadau meddygol i bobl nad yw eu hanafiadau'n ddigon difrifol iddynt fod yn gymwys ar gyfer iawndal.
262. Ar ôl cynnal profion cymhwysedd cychwynnol, bydd CICA ar hyn o bryd yn gofyn am adroddiad meddygol ac yn talu amdano. Serch hynny, credwn y dylai'r cyfrifoldeb, o fewn rheswm, fod ar yr ymgeisydd i ddarparu'r dystiolaeth feddygol angenrheidiol ar gyfer eu hawliad. Mae canllawiau'r GIG yn dweud y gellid codi ffi o £10 am gopi o gofnodion sydd ar gyfrifiadur ac o hyd at £50 am gofnodion nad ydynt ond yn cael eu cadw ar ffurf ysgrifenedig (neu'n rhannol ar ffurf ysgrifenedig). Credwn

ei bod yn rhesymol disgwyl i ymgeiswyr dalu costau o fewn yr ystod hon, hyd at uchafswm cyffredinol o £50 (sef yr uchafswm ar hyn o bryd am gopi o gofnodion y GIG). Serch hynny, lle na all ymgeisydd fforddio i dalu'r costau hyn, neu lle bydd angen tystiolaeth arbenigol fwy costus, megis adroddiad seiciatrig llawn, bydd CICA yn dal i dalu am yr adroddiadau hynny. Lle bydd CICA yn dal i dalu'r costau cychwynnol hyn, yr ydym yn cynnig y dylai swyddogion hawliadau allu tynnu'r costau hynny o unrhyw ddyfarniad terfynol, unwaith eto, hyd at uchafswm o £50 drwyddi draw.

263. Lle bydd swyddog hawliadau'n meddwl bod angen adroddiad meddygol arall, er enghraifft i gadarnhau difrifoldeb yr anaf neu'r hyn sydd wedi'i achosi, bydd CICA yn dal i gomisiynu'r adroddiadau hyn a thalu amdanynt.⁶⁵

264. Yr ydym hefyd yn cynnig y dylai fod amgylchiadau cyfyngedig eraill lle byddai swyddogion hawliadau'n gallu tynnu costau'n gysylltiedig ag archwiliadau meddygol o swm y dyfarniad:

- Lle bydd ymgeisydd, heb esgus rhesymol, wedi methu apwyntiadau meddygol y mae CICA yn talu amdanynt; neu
- Lle bydd CICA wedi talu am dystiolaeth ychwanegol oherwydd bod ymgeisydd wedi comisiynu tystiolaeth feddygol ychwanegol nad oedd y swyddog hawliadau'n meddwl ei bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu ynglŷn â'r hawliad, ac na ellid fod wedi disgwyl yn rhesymol iddi ychwanegu'n sylweddol at y dystiolaeth feddygol a oedd ar gael eisoes.

265. Bydd unrhyw arian a dynnir o ddyfarniad ar y seiliau hyn yn agored i adolygiad ac apêl.

Cwestiynau ymgynghori

C55 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein cynnig y dylai ymgeiswyr dalu cost fechan (hyd at uchafswm o £50) i gael y dystiolaeth feddygol gychwynnol er mwyn cyflwyno'u hawliad?

C56 Lle bydd CICA yn dal i dalu am y costau meddygol cychwynnol, a ddylid tynnu'r rhain o'r dyfarniad terfynol (hyd at uchafswm o £50)?

C57 A ddylid tynnu'r costau sy'n gysylltiedig â chostau meddygol pan fydd:

- Ymgeisydd yn methu apwyntiadau meddygol y mae CICA'n talu amdanynt?
- Ymgeisydd yn comisiynu tystiolaeth feddygol ychwanegol nad oes gofyn ei chael i benderfynu ynglŷn â'r hawliad?

⁶⁵ Paragraff 21 o'r Cynllun.

Penderfyniadau

266. Bwriadwn gwtogi'r cyfnod 90 diwrnod presennol sydd gan ymgeiswyr i hysbysu CICA eu bod naill ai'n derbyn neu'n gwrthod y dyfarniad.⁶⁶ Fel rheol, bydd ymgeiswyr yn ymateb o fewn rhyw dair wythnos, felly credwn fod caniatáu 56 diwrnod yn rhesymol ac y bydd hynny'n cyflymu'r broses drwyddi draw. Yr ydym hefyd yn cynnig cwtogi'r cyfnod ar gyfer gwneud cais am adolygiad o 90 i 56 diwrnod⁶⁷, ac y dylid gallu ymestyn y cyfnod hwn unwaith hyd at 56 diwrnod arall lle bydd rhesymau eithriadol dros ganiatáu estyniad.

Cwestiwn ymgynghori

C58 Beth yw eich barn am ein cynnig i gwtogi'r amser sydd ar gael i ymgeiswyr naill ai dderbyn penderfyniad y swyddog hawliadau, neu i geisio adolygiad, o 90 i 56 diwrnod, gydag estyniad arall o 56 diwrnod am resymau eithriadol?

Ailystyried ac ad-dalu

267. Ar hyn o bryd mae'n bosibl ailystyried penderfyniad unrhyw bryd cyn talu'r dyfarniad terfynol os bydd tystiolaeth newydd neu os bydd amgylchiadau'n newid (er enghraifft os bydd ymgeisydd yn cael iawndal o ffynhonnell arall).⁶⁸ Lle bydd taliad interim wedi'i wneud, ni fydd hyn yn atal swyddog hawliadau rhag ailystyried yr achos.

268. Bwriadwn gadw at y trefniadau presennol gan gynnig ymestyn yr amgylchiadau lle y ceir gofyn am ad-dalu'r dyfarniad i gyd neu ran ohono dan amgylchiadau lle na fydd yr ymgeisydd wedi cydweithredu gymaint ag sy'n ymarferol wrth ddod ag unrhyw ymosodwr gerbron cyfiawnder, neu fod yr ymgeisydd wedi camarwain swyddog hawliadau'n fwriadol wrth wneud ei hawliad.

Cwestiwn ymgynghori

C59 Beth yw eich barn am ein cynigion i ymestyn yr amgylchiadau lle y ceir gofyn am ad-dalu'r dyfarniad i gyd neu ran ohono?

Ailagor am resymau meddygol

269. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer ailagor achosion ar seiliau meddygol ar gais yr ymgeisydd os oes newid sylweddol yn eu cyflwr meddygol neu os bydd y dioddefwr wedi marw yn sgil yr anaf. Mae elfen o ansicrwydd bob tro wrth asesu colled posibl, a'r posibilrwydd y gallai anaf waethygu rywbryd yn y dyfodol, ond er mwyn i'r Cynllun fod mor weinyddol effeithlon ag y bo modd, yr ydym yn cynnig dileu'r

⁶⁶ Para 50 o'r Cynllun

⁶⁷ Para 59 o'r Cynllun

⁶⁸ Paragraff 48–49 o'r Cynllun.

ddarpariaeth hon o'r cynllun ond caniatáu i rywun ohirio'r achos mewn ystod ehangach o amgylchiadau nag a ganiateir ar hyn o bryd (gweler isod).

Cwestiwn ymgynghori

C60 Beth yw eich barn am ein cynnig i ddileu'r opsiwn i wneud cais am ailagor achos ar seiliau meddygol?

Gohirio

270. Os bydd ymgeisydd yn meddwl nad yw effaith tymor hir ei anafiadau wedi'u sefydlu eto, cynigiwn alluogi iddo ofyn am ohirio penderfyniad ynglŷn â'r achos am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau ac yna am gyfnod arall o ddwy flynedd ar gais.

271. Ar hyn o bryd, mae gan swyddogion hawliadau bwerau⁶⁹ i wneud trefniadau o'r fath ar gyfer penderfynu'r hawliad ag y gwelont yn briodol. Gallai hyn gynnwys aros am ganlyniad unrhyw achos troseddol cysylltiedig, er enghraifft lle nad yw'r ffeithiau'n ddigon clir yn sgil y dystiolaeth a roddwyd yn y lle cyntaf i benderfynu a oes trosedd trais wedi digwydd. Cynigiwn wneud y pŵer hwn i ohirio'r penderfyniad yn eglurach yn y Cynllun. Dylid dal i benderfynu ynglŷn ag achosion cyn gynted ag sy'n bosibl ac ni ddylid defnyddio'r pŵer ac eithrio lle bydd angen aros am yr achos troseddol cyn penderfynu ynglŷn â'r hawliad. Ni chynigir y dylai canlyniad yr achos troseddol benderfynu beth fydd canlyniad yr hawliad: bydd swyddogion hawliadau'n dal i benderfynu ar sail tebygolrwydd.

272. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 193, yr ydym hefyd yn cynnig galluogi ceiswyr lloches i ofyn am ohirio'u cais nes bod mater eu statws fel ffoadur wedi'i setlo, ar yr amod eu bod yn cyflwyno'r cais o fewn dwy flynedd i'r digwyddiad, yn unol â'r terfynau amser arferol ar gyfer hawliad.

Cwestiwn ymgynghori

C61 Beth yw eich barn am ein cynnig i ohirio penderfyniadau'r Cynllun?

Apêl⁷⁰

273. Os bydd ymgeisydd yn anfodlon ar benderfyniad, caiff ofyn i swyddog hawliadau arall adolygu'r achos. Os bydd yn anfodlon o hyd, caiff yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol). Os daw'n amlwg wrth adolygu achos fod penderfyniad y swyddog hawliadau'n wallus, ar hyn o bryd nid oes gan swyddog hawliadau y pŵer i dynnu ei benderfyniad yn ôl a rhoi penderfyniad newydd, ac felly, rhaid i'r apêl fynd rhagddi.

⁶⁹ Paragraff 20 o'r Cynllun.

⁷⁰ Paragraff 61–65 o'r Cynllun.

274. Cynigiwn, pan ddaw'n amlwg bod swyddog hawliadau wedi gwneud camgymeriad yn ystod yr adolygiad, y dylai swyddog hawliadau allu tynnu yn ôl benderfyniad adolygu sydd dan apêl a rhoi penderfyniad o blaid yr ymgeisydd. Yna, caiff yr ymgeisydd benderfynu a yw am dderbyn y penderfyniad, ac fe gaiff, gyda chydsyniad Tribiwnlys yr Haen gyntaf, dynnu ei apêl yn ôl. Bydd hyn yn osgoi costau ac anhwylustod diangen i'r ymgeisydd ac i CICA.

Cwestiwn ymgynghori

C62 Beth yw eich barn am ein cynnig i alluogi swyddogion hawliadau i dynnu yn ôl benderfyniad adolygiad sydd dan apêl a rhoi penderfyniad o blaid yr ymgeisydd?

Adennill iawndal CICS gan droseddwyr

275. Mae pwerau sydd heb eu rhoi ar waith yn Neddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 a fyddai'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder neu Weinidogion yr Alban yn yr Alban, wneud Rheoliadau er mwyn i'r wladwriaeth allu adennill gan droseddwyr yr iawndaliadau am anafiadau troseddol a dalwyd i'w diodefwyr. Pe rhoddid cychwyn ar y ddeddfwriaeth, byddai hynny'n golygu y gallai swyddog hawliadau CICS gyhoeddi hysbysiad adennill ac, oni ad-delid y swm, gychwyn camau i adennill y ddyled drwy'r llysoedd sifil.

276. Cyn rhoi'r darpariaethau hyn ar waith byddai angen sicrhau ei bod yn ymarferol bosibl cynllunio proses effeithiol. Dwy her bwysig yw sicrhau bod unrhyw broses yn gost-effeithiol ac nad yw'r broses adennill yn cael effaith er gwaeth ar y diodefwyr yn yr achos. Mae Grwpiau Dioddefwyr wedi codi pryderon yn y gorffennol ynglŷn â'r effaith ar ddiodefwyr oherwydd y byddai angen rhoi manylion yr iawndal a delid i'r diodefwyr i'r troseddwr a dweud sut y penderfynwyd ynglŷn â'r iawndal, fel rhan o'r broses adennill.

Cwestiwn ymgynghori

C63 Beth yw eich barn am ein cynnig i roi pwerau ar waith i adennill arian gan droseddwyr, lle bydd diodefwyr wedi cael ei ddigolledu am anafiadau troseddol, os oes modd datblygu proses gost-effeithiol i adennill yr arian hwnnw? Sut y gallai'r broses hon weithio?

Effeithiau'r cynigion ar gydraddoldeb a chais i wella'r sylfaen dystiolaeth

277. Tua dechrau'r ddogfen ymgynghori hon, esboniwyd cyfrifoldebau'r Llywodraeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yr ydym yn cyhoeddi Asesiadau ar Effaith ein cynigion ar gydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghori.

Cwestiynau ymgynghori

C64 A ydych yn meddwl ein bod wedi nodi'n gywir beth yw ystod a maint effeithiau'r cynigion hyn ar y rheini y gwarchodir eu nodweddion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

C65 Os nad ydych, a ydych chi'n gwybod am unrhyw dystiolaeth nad ydym wedi'i hystyried fel rhan o'n dadansoddiad ar gydraddoldeb? Rhowch y dystiolaeth. Beth yw effaith y dystiolaeth hon ar ein cynigion?

C66 Ac ystyried yr hinsawdd ariannol wrth inni wneud y cynigion hyn, a oes ffyrdd eraill o gwbl y credech y gallem eu defnyddio i liniaru'r effeithiau posibl a restrwyd yn y dadansoddiad cydraddoldeb?

Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor

278. Nid yw'r Cynllun domestig presennol yn cynnig iawndal i unigolion sy'n cael eu hanafu yn sgil troseddau trais dramor, ac nid yw'n ddyletswydd gyfreithlon ychwaith ar y Deyrnas Unedig i dalu iawndal dan yr amgylchiadau hyn. Yn gyffredinol, rhaid i unigolion geisio iawn gan y troseddwr, drwy drefniadau yswiriant, neu gan y wladwriaeth lle y digwyddodd yr anaf troseddol. Serch hynny, bydd rhai gwledydd yn talu iawndal i unigolion sy'n cael eu hanafu ar dir tramor, er bod hynny'n digwydd o dan gynlluniau lle bydd y meini prawf yn llym iawn a lle bydd yr iawndaliadau a delir yn symiau cyfyngedig. Mae Cyfarwydddeb 2004/80/2004 yr Undeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithlon ar bob un o Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod ganddi drefniadau ar waith sy'n gwarantu iawndal teg a phriodol i bobl sy'n dioddef yn sgil troseddau bwriadol, treisgar ar eu tiriogaeth. Efallai y byddai dinasyddion y Deyrnas Unedig a gâi eu hanafu mewn rhannau eraill o Ewrop yn gallu cael iawndal o dan y Cynlluniau hyn ond mae symiau'r iawndaliadau hynny a'r amgylchiadau ar gyfer eu talu'n amrywio'n sylweddol o'r naill wladwriaeth i'r llall.

Help i'r rheini sy'n cael eu dal mewn ymosodiadau terfysgol dramor

279. Yn y Deyrnas Unedig, ar hyn o bryd, yr ydym yn cynnig yr help a ganlyn i bobl sy'n cael eu hanafu mewn digwyddiadau terfysgol dramor ac yr ydym yn ceisio gwella'r ddarpariaeth:

- Nod y cynllun Camau Cymorth Eithriadol (EAM) yw lliniaru anghenion uniongyrchol gwladolion Prydain yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau terfysgol dramor drwy roi cymorth brys iddynt i drefnu awyren, cael llety a dychwelyd adre. Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad sy'n gyfrifol am y cynllun hwn ac mae ar gael i bob dioddefwr o Brydain sy'n gymwys, ac eithrio'r rheini sydd wedi teithio i ranbarth yn groes i gyngor y Swyddfa, a hynny ar sail eithriadol lle nad oes modd talu'r costau drwy drefniadau eraill megis yswiriant.

- Mae Cronfa Liniaru'r Groes Goch Brydeinig i Ddiodefwyr Terfysgaeth sy'n dod o'r Deyrnas Unedig yn darparu grantiau yn y fan a'r lle gwerth £3,000 i unrhyw un sydd fel rheol yn byw yn y Deyrnas Unedig ac yr effeithir arnynt gan ymosodiad terfysgol er mwyn eu helpu gyda'u costau hanfodol a thelir grant arall o £12,000 i'w helpu gyda'u hanghenion parhaus.
- Lle bydd cynlluniau iawndal ar waith yn Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, bydd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn helpu diodefwyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig i wneud hawliad yn y gwledydd hynny.
- Ar ôl dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, fe all diodefwyr geisio cymorth gan amrywiaeth eang o ffynonellau. Fe allant gael help a thriniaeth gan y GIG, Gwasanaethau Cenedlaethol y GIG yn yr Alban neu gan lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Fe allant hefyd fod yn gymwys i gael budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, neu gan yr Adran Datblygu Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, a chael rhagor o help gan wasanaethau awdurdodau lleol.
- Gall diodefwyr ymosodiadau terfysgol dramor gael cymorth drwy'r grant £38m i Gymorth i Ddiodefwyr, dros £4m i Gymorth i Ddiodefwyr yr Alban a rhyw £2.2 i Gymorth i Ddiodefwyr Gogledd Iwerddon. At hynny, fe all perthnasau sydd wedi cael profedigaeth gael cymorth gan Ymddiriedolaeth Lucie Blackman, sydd wedi'i ariannu drwy'r Gronfa ar gyfer Achosion Dynladdiad yn 2011/12.
- Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn helpu i roi gwybodaeth i deuluoedd mewn profedigaeth ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau. Lle bydd hynny'n briodol, mae'n bosibl hefyd y penodir Swyddog Cyswllt Teuluoedd gan yr heddlu perthnasol i gysylltu â'r awdurdodau ymchwilio dramor.

280. Er nad yw'r Llywodraeth yn darparu hynny, fe all yswiriant fod ar gael i helpu i dalu am rywfaint o'r costau a all godi yn sgil cael eich dal mewn ymosodiad terfysgol, ac fe argymhellir hynny'n gryf.

Iawndal gan y Llywodraeth

281. Pasiodd y Senedd Ddeddf Troseddau a Diogelwch yn 2010 er mwyn gallu creu cynllun a fyddai'n digolledu diodefwyr terfysgaeth dramor yn y dyfodol a anafwyd ar 18 Ionawr 2010 neu wedi hynny. Mae Adrannau 47-54 o'r Ddeddf yn cynnwys y fframwaith ar gyfer gwneud cynllun o'r fath. Ni fyddai'r cynllun ei hun yn cael ei osod mewn deddfwriaeth, ond, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, byddai drafft o'r cynllun yn cael ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd cyn ei wneud. Er mwyn bod yn gryno, gelwir y cynllun hwn yn 'gynllun statudol'.

282. Roedd y weinyddiaeth flaenorol hefyd yn bwriadu gwneud taliadau arbennig i ddiodefwyr cymwys a anafwyd ar 1 Ionawr 2002 neu wedi hynny ac sy'n diodef o anabledd parhaus yn sgil yr anafiadau a gawsant.

283. Cefnogwn y polisi cyffredinol hwn. Ni waeth a fydd ymosodiadau terfysgol wedi'u targedu at unigolion ynteu'n ddiwahân, gwneud datganiad gwleidyddol y bwriad terfysgaeth, ac mae'n ymosodiad ar wladwriaeth a'i phobl i gyd. Cynigiwn y dylid cyflwyno dau gynllun newydd gyda golwg ar ddiodefwyr terfysgaeth dramor:

- Cynllun statudol i roi iawndal i ddiodefwyr ymosodiadau terfysgol dramor yn y dyfodol, a hwnnw wedi'i seilio ar y Cynllun domestig diwygiedig a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd yn adlewyrchu'r mathau o daliadau sydd ar gael a'r symiau sy'n daladwy ond bydd gwahanol feini prawf cymhwysedd yn berthnasol.
- Cynllun ex gratia i wneud taliadau i ddiodefwyr cymwys a anafwyd ar 1 Ionawr 2002 neu wedi hynny ac sy'n dal i fod ag anabledd parhaus sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r anafiadau a gawsant. Yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan y weinyddiaeth flaenorol, seilir taliadau ar dariff y Cynllun domestig presennol yn unig; ni fydd dim taliadau ychwanegol am golli enillion na chostau arbennig, ac ni fydd taliadau ychwaith i'r rhai a gafodd brofedigaeth.

284. Bydd y ddau gynllun newydd yn cynnig taliadau i bobl o Brydain a'r UE/AEE sy'n diodef yn sgil terfysgaeth dramor, sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, gyda golwg ar ymosodiadau a ddynodir wedyn at ddibenion y cynlluniau. Byddwn yn cyhoeddi'r meini prawf cymhwysedd manwl wrth inni gyhoeddi'r cynllun ex gratia.

285. Gan nad yw'r cynlluniau hyn yn bolisiau newydd, nid ydym yn ceisio barn pobl amdanynt yn y ddogfen ymgynghori hon.

286. Nid ydym yn cynnig darparu iawndal a ariennir gan y wladwriaeth i ddiodefwyr troseddau trais eraill dramor.

Dynodi ymosodiadau at ddibenion y cynlluniau

287. Bydd dynodi ymosodiadau at ddibenion y cynlluniau hyn yn rhag-amod ar gyfer unrhyw daliad o dan y naill gynllun neu'r llall. Ar gyfer y cynllun statudol, mae adran 47 (2) o Ddeddf 2010 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi gweithred os:

- a. digwyddodd y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
- b. Digwyddodd ar 18 Ionawr 2010 neu wedi hynny (o safbwynt ymarferol, mae'r cynllun yn debygol o ddarparu ar gyfer dyddiad cychwyn hwyrach na hyn);
- c. Yng golwg yr Ysgrifennydd, bydd y weithred yn weithred derfysgol yn unol ag ystyr Deddf Terfysgaeth 2000 (gweler adran 1 o'r Ddeddf honno); a
- d. Wedi ystyried yr holl amgylchiadau, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn meddwl y byddai'n briodol dynodi'r weithred.

288. Bydd yr un meini prawf yn berthnasol i'r cynllun ex gratia ac eithrio y bydd yn berthnasol i ddigwyddiadau ar 1 Ionawr 2002 neu wedi hynny hyd at ddechrau'r cynllun statudol.
289. Fel yr awgrymwyd yn y dadleuon yn y Senedd wrth basio Deddf 2010, cynigiwn y dylai cyngor ynglŷn â theithio fod yn un amgylchiad perthnasol ar gyfer dynodi ym mharagraff (d) uchod. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, ni ddylid cynnwys hawliadau gan bobl sydd wedi teithio i wlad neu ranbarth yn groes i gyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Credwn fod hyn yn rhesymol oherwydd bod mwy o gyfle i unigolion sicrhau bod ganddynt ddarpariaethau digonol ar waith, megis gwarchodaeth ychwanegol gan eu cyflogwr neu warchodaeth yswiriant preifat efallai, er mwyn teithio i'r rhanbarthau hyn.
290. Credwn fod hyn yn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng diogelu adnoddau prin a dangos cefnogaeth i ddioddefwyr o Brydain a'r UE/AEE sydd wedi cael eu dal mewn gweithredoedd terfysgol dramor.
291. Byddwn yn rhoi manylion llawn pan fyddwn yn cyhoeddi'r cynllun ex gratia ym mis Ebrill.

Diffinio anabledd parhaus gyda golwg ar y cynllun ex gratia yn unig

292. Yn unol â'r datganiadau a wnaeth y weinyddiaeth flaenorol, bydd y cynllun ex gratia ar agor i bawb sy'n gymwys sydd ag anabledd parhaus o ganlyniad uniongyrchol i anaf a gafwyd yn ystod ymosodiad terfysgol dramor, a'r ymosodiad hwnnw wedyn yn cael ei ddynodi at ddibenion y cynllun.
293. Cynigiwn ddiffinio 'anabledd parhaus' yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n golygu:
- Rhaid bod gan y person nam sydd naill ai'n gorfforol neu'n feddyliol;
 - Rhaid i'r nam amharu arno mewn ffyrdd sylweddol;
 - Rhaid i'r effeithiau niweidiol sylweddol fod yn rhai tymor hir; a
 - Rhaid i'r effeithiau niweidiol sylweddol tymor hir fod yn effeithio ar weithgareddau beunyddiol arferol.
294. Rhaid ystyried pob un o'r ffactorau uchod wrth benderfynu a oes gan rywun anabledd parhaus.
295. Rhaid i'r anabledd parhaus fod wedi codi neu ei fod yn waeth o ganlyniad uniongyrchol i anaf a gafwyd yn ystod ymosodiad terfysgol dramor ac a ddynodwyd wedyn at ddibenion y cynllun. Rhaid iddo fod yn bresennol hefyd pan wneir cais i'r cynllun ex gratia.
296. Credwn mai'r ffordd orau o ddangos tystiolaeth o anabledd parhaus yw drwy dystiolaeth o driniaeth, asesiad gan Feddyg Teulu, neu lle bydd nam

meddyliol, gan seiciatrydd annibynnol, sy'n cadarnhau presenoldeb, natur ac achos tebygol yr anabledd.

297. Fel y dangoswyd gan y weinyddiaeth flaenorol, ni fydd y cynllun ex gratia ar agor i'r rheini sydd wedi ymadfer yn llwyr o'u hanafiadau nac mewn achosion lle cafwyd anaf marwol.

Gweithredu

298. Ochr yn ochr â'r Cynllun digolledu domestig diwygiedig, yn y dyfodol, bwriadwn gyflwyno gerbron y Senedd y cynllun statudol i ddiodefwyr terfysgaeth dramor. Rhoddir hwnnw ar waith ar ôl i'r Senedd ei gymeradwyo.

299. Byddwn yn lansio'r cynllun ex gratia ym mis Ebrill pan fydd yn agor ar gyfer ceisiadau. Bydd ar waith tan ddechrau'r cynllun statudol.

Atodiad A: Symiau'r dyfarniadau ac enghreifftiau o anafiadau ym mhob band tariff yn y cynllun cyfredol ac ar gyfer y cynllun diwygiedig a gynigir

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
1	£1,000	26	Nifer yr anafiadau	23	0	3
			Enghreifftiau o anafiadau	Mân ysigo neu dorasgwrn, sy'n para 6-13 wythnos ar gyfartaledd ynghyd ag ymadfer sylweddol, pryder meddwl dros dro	AMH	Mân achosion o gam-drin plant yn gorfforol, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	£0	AMH	£1,000
2	£1,250	4	Nifer yr anafiadau	4	0	0
			Enghreifftiau o anafiadau	Torri asgwrn bys ac ymadfer	AMH	AMH
			Swm y dyfarniad	£0	AMH	AMH
3	£1,500	19	Nifer yr anafiadau	18	0	1
			Enghreifftiau o anafiadau	Mân anafiadau ac anafiadau dros dro, e.e. torri bys troed, byddardod rhannol dros dro	AMH	Anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Swm y dyfarniad	£0	AMH	£1,500
4	£1,750	6	Nifer yr anafiadau	6	0	0
			Enghreifftiau o anafiadau	Mân anafiadau/anafiadau cymedrol i'r breichiau a'r pen a'r gwddw gydag ymadfer sylweddol, e.e. golwg aneglur, datgymalu ysgwydd	AMH	AMH
			Swm y dyfarniad	£0	AMH	AMH
5	£2,000	38	Nifer yr anafiadau	34	0	4
			Enghreifftiau o anafiadau	Anafiadau cymedrol gydag ymadfer sylweddol, e.e. torri asgwrn y llaw, llawfeddygaeth ar ben-glin, a datgymalu gên, anafiadau i'r dannedd	AMH	Achosion achlysurol difrifol o gam-drin plant neu oedolion yn gorfforol, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	£0	AMH	£2,000
6	£2,500	35	Nifer yr anafiadau	0	35	0

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	Anafiadau i'r llygad, creithio'r breichiau/coesau a'r torso, anafiadau cymedrol gydag ymadfer, e.e. torri bochgern	AMH
			Swm y dyfarniad	AMH	£1,000	AMH
7	£3,300	31	Nifer yr anafiadau	0	28	3
			Enghreifftiau o anafiadau	0	Torasgwrn cymedrol gydag ymadfer sylweddol, mân anafiadau i'r pen a cholli dannedd	Anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	£1,500	£3,300
8	£3,800	17	Nifer yr anafiadau	0	17	0
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	Anafiadau cymedrol parhaol sy'n anablu rhywun, e.e. torri esgyrn y traed, byddardod rhannol	AMH
			Swm y dyfarniad	AMH	£1,800	AMH
9	£4,400	39	Nifer yr anafiadau	0	38	1

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	Llosgiadau cymedrol, anafiadau cymedrol sy'n arwain at anabledd sylweddol parhaus, e.e. torri pont yr ysgwydd	Anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	£2,400	£4,400
			Nifer yr anafiadau	0	48	6
10	£5,500	54	Enghreifftiau o anafiadau	AMH	Patrymau cam-drin corfforol difrifol, difrod i'r golwg e.e. retina rhydd, torasgrwn sy'n creu anabledd difrifol e.e. torri fertebra	Anaf marwol - i bob hawlydd cymwys, achosion difrifol o gam-drin oedolion neu blant yn ddifrifol, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw, colli ffetws
			Swm y dyfarniad	AMH	£3,500	£5,500
			Nifer yr anafiadau	0	13	2
11	£6,600	15	Enghreifftiau o anafiadau	AMH	Anafiadau i fwy nag un goes/braich neu organ, e.e. twll yn yr ysgyfaint, difrod i'r gewynnau yn y ddwy goes/fraich	Anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	£4,600	£6,600

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
12	£8,200	52	Nifer yr anafiadau	0	48	4
			Engbreiffiau o anafiadau	AMH	Anafiadau i'r ymennydd, e.e. mân niwed i'r ymennydd, epilepsi sy'n cael ei reoli'n dda, datgymalu neu dorasgwrn sy'n achosi anabledd parhaus	Patrymau o gam-drin plant yn gorfforol, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	£6,200	£8,200
13	£11,000	33	Nifer yr anafiadau	0	0	33
			Engbreiffiau o anafiadau	AMH	AMH	Colli organ e.e. dueg, aren, llosgiadau a chreithio difrifol, torasgwrn a datgymalu sy'n achosi anabledd difrifol, anaf marwol – un hawlydd cymwys, anafiadau'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£11,000
14	£13,500	14	Nifer yr anafiadau	0	0	14

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Afiechyd meddwl sy'n creu anabledd (diagnosis seiciatrig), ac anafiadau difrifol parhaol, e.e. golwg aneglur neu ddwbl, colli bys mawr y troed, patrwm o gam-drin corfforol difrifol yn erbyn plant, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£13,500
15	£16,500	18	Nifer yr anafiadau	0	0	18
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Llosgiadau difrifol i'r pen a'r gwddw, mân niwed i'r ymennydd, colli bysedd neu fodiau neu ddifrod i'r synhwyrâu (arogli, blas), anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£16,500
16	£19,000	5	Nifer yr anafiadau	0	0	5

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Nam difrifol, e.e. nam ar leferydd, colli golwg yn rhannol, afiechyd meddwl sy'n achosi anabledd parhaol
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£19,000
17	£22,000	14	Nifer yr anafiadau	0	0	14
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Mân niwed i'r ymennydd, colli golwg mewn un llygad, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw, haint HIV/Hepatitis B/Hepatitis C sydd heb ei achosi yn sgil rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£22,000
18	£27,000	10	Nifer yr anafiadau	0	0	10
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Afiechyd meddwl sy'n achosi anabledd difrifol, llosgiadau difrifol a cholli swyddogaeth allweddol, e.e. coes (parlysu), llygad, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£27,000
19	£33,000	9	Nifer yr anafiadau	0	0	9
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Llosgiadau lu, anaf mewnol, colli swyddogaeth allweddol neu goes/fraich, e.e. Ileferydd, y fraich neu'r llaw wannaf o'r ddwy, anafiadau'n sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£33,000
20	£44,000	8	Nifer yr anafiadau	0	0	8
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Anaf mewnol a cholli swyddogaeth allweddol, e.e. tafod, clyw, epilepsi nad oes modd ei reoli, anafiadau sy'n codi yn sgil troseddau rhyw
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£44,000
21	£55,000	8	Nifer yr anafiadau	0	0	8

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Enghreiffiau o anafiadau	AMH	AMH	Niwed cymedrol i'r ymennydd, parlys a cholli swyddogaeth, e.e. ffrwythlondeb, y ddwy aren
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£55,000
22	£82,000	7	Nifer yr anafiadau	0	0	7
			Enghreiffiau o anafiadau	AMH	AMH	Niwed cymedrol sylweddol i'r ymennydd, parlys coesau/breichiau, e.e. yn y ddwy fraich
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£82,000
23	£110,000	6	Nifer yr anafiadau	0	0	6
			Enghreiffiau o anafiadau	AMH	AMH	Niwed difrifol cymedrol i'r ymennydd sy'n gofyn am ofal, colli golwg, colli breichiau/coesau
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£110,000
24	£175,000	2	Nifer yr anafiadau	0	0	2

Band	Cynllun presennol		Cynllun diwygiedig			
	Swm y dyfarniad presennol	Nifer yr anafiadau yn y cynllun presennol		Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Parlys difrifol y coesau a niwed difrifol iawn i'r ymennydd sy'n gofyn cael rhywfaint o ofal amser llawn
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£175,000
25	£250,000	2	Nifer yr anafiadau	0	0	2
			Enghreifftiau o anafiadau	AMH	AMH	Parlys llwyr a niwed difrifol iawn i'r ymennydd sy'n gofyn cael gofal amser llawn ac sy'n arwain at golli'r gallu i symud, colli'r synhwyrau a swyddogaethau
			Swm y dyfarniad	AMH	AMH	£250,000

Atodiad B: Nifer yr hawliadau ar gyfartaledd a'r gwariant a amcangyfrifir ym mhob band tariff ac effaith y diwygiadau arfaethedig i'r cynllun, gan seilio'r amcangyfrifon ar ddata 2008/09 a 2009/10

Band	Nifer yr hawliadau ¹				Gwariant a amcangyfrifir (£m) ²			
	Cynllun presennol	Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig ³	Cynllun presennol	Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig ³
1	5,610	5,240	0	370	5.6	5.2	0	0.4
2	2,070	2,070	0	0	2.6	2.6	0	0
3	6,310	6,250	0	60	9.5	9.4	0	0.1
4	640	640	0	0	1.1	1.1	0	0
5	4,010	3,470	0	530	8.0	6.9	0	1.1
6	2,660	0	2,660	0	6.6	0	6.6	0
7	3,830	0	2,990	840	12.6	0	9.8	2.9
8	2,220	0	2,220	0	8.4	0	8.4	0
9	3,300	0	3,150	140	14.5	0	13.8	0.7
10	1,630	0	700	920	8.9	0	4.2	4.8
11	400	0	150	250	2.6	0	0.9	1.7
12	1,310	0	1,080	240	10.7	0	8.7	2.0
13	1,490	0	0	1,490	16.3	0	0	16.3
14	310	0	0	310	4.2	0	0	4.2
15	660	0	0	660	10.9	0	0	10.9
16	100	0	0	100	2.0	0	0	2.0
17	480	0	0	480	10.4	0	0	10.4
18	60	0	0	60	1.7	0	0	1.7
19	10	0	0	10	0.4	0	0	0.4
20	60	0	0	60	2.5	0	0	2.5
21	10	0	0	10	0.8	0	0	0.8
22 ⁴	0	0	0	0	0.0	0	0	0.0

Band	Nifer yr hawliadau ¹				Gwariant a amcangyfrifir (£m) ²			
	Cynllun presennol	Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig ³	Cynllun presennol	Anafiadau nas cynhwysir yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w lleihau yn y cynllun diwygiedig ³	Anafiadau i'w gwarchod dan y cynllun diwygiedig ³
23	20	0	0	20	2.5	0	0	2.5
24	10	0	0	10	1.0	0	0	1.0
25	30	0	0	30	7.0	0	0	7.0

1. Daw'r data hyn o system weinyddol fawr ac felly dylid eu trin fel amcangyfrifon. Cyfartaledd wedi'i seilio ar amcangyfrifon 2008/09 a 2009/10 yw'r rhain wedi'u talgrynnu i'r 10 hawliad agosaf; mae'n bosib na fydd y cyfansymiau'n cyd-fynd a rhai'r Cynllun Presennol oherwydd y talgrynnu. Efallai na fydd cyfanswm nifer yr hawliadau ar gyfer anafiadau sydd heb eu gwarchod a nifer yr hawliadau ar gyfer anafiadau a warchodir yn cyd-fynd â'r cyfanswm oherwydd y talgrynnu. Anafiadau wedi'u gwarchod yw'r anafiadau hynny sy'n codi yn sgil troseddau rhyw, cam-drin corfforol a dyfarniadau i'r rhai mewn profedigaeth.
2. Cyfartaledd wedi'i seilio ar amcangyfrifon 2008/09 a 2009/10 yw'r rhain wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf; mae'n bosib na fydd cyfanswm y gwariant yn cyd-fynd a chyfansymiau'r Cynllun Presennol oherwydd y talgrynnu.
3. Amcangyfrifir effaith y diwygiadau a gynigir drwy ddefnyddio data ynglŷn â hawliadau'r gorffennol (2008/09 a 2009/10) ac felly nid yw ond yn cynnig awgrym ynglŷn â'r effaith bosibl ar nifer yr hawliadau yn y dyfodol a'r gwariant tebygol.
4. Ni chafwyd dim hawliadau ym Mand 22 yn 2008/09 ac yn 2009/10..

